Castell-nedd Port Talbot
Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLIA) (2023-2038)

Y Strategaeth a Ffefrir

(Dogfen Ymgynghori)



Cynllun Datblygu Lleol

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Rhagfyr 2024

Cynnwys

1 Pennod 1 - Cyflwyniad..... 1

1.1 Cyflwyniad..... 1

1.2 Beth yw'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid?..... 1

1.3 Cefndir..... 1

1.4 Beth yw'r Strategaeth a Ffefrir?..... 2

1.5 Y Camau Nesaf..... 3

1.6 Rhestr o'r Dogfennau Seiliedig ar Dystiolaeth..... 3

2 Pennod 2 –Deddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau.. 7

2.1 Deddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau..... 7

2.2 Cyd-destun Cenedlaethol..... 7

2.3 Cyd-destun Rhanbarthol..... 13

2.4 Cyd-destun Lleol..... 14

3 Pennod 3 – Cyd-destun Gofodol Castell-nedd Port Talbot..... 18

3.1 Cyd-destun Gofodol Castell-nedd Port Talbot..... 18

4 Pennod 4 - Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion..... 23

4.1 Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion..... 23

4.2 Materion Allweddol a Thueddiadau..... 23

4.3 Gweledigaeth..... 25

4.4 Amcanion..... 27

5 Pennod 5 - Asesiad Aneddiadau a Hierarchaeth Aneddiadau..... 29

5.1 Asesiad Aneddiadau a Hierarchaeth Aneddiadau..... 29

5.2 Yr Hierarchaeth Aneddiadau..... 29

6 Pennod 6 - Opsiynau Twf a Gofodol..... 32
6.1 Opsiynau Twf..... 32
6.2 Opsiynau Gofodol..... 34
7 Pennod 7 – Y Strategaeth a Ffefrir..... 37
7.1 Y Strategaeth a Ffefrir..... 37
8 Pennod 8 – Polisïau Strategol..... 43
8.1 Dewisiadau Strategol a Gofodol..... 43
8.1.1 PS1 Creu Lleoedd Strategol..... 44
8.1.2 PS2 Newid yn yr Hinsawdd..... 47
8.1.3 PS3 Argyfwng Byd Natur, Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol..... 49
8.1.4 PS4 Iechyd..... 51
8.1.5 PS5 Creu Lleoedd ar Waith..... 53
8.1.6 PS6 Ardaloedd Strategaeth..... 55
8.2 Lleoedd Actif a Chymdeithasol..... 57
8.2.1 PS7 Trafnidiaeth Gynaliadwy..... 57
8.2.2 PS8 Tai..... 60
8.2.3 PS9 Canolfannau Masnachol a Manwerthu..... 62
8.3 Lleoedd Cynhyrchiol, Mentrus..... 64
8.3.1 PS10 Twristiaeth..... 64
8.3.2 PS11 Adferiad Economaidd..... 65
8.3.3 PS12 Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel..... 67
8.3.4 PS13 Mwynau..... 69
8.3.5 PS14 Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy..... 71
8.4 Lleoedd Unigryw a Naturiol..... 72
8.4.1 PS15 Yr Amgylchedd Hanesyddol..... 72
8.4.2 PS16 Seilwaith Gwyrdd..... 74

8.4.3 PS17 Cefn Gwlad, Tirluniau, a'r Arfordir heb ei Ddatblygu..... 76
8.4.4 PS18 Amddiffyn yr Amgylchedd..... 77
9 Pennod 9 – Safleoedd Allweddol..... 79
9.1 Safleoedd Allweddol..... 79
9.2 Coed Hirwaun..... 79
9.3 Tir i'r dwyrain o'r Rhos..... 83
9.4 Tir yn ymyl Blaenbaglan..... 86
9.5 Fferm Fforest..... 89
9.6 Porthladd Port Talbot..... 92
9.7 Gwaith Dur Port Talbot..... 96
9.8 Parc Ynni Baglan..... 99
9.9 Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd (GCRE)..... 102
9.10 Canolfan Antur Wildfox..... 105

Atodiadau

Atodiad A: Rhestr o Canllawiau Cynllunio Atodol 107
Atodiad B: Adolygu Polisïau Rheoli Datblygu..... 108
Atodiad C: Rhestr Termau..... 120

Pennod 1 - Cyflwyniad



1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae gofyn bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn paratoi ac yn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), sy'n cyflwyno polisïau a chynigion cynllunio lleol penodol i ddylanwadu ar ddatblygiad eu hardaloedd yn y dyfodol dros gyfnod o 15 mlynedd. Cynlluniau datblygu sy'n darparu sylfaen ar gyfer y system gynllunio ac mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi'r cyd-destun, y cynigion a'r dull gweithredu polisi ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio ar draws ardal yr awdurdod lleol. Mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol gael eu paratoi yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau cynllunio cenedlaethol a strategaethau a pholisïau cenedlaethol a rhanbarthol, ac mae angen eu hadolygu o leiaf bob pedair blynedd, i sicrhau eu bod wedi'u diweddaru ac yn berthnasol.

1.1.2 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol cyntaf Castell-nedd Port Talbot yn ffurfiol ym mis Ionawr 2016 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2011 a 2026. Ar hyn o bryd dyma'r cynllun sy'n dal mewn grym ar gyfer ardal y fwrdeistref sirol. Fodd bynnag, mae gwaith wedi cychwyn nawr ar y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA) newydd i Gastell-nedd Port Talbot (CNPT), a fydd yn disodli'r cynllun presennol. Mae'r ddogfen hon (y Strategaeth a Ffefrir neu'r Cynllun Cyn Adnau) yn cynnwys amlinelliad drafft o gynigion cychwynnol y cyngor, gan gyflwyno'r strategaeth gyffredinol a'r dull gweithredu sydd i'w ddefnyddio ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid. Mae'n cael ei gyhoeddi nawr ar gyfer ymgynghori cyhoeddus a thrafodaeth.

1.2 Beth yw'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid?

1.2.1 Unwaith y caiff ei fabwysiadu'n ffurfiol, bydd Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Castell-nedd Port Talbot yn nodi ble a sut bydd datblygu newydd yn digwydd, a bydd yn cynnwys ystod o bolisïau cynllunio penodol i'r ardal leol, a fydd yn cyfeirio sut yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio. Bydd yn cynnwys dyraniadau safle ar gyfer gwahanol ddefnyddiau tir (megis tai neu gyflogaeth), ardaloedd, mannau a nodweddion i'w gwarchod, eu cadw a'u diogelu, a pholisïau strategol a manwl ar gyfer cyflawni amcanion a nodwyd, gan gynnwys rhoi sylw i argyfyngau'r hinsawdd a byd natur, diogelu'r amgylchedd, a chyflawni dylunio a chreu lleoedd o ansawdd uchel.

1.2.2 Rhaid gwneud pob penderfyniad cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd gan y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid y swyddogaeth statudol o fod yn sylfaen ar gyfer penderfynu ar bob cais cynllunio yng Nghastell-nedd Port Talbot.

1.3 Cefndir

1.3.1 Cychwynnodd adolygiad llawn o Gynllun Datblygu Lleol cyfredol Castell-nedd Port Talbot (2011-2026) ym mis Ionawr 2020 a chyhoeddwyd yr Adroddiad Adolygu terfynol ym mis Gorffennaf 2020[1] . Mae'r Adroddiad Adolygu yn crynhoi canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMBau) a newidiadau i ddeddfwriaeth, canllawiau a gwybodaeth y sylfaen o dystiolaeth ers mabwysiadu'r cynllun. Mae'n adolygu pob elfen o'r cynllun yn fanwl, ynghyd â'r Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) a chanfyddiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC), ac yn nodi'r rhannau o'r cynllun sy'n parhau i weithredu'n foddhaol, elfennau lle mae materion neu newid amgylchiadau wedi codi, ac ardaloedd y mae angen edrych arnynt o'r newydd yn y Cynllun Amnewid.

1 https://npt.gov.uk/media/n55nyra0/adroddiad-adolygur-cdll-gorffennaf-2020.pdf?mediaredirect=false&v=20241105164312

1.3.2 Mae paratoi Cynllun Datblygu Lleol Amnewid yn broses gymhleth gyda nifer o gamau statudol. Y cam cyntaf yw cytuno gyda Llywodraeth Cymru ar sut bydd yr ymgynghori'n digwydd (Cynllun Cynnwys y Gymuned), yr amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun, a'r adnoddau bydd yr awdurdod yn eu defnyddio i baratoi'r cynllun. Dyma'r *Cytundeb Cyflawni* (CC), un o ofynion statudol y broses o baratoi'r Cynllun.

1.3.3 Cafodd Cytundeb Cyflawni cyntaf Castell-nedd Port Talbot ei gymeradwyo a'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru yn 2022 ac wedi hynny dechreuodd gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid. Yn dilyn oedi oherwydd gofyniad i nodi tai ychwanegol ar ben y seilwaith presennol, a materion dichonolrwydd yr oedd angen amser ychwanegol i'w datrys, paratowyd ail Gytundeb Cyflawni a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2023, gan ddarparu ar gyfer amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi'r cynllun. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi proses o 3.5 mlynedd a ragwelir hyd at fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol amnewid ym mis Ebrill 2027, fydd yn cwmpasu'r cyfnod o 2023 i 2038.

1.3.4 Cyfnod y *Safleoedd Ymgeisiol* yw'r cyfnod cyntaf pwysig o gasglu tystiolaeth wrth baratoi'r cynllun, pan wahoddir awgrymiadau ar gyfer safleoedd addas i'w datblygu (yr alwad am safleoedd ymgeisiol). Cynhaliwyd yr alwad gyntaf am safleoedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid yng ngwanwyn 2022, gan wahodd cyflwyniadau gan ddatblygwyr, tirfeddianwyr a'r cyhoedd ar gyfer datblygiadau newydd, ailddatblygu neu warchod safleoedd yn y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid. Wedi hynny, cynhaliwyd ail alwad am safleoedd ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2023. Mae'r safleoedd a gyflwynwyd yn ystod y broses hon, ynghyd â'r safleoedd a nodwyd fel rhan o'r astudiaeth capasiti trefol a chyswllt â thirfeddianwyr, wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ffurfio Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid.

1.3.5 Mae manylion pellach ar gael ar wefan y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid[2]

1.4 Beth yw'r Strategaeth a Ffefrir?

1.4.1 Y Strategaeth a Ffefrir yw cyfnod ymgynghori statudol cyntaf y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol 14 ac 15. Mae'n darparu'r cyfeiriad strategol arfaethedig ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghastell-nedd Port Talbot dros y cyfnod 2023-2038, ac yn darparu'r fframwaith ar gyfer paratoi polisïau, cynigion a dyraniadau defnydd tir manylach a fydd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Adnau.

1.4.2 Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn rhoi sylw i'r cyd-destun cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac yn nodi'r prif faterion a heriau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol sy'n benodol i ardal leol Castell-nedd Port Talbot. Er mwyn ymateb i'r materion allweddol a'r heriau hyn, datblygwyd gweledigaeth a chyfres o amcanion, ac fe'u cyflwynir ym Mhennod 4.

1.4.3 Nod y strategaeth yw darparu opsiynau realistig ar gyfer graddfa twf yn y dyfodol o ran poblogaeth, tai a swyddi, a sefydlu dosbarthiad gofodol twf ar draws Castell-nedd Port Talbot er mwyn ymateb i'r anghenion y tystiwyd iddynt gan gymunedau a chyfeirio datblygu i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy, gan roi sylw i'r prif faterion. Cyflwynir hyn ym Mhennod 6.

1.4.4 Seiliwyd y Strategaeth a Ffefrir ar nifer o bolisïau strategol er mwyn rhoi'r strategaeth ar waith a rhoi sylw i'r amcanion a nodwyd yn y cynllun. Mae hefyd yn cynnwys y Safleoedd Allweddol hynny a nodwyd fel rhan annatod o gyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid, fel y gwelir ym Mhenodau 8 a 9.

1.4.5 Yn unol â'r gofynion statudol, bu'r Strategaeth a Ffefrir yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol, Asesiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Asesiad Effaith ar Iechyd, Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad Effaith ar y Gymraeg. Mae'r Strategaeth a Ffefrir hefyd wedi cael ei sgrinio ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Cyhoeddwyd y ddau asesiad ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer ymgynghori.

1.5 Y Camau Nesaf

1.5.1 Bydd sylwadau a ddaw i law yn ystod cyfnod y Strategaeth a Ffefrir, gan gynnwys cyflwyno safleoedd ymgeisiol newydd, yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r broses barhaus o gasglu tystiolaeth, ac adroddir arnynt i Gyngor Castell-nedd Port Talbot. Bydd unrhyw newidiadau a awgrymir yn llywio ymhellach baratoad y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Adnau, a fydd yn pennu polisïau a dyraniadau safle manwl, ac y mae'n rhaid iddo hefyd gael ei ystyried a'i gymeradwyo gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot cyn cyfnod statudol o isafswm o 6 wythnos o ymgynghori cyhoeddus, sydd i'w gynnal ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2025.

1.5.2 Y tu hwnt i gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Adnau, bydd y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid a'r dogfennau sy'n cyd-fynd ag ef yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad Cyhoeddus annibynnol. Wedi i'r Archwiliad gael ei gwblhau, cyflwynir Adroddiad Arolygydd rhwymol i'r Awdurdod, a bydd yn ofynnol bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn mabywsiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid o fewn wyth wythnos i'w dderbyn. Pan gaiff ei fabwysiadu, hwn fydd y cynllun datblygu ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio yng Nghastell-nedd Port Talbot.

1.6 Rhestr o'r Dogfennau Seiliedig ar Dystiolaeth

1.6.1 Paratowyd nifer o ddogfennau cefndir a phapurau a seiliwyd ar dystiolaeth yn ogystal, a dylid eu darllen i gael rhagor o fanylion am agweddau penodol ar y strategaeth a ffefrir:

Table 1.6.1

Dogfen	Disgrifiad
Cofrestrau Safleoedd Ymgeisiol	Cofrestr o'r safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd i'r Cyngor gan ddatblygwyr, perchnogion tir a phartion â diddordeb i'w hystyried ar gyfer datblygu yn y dyfodol, neu i'w gwarchod, yn ystod y ddwy alwad am safleoedd ac un alwad capasiti trefol.
Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)	Mae'r arfarniad yn ystyried effeithiau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol tebygol y CDLlA. Mae'r ACI yn ymgorffori Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol, Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad Effaith ar Iechyd ac Asesiad Effaith ar y Gymraeg.

1 Pennod 1 - Cyflwyniad


Dogfen	Disgrifiad
Crynodeb Annhechnegol yr ACI	Crynodeb annhechnegol o'r ACI.
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Mae'r asesiad hwn yn profi a fyddai'r CDLlA yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd sydd â phwysigrwydd Ewropeaidd.
Asesiad Twf Economaidd a Thai	Asesiad o berthnasoedd strategol a gweithredol tai ac economeg yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ystyriwyd twf economaidd posibl i'r dyfodol, swm a chyfansoddiad y tir cyflogaeth, a thwf aelwydydd i'r dyfodol.
Asesiad o'r Farchnad Dai Leol	Asesiad i adolygu'r farchnad dai bresennol, ystyried natur yr angen am dai marchnad a fforddiadwy yn y dyfodol, a darpariaeth tai arbenigol, er mwyn llywio datblygiad polisi.
Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (Cam 1)	Comisiynwyd yr asesiad Cam 1 hwn ar y cyd ag awdurdodau eraill yn y rhanbarth. Astudiaeth pen desg yw cam 1, er mwyn asesu risgiau llifogydd posibl ar draws ardal yr astudiaeth o bob ffynhonnell llifogydd.
Adolygiad Tir Cyflogaeth	Asesiad o'r cyflenwad a'r galw am dir cyflogaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan edrych ar ansawdd, dosbarthiad a nifer y safleoedd a'r adeiladau cyflogaeth sydd ar gael, ac addasrwydd safleoedd i ymateb i'r galw yn y dyfodol.
Asesiad Seilwaith Gwyrdd	Mae'n darparu trosolwg strategol o rwydwaith natur a Seilwaith Gwyrdd Castell-nedd Port Talbot, gan nodi'r rhwydwaith presennol, gwydnwch y rhwydwaith a'r prif faterion a chyfleoedd o ran Seilwaith Gwyrdd.
Asesiad o Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel	Asesiad o ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan roi sylw i'r galw presennol a phosibl am ynni, cynhyrchu ynni, cyfleoedd posibl o ran ynni adnewyddadwy a charbon isel, a thargedau a pholisiau posibl ar gyfer y CDLlA.
Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr	O dan Ran 3 o Ddeddf Tai (Cymru), astudiaeth i asesu anghenion llety'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn y dyfodol.
Astudiaeth Dichonoldeb Lefel Uchel	Asesiad dichonoldeb lefel uchel o'r cynllun cyfan, y mae'r Cyngor yn ei gynnal i asesu dichonoldeb datblygu ar draws yr Ardaloedd Marchnad Dai yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Dogfen	Disgrifiad
Asesiad Lletemau Glas	Asesiad i adolygu dynodiadau Lletem Las sydd eisoes yn bodoli yn y CDLl a fabwysiadwyd (2011-2026) ac i ystyried a oes angen dynodi Lletemau Glas yn y CDLlA.
Papur Cefndir Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion	Mae'r Papur hwn yn nodi'r Materion Allweddol, y Weledigaeth a'r Amcanion ar gyfer y CDLlA. Bydd y materion a'r blaenoriaethau a nodwyd yn cael eu symud ymlaen yn y CDLlA ac yn llywio'r dulliau gweithredu sydd i'w defnyddio fel rhan o'r Cynllun.
Asesiad Priffyrdd Strategol	Asesiad o effaith bosibl graddfa a lleoliad datblygu a gynigir yn y Strategaeth a Ffefrir, gan ddefnyddio Model Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y De-orllewin a'r Canolbarth.
Papur Cefndir y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV)	Adroddiad i ystyried lleoliad ac ansawdd tir amaethyddol, gan nodi sut bydd y Cyngor, trwy ei asesiad o Safleoedd Ymgeisiol a Safleoedd Capasiti Trefol, yn ystyried yr angen am leiafu'r Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV) a gollir.
Papur Twf ac Opsiynau Gofodol	Papur yn ystyried yr opsiynau gofodol a thwf posibl a realistig ar gyfer y CDLlA, gan roi sylw i ddeddfwriaeth, nodweddion a chyfyngiadau yng Nghastell-nedd Port Talbot, materion allweddol, rhagamcanion Llywodraeth Cymru a rhagolygon economaidd.
Astudiaeth Capasiti Trefol	Astudiaeth yn ystyried cyfleoedd datblygu posibl i lywio nodi dyraniadau safle, fydd yn cynorthwyo i arddangos sut cyflawnir y lwfans safleoedd annisgwyl, a ffurfio cofrestr o safleoedd addas sydd o dan y trothwy ar gyfer dyrannu fel rhan o'r CDLlA.
Cynllun Cyflawni Seilwaith	Asesiad o'r gofynion seilwaith sy'n angenrheidiol i gynnal datblygu yn y dyfodol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer ffyrdd newydd a chyfleusterau addysg.
Asesiad Aneddiadau	Asesiad o rôl, swyddogaeth a chynaliadwyedd aneddiadau yng Nghastell-nedd Port Talbot. Nodau'r asesiad yw pennu hierarchaeth aneddiadau fydd yn nodi'r aneddiadau mwyaf cynaliadwy a'r rhai sydd â chapasiti ar gyfer twf yn y dyfodol.

1 Pennod 1 - Cyflwyniad

Dogfen	Disgrifiad
Papur Pwnc Poblogaeth a Thai	Papur cefndir i edrych ar y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn y Strategaeth a Ffefrir yng nghyswllt Poblogaeth a Thai, gan gynnwys Tai Fforddiadwy a Sipsiwn a Theithwyr.
Papur Pwnc Yr Iaith Gymraeg	Papur cefndir i edrych ar y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn y Strategaeth a Ffefrir yng nghyswllt diogelu a hybu'r Gymraeg.
Papur Pwnc Cyflogaeth	Papur cefndir i edrych ar y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn y Strategaeth a Ffefrir yng nghyswllt yr Economi a Chyflogaeth.
Papur Pwnc Addysg	Papur cefndir i edrych ar y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn y Strategaeth a Ffefrir yng nghyswllt y ddarpariaeth addysg.
Papur Pwnc Trafnidiaeth	Papur cefndir i edrych ar y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn y Strategaeth a Ffefrir yng nghyswllt y Rhwydwaith Trafnidiaeth.
Ardaloedd Tirlun Arbennig (ATAoedd)	Mae'n cyflwyno'r fethodoleg a ddefnyddir i asesu ansawdd tirlun ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys ailasesu dynodiadau ATA presennol yn y CDLl a fabwysiadwyd (2011-2026) ac asesiad o'r cynigion ar gyfer datblygiadau mewn ATAoedd.
Papur Safleoedd Allweddol	Papur cefndir yn cynnwys rhagor o fanylion am y Safleoedd Allweddol a nodwyd ym Mhennod 9 o'r Strategaeth a Ffefrir.
Papur Profion Cadernid Hunanasesu/Cydweithio	Hunanasesiad yn erbyn y profion cadernid a throsolwg o'r cydweithio rhanbarthol a wnaed wrth baratoi'r Strategaeth a Ffefrir.

Pennod 2
Deddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau



2.1 Deddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau

2.1.1 Rhaid i'r CDLlA (gan gynnwys y Strategaeth a Ffefrir) roi sylw i unrhyw ddeddfwriaeth, rheoliadau, strategaethau, polisïau a chanllawiau perthnasol cenedlaethol, rhanbarthol a/neu leol, a chydymffurfio'n gyffredinol â nhw. Amlinellir y prif ddogfennau perthnasol isod.

2.2 Cyd-destun Cenedlaethol

Deddfwriaeth

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

2.2.1 Y Deddfau hyn yw'r prif ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n gosod sylfaen cyfreithiol ar gyfer y system gynllunio a'r mesurau rheoli cynllunio sy'n rheoleiddio datblygu yng Nghymru. Cyflwynodd Deddf 2004 system y Cynllun Datblygu Lleol, tra gwnaeth Deddf 2015 newidiadau pellach, gan gynnwys cyflwyno haen ranbarthol ychwanegol o lywodraethiant a fyddai'n cael ei darparu gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol, gyda gofyniad i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSiau) rhanbarthol. Mae Castell-nedd Port Talbot yn rhan o ranbarth De-orllewin Cymru, ond nid yw gwaith wedi cychwyn eto ar CDS De-orllewin Cymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn cyflawni datblygu cynaliadwy, gyda gofyniad bod sylw'n cael ei roi i bob un o'r pedair agwedd hon ar lesiant: cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, gyda golwg ar eu gwella. Diben statudol y system gynllunio yw gofyn bod pob awdurdod cynllunio yn ymarfer eu swyddogaethau'n unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, a diffinnir hynny yn y Ddeddf Llesiant:

2.2.3 "*Ystyr Datblygu Cynaliadwy* yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r bwriad o gyflawni'r nodau llesiant".

2.2.4 Mae egwyddor datblygu cynaliadwy yn gofyn bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.2.5 Mae'r Ddeddf Llesiant yn cynnwys saith nod Llesiant:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a
- Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

2.2.6 Er mwyn dangos bod ystyriaeth briodol wedi cael ei rhoi i'r nodau Llesiant ac egwyddor datblygu cynaliadwy yn y broses o wneud penderfyniadau, mae'n ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn rhoi sylw i'r 'pum ffordd o weithio' a geir yn y Ddeddf Llesiant. Mae'r rhain yn galw am ystyried:

- Cynnwys;
- Cydweithio;
- Integreiddio;

- Ataliaeth; a
- Ffactorau hirdymor.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

2.2.7 Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd gysyniad Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol, gan gynnwys y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol, a'r gofyniad i gynhyrchu Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ynghyd â chynhyrchu Datganiadau Ardal er mwyn darparu sylfaen leol o dystiolaeth.

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

2.2.8 Yn dilyn gwaith gan Lywodraeth Cymru i gadarnhau deddfwriaeth, daeth Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 i rym ar 4 Tachwedd 2024, gan ddisodli'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953
- Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
- Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

2.2.9 I gefnogi Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2024, daeth y ddeddfwriaeth eilaidd ganlynol i rym hefyd:

- Rheoliadau Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig (Cymru) 2024
- Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024
- Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adeiladau Crefyddol Esempt) (Cymru) 2024
- Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024
- Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau)(Cymru) 2024
- Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Deddfwriaeth Eilaidd) 2024

2.2.10 Wrth symud ymlaen, yng nghyd-destun deddfwriaethol yr amgylchedd hanesyddol, cyfeirir at y ddeddfwriaeth newydd a restrir uchod yn y Cynllun ac mewn Canllawiau Cynllunio Atodol lle bo hynny'n berthnasol.

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

2.2.11 Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn cyflwyno mesurau i hybu cerdded a beicio yn drafnidiaeth ar gyfer teithiau byr. Mae'n gofyn bod awdurdodau lleol yn ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr ac yn cyflwyno gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau teithio llesol.

2.2.12 Mae hefyd yn gofyn bod awdurdodau lleol yn nodi ac yn cynnig llwybrau addas ar gyfer teithio llesol ac yn cynhyrchu Mapiau o'r Rhwydwaith Teithio Llesol, gan nodi terfynau amser ar gyfer gweithredu.

Polisi Cenedlaethol

Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)

2.2.13 *Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040* yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol ar gyfer Cymru gyfan, ac mae'n pennu cyfeiriad cyffredinol datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Cynllun datblygu yw hwn sy'n cynnwys strategaeth ar gyfer rhoi sylw i flaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio. Mae'r blaenoriaethau hynny'n cynnwys:

- Cynnal a datblygu economi hyfyw;
- Cyflawni datgarboneiddio a gwydnwch o ran yr hinsawdd;
- Datblygu ecosystemau cryf; a
- Gwella iechyd a llesiant cymunedau.

2.2.14 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi ble mae angen twf a seilwaith pwysig yn genedlaethol, a sut gall y system gynllunio gyflawni hynny ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'n darparu cyfeiriad strategol ar gyfer CDSiau a CDLliau ac yn cefnogi sut penderfynir ar Ddatblygiadau ag Arwyddocâd Cenedlaethol. Bydd angen bod y CDLlA yn cydymffurfio â'r holl ddarpariaethau a nodir yn Cymru'r Dyfodol.

2.2.15 Mae Cymru'r Dyfodol yn cyflwyno'i gweledigaeth ar ffurf 11 deilliant sydd i'w cyflawni erbyn 2040:

2.2.16 ***Cymru lle mae pobl yn byw…***

1. ...ac yn gweithio mewn mannau cysylltiedig, cynhwysol a iach
2. ...mewn mannau gwledig bywiog gyda mynediad at gartrefi, swyddi a gwasanaethau
3. ...mewn rhanbarthau unigryw sy'n mynd i'r afael â iechyd ac anghydraddoldeb sosio-economaidd trwy dwf cynaliadwy
4. ...mewn mannau lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
5. ...ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ffocws ac yn sbardun ar gyfer twf cynaliadwy
6. ...mewn mannau lle mae ffyniant, arloesedd a diwylliant yn cael eu hyrwyddo
7. ...mewn mannau lle mae teithio'n gynaliadwy
8. ...mewn mannau sydd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf
9. ...mewn mannau sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd
10. ...mewn mannau sydd ag ecosystemau bioamrywiol, cydnerth a chysylltiedig
11. ...mewn mannau sydd wedi'u datgarboneiddio ac yn gydnerth o ran yr hinsawdd

2.2.17 Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn nodi meysydd cyffredinol ar gyfer twf a datblygiad, gwarchodaeth a chysylltedd trafnidiaeth, ynghyd ag egwyddorion a pholisi cynllunio.

2.2.18 Mae'n nodi cyfanswm o 36 polisi, y mae 18 ohonynt yn bolisïau cenedlaethol sy'n berthnasol i Gymru gyfan, gyda phedwar arall yn ymwneud yn benodol â rhanbarth y de-orllewin, sy'n cynnwys Castell-nedd Port Talbot. Isod amlinellir y polisïau mwyaf perthnasol i Gastell-nedd Port Talbot a'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLlA.

Polisi 1 – Ble bydd Cymru'n Tyfu: Nodir tair o Ardaloedd Twf Cenedlaethol (NGAs), sy'n cynnwys un yn Rhanbarth De-orllewin Cymru. Ategir Polisi 1 gan ***Polisi 28 – Ardal Twf Cenedlaethol – Bae Abertawe a Llanelli*** sy'n ymgorffori rhannau sylweddol o Gastell-nedd a Phort Talbot. Mae'r polisïau'n dangos y dylid canolbwyntio twf economaidd a thai, gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol, gweithgynhyrchu lefel uwch, trafnidiaeth a seilwaith digidol yn yr Ardal Twf Cenedlaethol (NGA).

Polisi 2 – Ffurfio Twf Trefol ac Adfywio – Creu Lleoedd Strategol: Cyflwynir egwyddorion allweddol creu lleoedd, i'w cymhwyso wrth benderfynu ar batrwm a lleoliad datblygiad newydd. Amlinellir egwyddorion creu lleoedd, gan gynnwys creu cyfuniad o ddefnyddiau ac amrywiaeth o fathau o dai a'u deiladaeth, adeiladu lleoedd ar raddfa lle mae modd cerdded, sicrhau bod datblygiad yn cael ei adeiladu â dwysedd priodol, ac integreiddio seilwaith gwyrdd.

Polisi 6 – Canol Trefi'n Gyntaf: Nodir yma bod rhaid lleoli cyfleusterau newydd sylweddol masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus yng nghanol trefi a dinasoedd, a bod rhaid defnyddio prawf dilyniannol wrth bennu lleoliad datblygiadau o'r fath.

Polisi 7 – Cyflwyno Cartrefi Fforddiadwy: Yma cadarnheir uchelgais Llywodraeth Cymru i gyflwyno lefelau sylweddol o dai fforddiadwy, gan gynnwys trwy'r system gynllunio.

Polisi 8 – Llifogydd: Cefnogir dulliau o reoli risg llifogydd sy'n hwyluso twf economaidd a chenedlaethol cynaliadwy, gan hybu datrysiadau seiliedig ar natur a cheisio mwyafu manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol seilwaith rheoli risg llifogydd.

Polisi 9 – Rhwydweithiau Ecolegol a Seilwaith Gwyrdd: Yma mae gofyn bod gweithredu tuag at ddiogelu a chreu rhwydweithiau ecolegol cydnerth a hybu seilwaith gwyrdd effeithiol trwy greu lleoedd. Dylid nodi ardaloedd presennol a phosibl sy'n bwysig o ran ecoleg a Seilwaith Gwyrdd mewn Cynlluniau Datblygu er mwyn hybu a diogelu eu swyddogaethau a'u cyfleoedd.

Polisi 11 – Cysylltedd Cenedlaethol a Pholisi 12 – Cysylltedd Rhanbarthol: Yma cwmpasir gwelliannau i'r rhwydwaith rheilffordd, bws a ffyrdd strategol a'r rhwydwaith beicio cenedlaethol. Mae'n nodi bod rhaid i ACLlau fwyafu'r cyfleoedd sy'n deillio o fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus, ac integreiddio dyraniadau safle, datblygiadau newydd a seilwaith â rhwydweithiau teithio llesol, gyda datblygiadau newydd yn cyfrannu at eu helaethu a'u gwella lle bo hynny'n briodol.

Polisi 16 – Rhwydweithiau Gwres Mae trefi Castell-nedd a Phort Talbot wedi'u nodi fel ardaloedd blaenoriaeth rhwydwaith gwres rhanbarthol.

Polisi 17 – Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig a *Polisi 18 – Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel ag Arwyddocâd Cenedlaethol:* nodwyd rhan sylweddol o gymoedd Castell-nedd Port Talbot yn rhan o ardal a rag-aseswyd ar gyfer ynni gwynt.

Polisi 31 – Metro'r De-orllewin: Cefnogir cynigion a dylid cynllunio twf ac adfywio i fwyafu'r cyfleoedd posibl sy'n deillio o well cysylltedd rhanbarthol.

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12), 2024

2.2.19 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad mwy manwl ar weithredu polisi cynllunio a chyflawni datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n integreiddio nodau llesiant darpariaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol â pholisi cynllunio cenedlaethol. Mae PCC yn cyflwyno rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy, gyda phwyslais ar greu lleoedd, sy'n cael ei ymgorffori fel egwyddor sylfaenol i gyflawni lleoedd cynaliadwy a chymunedau cydlynus.

2.2.20 Strwythurwyd y ddogfen yn bedair prif ran:

- *Dewisiadau Strategol a Gofodol: sy'n cwmpasu creu lleoedd ar waith ac yn strategol*
- *Lleoedd Gweithredol a Chymdeithasol: sy'n cwmpasu tai, teithio a thrafnidiaeth, gweithgareddau manwerthu/masnachol a defnyddiau cymunedol;*
- *Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus: sy'n cwmpasu defnyddiau a seilwaith economaidd, ynni ac adnoddau materol;*
- *Lleoedd Unigryw a Naturiol: sy'n cwmpasu'r amgylchedd hanesyddol, seilwaith gwyrdd, ansawdd aer, y sainlun a dileu risgiau.*

Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd

2.2.21 Mae'r Cynllun Gweithredu Economaidd yn cefnogi cyflwyno Ffyniant i Bawb – strategaeth genedlaethol Cymru. Mae'n cefnogi twf cynhwysol ar sail sylfeini cadarn, diwydiannau'r dyfodol a rhanbarthau cynhyrchiol. Y nod yw meithrin gwydnwch a chryfhau'r economi i'r dyfodol, ac mae'n nodi gweithgynhyrchu gwerth uchel, gwasanaethau y gellir eu masnachu (e.e. gwerthu gwasanaethau ar-lein), a galluogwyr (e.e. sectorau digidol neu adnewyddadwy) fel sectorau thematig cenedlaethol, a thwristiaeth, bwyd, manwerthu a gofal fel sectorau sylfaen. Mae'r Cynllun hefyd yn cyflwyno model newydd, â ffocws rhanbarthol, ar gyfer datblygu economaidd.

Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru, 2021

2.2.22 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru ym mis Mawrth 2021 (STC), gyda'r weledigaeth drosfwaol o gyflawni 'System drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon', oedd â'r prif nod o greu cymdeithas fwy llewyrchus, gwyrdd a chyfartal i bawb. Mae'n cyflwyno tri blaenoriaeth ar gyfer y 5 mlynedd nesaf:

- Dod â gwasanaethau at bobl er mwyn lleihau'r angen am deithio.
- Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn rhwydd o ddrws i ddrws trwy gyfrwng gwasanaethau trafnidiaeth a seilwaith hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon.
- Annog pobl i newid i drafnidiaeth sy'n fwy cynaliadwy.

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019

2.2.23 Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn bodoli ochr yn ochr â Cymru'r Dyfodol o ran nodi cyfleoedd a llywio datblygiad ar y lan ac oddi ar y lan. Bwriad y cynllun yw helpu i reoli'r galwadau cynyddol ar yr amgylchedd morol a chefnogi datblygiad economaidd sectorau morol mewn lleoliadau priodol, law yn llaw ag ymgorffori mesurau diogelu amgylcheddol ac ystyriaethau cymdeithasol. Mae manylion llawn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru[3].

Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol

2.2.24 Mae arweiniad pellach ar gael gan Lywodraeth Cymru ar ffurf cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs), sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru[4]. Gwelir y rhestr gyfredol isod yn nhabl 2.1.1.

Table 2.2.1 Nodiadau Cyngor Technegol

Rhif	Teitl	Dyddiad
MTAN 1	Agregau	Mawrth 2004
MTAN 2	Glo	Ionawr 2009
TAN 2	Cynllunio a Thai Fforddiadwy	Mehefin 2006
TAN 3	Parthau Cynllunio wedi'u Symleiddio	Tachwedd 1996
TAN 4	Datblygu Manwerthu a Masnachol	Tachwedd 2016
TAN 5	Cadwraeth Natur a Chynllunio	Medi 2009
TAN 6	Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy	Gorffennaf 2010

3 https://llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru

4 https://llyw.cymru/nodiadau-cyngor-technegol

2 Pennod 2 –Deddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau

TAN 7	Rheoli Hysbysebion Awyr Agored	Tachwedd 1996
TAN 10	Gorchmynion Cadw Coed	Hydref 1997
TAN 11	Sŵn	Hydref 1997
TAN 12	Dylunio	Mawrth 2016
TAN 13	Twristiaeth	Hydref 1997
TAN 14	Cynllunio Arfordirol	Tachwedd 2021
TAN 15	Datblygu a Risg Llifogydd (2004)	Tachwedd 2021
TAN 16	Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored	Ionawr 2009
TAN 18	Trafnidiaeth	Mawrth 2007
TAN 20	Cynllunio a'r Gymraeg	Hydref 2017
TAN 21	Gwastraff	Chwefror 2017
TAN 23	Datblygu Economaidd	Chwefror 2014
TAN 24	Yr Amgylchedd Hanesyddol	Mai 2017

2.3 Cyd-destun Rhanbarthol

Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru a'r Cynllun Datblygu Strategol

2.3.1 Sefydlwyd pedwar Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CBC) yn 2021, yn cwmpasu Cymru gyfan. Y CBCau sydd â chyfrifoldeb ym mhob un o'r pedwar rhanbarth am gynllunio datblygu strategol; cynllunio trafnidiaeth ranbarthol; a gwella llesiant economaidd pob ardal.

2.3.2 Mae gofyn bod y CBCau yn paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSiau) a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRhau) ar gyfer eu rhanbarthau, gyda'r bwriad o sicrhau bod materion allweddol, datblygiad a seilwaith cysylltiedig yn derbyn sylw mewn modd integredig, cynhwysfawr ar draws ardal ddaearyddol ehangach.

2.3.3 Yn achos y CDS, y camau cyntaf fydd bod y CBC yn llunio ac yn cytuno ar Gynllun Gyflawni'r CDS, ac wedi hynny ar 'Strategaeth a Ffefrir' a 'Chynllun Adnau', gan ddilyn y dull cyffredinol ar gyfer CDLliau. Bydd angen cytuno ar y CDS i'w gyflwyno ar gyfer Archwiliad Cyhoeddus. Ar ôl eu mabwysiadu, bydd CDSiau yn sefydlu polisi cynllunio strategol ar lefel ranbarthol.

2.3.4 Cyhoeddodd y CBC ei Gynllun Corfforaethol ym mis Mawrth 2023, yn manylu ar sut bydd yn datblygu trefniadau ar gyfer cynllunio strategol ac ar gyfer trafnidiaeth, ochr yn ochr â llwyddo i gyflawni'r dyheadau o ran ynni a datblygu economaidd. Ar hyn o bryd mae heriau ariannol yn cyfyngu ar allu'r CBC i ddechrau gweithio ar y CDS.

Ail Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (RTS2)

2.3.5 2.3.5 Mewn perthynas â mwynau, mae Castell-nedd Port Talbot yn rhan o Weithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP), a gomisiynodd y gwaith o baratoi RTS2, a gafodd ei gyhoeddi a'i gymeradwyo gan y Cyngor yn 2020. Pwrpas RTS yw sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn darparu cronfeydd digonol o agregau ar gyfer y diwydiant adeiladu a diwydiannau eraill yn y modd mwyaf cynaliadwy y gellir ei gyflawni'n rhesymol. Mae RTS2 yn ystyried cronfeydd y banc tir ac yn pennu dosraniadau ar gyfer cyfnod o 25 mlynedd, o 2016 hyd at 2041. Caiff cynnydd o ran cadw at y dosraniadau a nodwyd yn RTS2 ei fonitro'n flynyddol a'i gyflwyno yn Adroddiad Blynyddol SWRAWP, a'r diweddaraf o'r rhain sydd ar gael yw adroddiad 2022.

Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

2.3.6 *Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru (2015 - 2020):* Bu'r pedwar awdurdod yn Ne-orllewin Cymru yn gweithio ar y cyd i greu Cynllun Trafnidiaeth Lleol trosfwaol ar gyfer Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, gan ddisodli'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol blaenorol. Mae CTLl y Ddinas-Ranbarth yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer rhanbarth mwy cysylltiedig, ynghyd â 6 amcan. Yna mae'n mynd ymlaen i amlinellu pedair rhaglen leol o brosiectau trafnidiaeth, un ar gyfer pob un o'r ardaloedd awdurdod lleol. Mae'r rhaglen leol o brosiectau trafnidiaeth ar gyfer Castell-nedd Port Talbot yn nodi ac yn blaenoriaethu rhyw 30 o gynlluniau ar draws y fwrdeistref sirol. Mae manylion llawn y *Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru* ar gael ar wefan Castell-nedd Port Talbot[5].

2.3.7 Mae'r *Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol* sydd i ddod yn cael ei baratoi gan y CBC, a bydd yn cyflwyno polisïau ac ymyriadau lefel uchel i dywys datblygiad y rhwydwaith trafnidiaeth rhanbarthol yn ystod y cyfnod 2025-2030. Bydd yn esbonio sut caiff amcanion Llwybr Newydd:

5 https://npt.gov.uk/1461?lang=cy-gb

Strategaeth Trafnidiaeth Cymru eu datblygu gan y CBC yn rhanbarth de-orllewin Cymru. Mae'n ddyddiau cynnar o ran datblygu'r Cynllun, ond ar ôl ei fabwysiadu, bydd yn disodli'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol presennol ar y Cyd.

Bargen Ddinesig Bae Abertawe

2.3.8 Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe, a lofnodwyd ym mis Mawrth 2017, yn rhaglen fuddsoddi £1.3bn o 11 prosiect strategol ar draws Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, y disgwylir iddynt roi hwb o ryw £1.8bn i'r economi ranbarthol, a chreu bron 10,000 o swyddi newydd safon uchel. Mae Castell-nedd Port Talbot wedi arwain tri o'r 11 prosiect:

- Cartrefi sy'n Bwerdai;
- Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Gwasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf; a
- Gwyddor Dur

2.3.9 Mae manylion llawn ar gael ar wefan y Fargen Ddinesig[6].

Datganiad Ardal De-orllewin Cymru

2.3.10 Paratowyd y Datganiadau Ardal yn ymateb ar y cyd (a gydlynwyd gan CNC) i Bolisi Adnoddau Naturiol LlC, yn nodi'r prif heriau a chyfleoedd i reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy.

2.3.11 Mae Datganiad Ardal De-orllewin Cymru yn amlinellu'r prif heriau mae'r ardal yn eu hwynebu, beth sy'n gallu cael ei wneud i ymateb iddynt, a sut gallwn ni reoli ein hadnoddau naturiol yn well er lles cenedlaethau'r dyfodol.

2.3.12 Mae Datganiad Ardal De-orllewin Cymru yn cwmpasu pedair prif thema:

- Lleihau anghydraddoldebau iechyd;
- Sicrhau bod tir yn cael ei reoli'n gynaliadwy;
- Gwyrdroi dirywiad bioamrywiaeth, a'i wella; a
- Lliniaru ac addasu i hinsawdd newidiol (thema drosfwaol)

2.3.13 Rhoddir gwybodaeth ar lefel ardal am gynefinoedd cyffredinol; mannau a ddiogelir; rhestrau coedwig cenedlaethol; data ar gydymffurfiaeth â gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr; tir cyffredin; a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

2.3.14 Mae Datganiad Ardal De-orllewin Cymru ar gael ar wefan CNC[7].

2.4 Cyd-destun Lleol

Adfer, Ailosod, Adnewyddu: Cynllun Corfforaethol Castell-nedd Port Talbot 2022-2027

2.4.1 Mae Cynllun Corfforaethol Castell-nedd Port Talbot yn cyflwyno blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys adfer wedi pandemig Covid-19 a sut bydd yr awdurdod yn ailosod ac yn adnewyddu i wynebu heriau'r dyfodol.

6 https://bargenddinesigbaeabertawe.cymru/

7 https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/strategies-plans-and-policies/area-statements/?lang=cy

2.4.2 Roedd y Cynllun Corfforaethol yn dilyn ymlaen o'r ymgyrch Dewch i Sgwrsio, ymarferiad ymgynghori helaeth penagored â'r cyhoedd, a gynhaliwyd yn ystod 2020 a 2021, ac a lywiwyd ymhellach gan ymatebion ysgrifenedig ac ymatebion holiadur ynghylch y cynllun drafft (Gweler Adroddiadau Cabinet Cyngor Castell-nedd Port Talbot a'r atodiadau)[89]

2.4.3 Mae'r Cynllun Corfforaethol (2022) yn nodi materion allweddol a thueddiadau y mae angen rhoi sylw iddynt, ac yn cynnwys gweledigaeth sy'n cwmpasu pedwar prif amcan:

- Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd;
- Bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy;
- Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein treftadaeth a'n diwylliant;
- Bod pobl leol yn fedrus ac yn gallu cael mynediad at swyddi gwyrdd o safon uchel.

2.4.4 *2.4.4 Mae Adfer, Ailosod, Adnewyddu* ar gael ar wefan Castell-nedd Port Talbot[10].

Cynllun Llesiant Castell-nedd Port Talbot 2023 - 2028

2.4.5 Mae'r Cynllun Llesiant yn cael ei baratoi gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot, ac fe'i cyhoeddwyd yn dilyn ymgynghoriad â'r cyhoedd ym mis Mai 2023. Mae'r Cynllun yn nodi amcanion llesiant lleol; camau i'w cymryd i gyflawni'r amcanion hynny; amserlenni a chyfrifoldebau a manylion ynghylch sut cyflawnir y camau yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy.

2.4.6 Mae'r amcanion llesiant lleol yn adlewyrchu amcanion cynllun corfforaethol y Cyngor:

- Sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd;
- Sicrhau bod ein holl gymunedau yn llewyrchus ac yn gynaliadwy;
- Sicrhau bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth;
- Sicrhau bod mwy o swyddi diogel, gwyrdd am gyflog da, a bod sgiliau'n gwella ar draws yr ardal.

2.4.7 Mae Cynllun Llesiant Castell-nedd Port Talbot ar gael ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus[11].

Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Castell-nedd Port Talbot 2023 - 2026

2.4.8 O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae angen i'r Cyngor wneud y canlynol 1: Cynnal a gwella bioamrywiaeth a 2: Hybu gwydnwch ecosystemau ochr yn ochr â chyflawni ei swyddogaethau. Mae'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth (CDB) yn dangos sut bydd Castell-nedd Port Talbot yn cyflawni'r ddyletswydd honno ac yn gweithredu fel sbardun ar gyfer gweithgareddau cadwraeth ar draws y fwrdeistref sirol. Cymeradwywyd y CDB ym mis Rhagfyr 2023.

2.4.9 Lluniwyd camau gweithredu penodol y CDB yn unol ag amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) Cymru:

8 https://democracy.npt.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=158&MId=10330&LLL=1

9 https://democracy.npt.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=158&MId=10376&LLL=1

10 https://npt.gov.uk/cy/cyngor/strategaethau-a-pholisiau/blaenoriaethau-a-pherfformiad/cynllun-corfforaethol-2022-2027/

11 https://npt.gov.uk/psb?lang=cy-gb

1. Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ar draws y penderfyniadau a wneir ar bob lefel;
2. Diogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf a gwella'r rheolaeth arnynt;
3. Cynyddu gwydnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi diraddio a chreu cynefinoedd;
4. Mynd i'r afael â'r prif bethau sy'n rhoi pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd;
5. Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro;
6. Rhoi fframwaith llywodraethu a chefnogi cyflawni yn ei le.

2.4.10 Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys y rhestr lawn o gamau gweithredu CDB, ar gael ar wefan Castell-nedd Port Talbot[12].

Strategaeth Diwylliant CNPT 2023

2.4.11 2.4.11 Gweledigaeth Strategaeth Diwylliant Castell-nedd Port Talbot yw y bydd Castell-nedd Port Talbot, erbyn 2030, yn *dod yn gyrchfan a gydnabyddir yn genedlaethol, gydag enw da am arlwy amrywiol, hygyrch, safonol o ran chwaraeon, treftadaeth, y celfyddydau a diwylliant i ymwelwyr a thrigolion*. Mae'n nodi pum prif thema:

1. Arloesedd
2. Ynni
3. Iechyd
4. Doniau
5. Calon Gymreig

2.4.12 Nodir cyfanswm o 57 cam gweithredu penodol, wedi'u dosbarthu o dan y pum thema, i gyflawni'r weledigaeth. Ceir manylion llawn am y camau gweithredu a gwybodaeth bellach ynghylch dogfen lawn y Strategaeth Diwylliant, ar wefan Castell-nedd Port Talbot[13].

Strategaeth Treftadaeth Castell-nedd Port Talbot 2024- 2039

2.4.13 Gweledigaeth Strategaeth Treftadaeth Castell-nedd Port Talbot *yw sicrhau bod treftadaeth Castell-nedd Port Talbot yn cael ei chadw, ei diogelu a'i bod yn gynaliadwy*. Nodir cyfres o amcanion o dan 5 prif thema:

1. Deall ein treftadaeth a'i harwyddocâd
2. Cadw ein treftadaeth a buddsoddi ynddi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
3. Gwneud yn fawr o'n treftadaeth ac adeiladu arni
4. Rheoli ein treftadaeth yn gadarnhaol
5. Dathlu a hyrwyddo ein treftadaeth

2.4.14 Nodir cyfanswm o 71 o amcanion ar gyfer cyflawni'r weledigaeth, wedi'u dosbarthu o dan y themâu a'r amcanion. Mae dogfen lawn y Strategaeth Treftadaeth, dogfen grynhoi, a manylion llawn yr amcanion a'r camau gweithredu ar gael ar wefan Castell-nedd Port Talbot[14].

12 https://npt.gov.uk/cy/diwylliant-a-thwristiaeth/cefn-gwlad-a-bywyd-gwyllt/cyfreithiau-bywyd-gwyllt-a-chyngor/cynllun-dyletswydd-bioamrywiaeth/

13 https://npt.gov.uk/cy/cyngor/strategaethau-a-pholisiau/pobl-a-lleoedd/strategaeth-diwylliant-2023/

14 https://npt.gov.uk/cy/cyngor/strategaethau-a-pholisiau/pobl-a-lleoedd/strategaeth-treftadaeth-2024-2039/

Siarter Creu Lleoedd Cymru

2.4.15 Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi llofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru, siarter a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru, ynghyd â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru. Mae'r rhai sy'n ei llofnodi yn addunedu i gynnwys y gymuned leol wrth ddatbygu cynigion, dewis lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd, a rhoi blaenoriaeth i gerddwyr, beicwyr a thrafnidiaeth gyhoeddus.

2.4.16 Mae siarter Creu Lleoedd Cymru yn cyflwyno chwe egwyddor:

- ***Pobl a chymuned:*** Mae'r gymuned leol yn ymwneud â datblygu cynigion. Mae anghenion, dyheadau, iechyd a llesiant pawb yn cael eu hystyried o'r cychwyn. Caiff cynigion eu llunio i helpu i ymateb i'r anghenion hynny yn ogystal â chreu, integreiddio, diogelu a/neu wella ymdeimlad o gymuned a hybu cydraddoldeb.
- ***Lleoliad:*** Dylai lleoedd dyfu a datblygu mewn ffordd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, yn cefnogi ac yn gwella lleoedd sydd eisoes yn bodoli, ac sydd â chysylltiadau da. Caiff lleoliad tai, cyflogaeth a hamdden a chyfleusterau eraill eu cynllunio i helpu i leihau'r angen am deithio.
- ***Hunaniaeth:*** Caiff nodweddion cadarnhaol, unigryw lleoedd sydd eisoes yn bodoli eu gwerthfawrogi a'u parchu. Nodir nodweddion a chyfleoedd unigryw lleoliad, gan gynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith, adeiladu a phriodweddau ffisegol naturiol, ac ymateb iddynt.
- ***Symud:*** Rhoddir blaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn darparu dewis o ddulliau trafnidiaeth ac osgoi dibynnu ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol diogel, a ddyluniwyd yn dda, yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol ehangach, ac mae gorsafoedd ac arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u hintegreiddio'n gadarnhaol.
- ***Cyfuniad o ddefnyddiau:*** Mae gan leoedd ddibenion amrywiol sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleoedd trwy gerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd datblygiad a chyfuniad o ddefnyddiau a deiladaeth yn helpu i gynnal cymuned amrywiol a pharth cyhoeddus hyfyw.
- ***Y parth cyhoeddus:*** Mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol, gyda hunaniaeth amlwg. Maent wedi'u llunio i fod yn gadarn ac fel bod modd eu haddasu, gyda thirwedd, seilwaith gwyrdd a draenio cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Mae cysylltiad da rhyngddynt a lleoedd sydd eisoes yn bodoli, ac maent yn hybu cyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol ac ystod o weithgareddau i bawb.

2.4.17 Mae manylion llawn y Siarter Creu Lleoedd ar gael ar wefan Siarter Creu Lleoedd Cymru[15].

15 https://cy.dcfw.org/

Pennod 3
Cyd-destun Gofodol Castell-nedd Port Talbot



3 Pennod 3 – Cyd-destun Gofodol Castell-nedd Port Talbot

3.1 Cyd-destun Gofodol Castell-nedd Port Talbot

3.1.1 Mae Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi'i lleoli ar yr arfordir rhwng Dinas a Sir Abertawe i'r gorllewin a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r dwyrain. Mae Castell-nedd Port Talbot hefyd yn rhannu ffiniau â Sir Gaerfyrddin, Powys, Rhondda Cynon Taf a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

3.1.2 Ar adeg cyfrifiad 2021, roedd gan Gastell-nedd Port Talbot boblogaeth breswyl o 142,300, gyda 62,373 o aelwydydd. Mae tua 70% o'r boblogaeth yn byw yn y tair ardal drefol fwyaf, sef Port Talbot, Castell-nedd a Phontardawe. O ran gofod, mae'n cwmpasu ardal o fwy na 44,217 hectar, ac mae amrywiol nodweddion ffisegol, daearyddol ac amgylcheddol ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae gan ein cymunedau gyfoeth o dreftadaeth a diwylliant hanesyddol, ac mae nifer o nodweddion arbennig yn gwneud Castell-nedd Port Talbot yn unigryw.


3.1.3 Mae'r ardal arfordirol yn cwmpasu llain arfordirol gymharol gul sy'n estyn ar hyd Bae Abertawe, lle ceir y prif ganolfannau poblogaeth, cyflogaeth a choridor yr M4, gyda threfi Castell-nedd a Phort Talbot yn aneddiadau mwyaf. Yn yr ardal hon, sydd â chysylltiadau trafnidiaeth da o ran ffyrdd a rheilffyrdd, y gwelwyd y crynodiad mwyaf o ddatblygiadau tai a chyflogaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

3.1.4 Y 'cymoedd' yw'r ardaloedd sy'n weddill, ac fe'u nodweddir hwythau gan dirlun deniadol dyffrynnoedd afonydd, a wahanir gan lwyfandir uchel a mynyddoedd. Mae pum prif gwm yn yr ardal hon, Cwm Afan, Dyffryn Aman, Cwm Dulais, Cwm Nedd a Chwm Tawe.

3.1.5 Mae'r cymoedd yn wledig eu natur ac mae cymunedau ar wasgar trwyddynt. Er bod cymeriad a hunaniaeth unigol cryf gan y cymoedd unigol, maent yn rhannu nodweddion a phroblemau cyffredin. Yn hanesyddol, mae adeiladu tai ar raddfa fawr wedi cael ei gyfyngu'n bennaf i Bontardawe a phen uchaf Cwm Tawe.

3.1.6 I adlewyrchu'r nodweddion, rhannwyd y fwrdeistref sirol yn wyth ardal ofodol, fel y dangosir yn Ffigur 3.1 isod.


Ffigur 3.1 Cyd-destun Gofodol Castell-nedd Port Talbot



Yr Economi a Chyflogaeth

3.1.7 Yn ôl cyfrifiad 2021, mae cyflogaeth yn y fwrdeistref sirol yn cynnwys cyfran gymharol uchel o swyddi yn y sectorau gweithgynhyrchu a chyhoeddus, a chyfran gymharol isel yn y sector gwasanaeth. Ceir crynodiadau cyflogaeth mwyaf yr awdurdod ar hyd coridor yr arfordir, ac yn benodol o amgylch yr M4, sy'n adlewyrchu'r prif grynodiadau o weithgaredd diwydiannol (yn arbennig o amgylch Port Talbot) a dosbarthiad cysylltiadau trafnidiaeth â phrif safleoedd cyflogaeth. Tu hwnt i'r coridor arfordirol hwn, yn y cymoedd, mae'r cyflenwad o swyddi'n wannach ac yn fwy ar wasgar. Yma, mae cysylltiadau trafnidiaeth yn wannach, ac mae'r rhan fwyaf o'r swyddi mewn mentrau bach a chanolig.

Map 3.1 Topograffi a Phrif Aneddiadau Castell-nedd Port Talbot



© Hawlfraint y Goron 2024 OS 100023392
© Crown copyright 2024 OS 100023392

3.1.8 Cyflogir cyfran gymharol uchel o bobl mewn gwaith gweinyddu a chymorth, tra bod y niferoedd a gyflogir mewn gwaith rheoli a phroffesiynol a'r rhai sy'n hunangyflogedig yn is na chyfartaledd Cymru. Mae cyfran y bobl sy'n economaidd segur yn uwch na'r cyfartaledd ar draws Cymru, ac mae gan y boblogaeth dros 16 gymwysterau is na chyfartaledd Cymru. Yn ôl cyfrifiad 2021, mae mwy o bobl yn teithio allan o'r Fwrdeistref Sirol i gael hyd i waith nag sydd yn teithio i mewn iddi.

3.1.9 Mae'r patrwm hwn o ran teithio i'r gwaith yn adlewyrchu'r ffaith bod y Fwrdeistref Sirol yn rhan o ardal ehangach teithio i'r gwaith Bae Abertawe. Mae'r gronfa o dir diwydiannol sydd â mynediad hwylus at ffyrdd, y rheillfordd a'r môr yn cyflawni rôl bwysig yn yr is-ranbarth, fel y bydd Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe ar Ffordd Fabian.

3.1.10 Fodd bynnag, mae cau'r ffwrneisiau chwyth yn Tata Steel yn ddiweddar, a phontio'r gweithredu yno at gynhyrchu dur mwy gwyrdd trwy ffwrnais arc trydan yn ystod y blynyddoedd nesaf, ochr yn ochr â chyhoeddi dynodiad y Porthladd Rhydd Celtaidd ym Mhort Talbot, yn golygu bod proffil economaidd yr ardal yn newid yn ddramatig.

Trafnidiaeth a Seilwaith

3.1.11 Croesir coridor yr arfordir gan y prif seilwaith ffyrdd a rheilffordd sy'n darparu sylfaen i'r fwrdeistref sirol fel ardal gyflogaeth allweddol yn yr is-ranbarth, gan ddarparu cysylltiadau i'r dwyrain, ar hyd yr M4 a'r rheilffordd, i Gaerdydd a'r tu hwnt, i'r gorllewin i Abertawe, ac i Ganolbarth Lloegr ar hyd cefnffordd yr A465, ffordd Blaenau'r Cymoedd. Mae'r gwaith i droi'r A465 i'r gogledd o Lyn-nedd yn ffordd ddeuol wedi bod yn mynd rhagddo ers sawl blwyddyn, ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau yn 2025, gan ganiatáu cysylltiadau cryfach â Chanolbarth Lloegr. Ar ben hynny, mae'r Map o'r Rhwydwaith Teithio Llesol wedi gweld nifer o gynlluniau newydd yn cael eu rhoi ar waith ar draws yr awdurdod. Yn olaf, mae'r dociau ym Mhort Talbot hefyd yn ased i'r ardal, gan ddarparu ar gyfer cargo cyffredinol a chyfleusterau dŵr dwfn ar gyfer cargo swmpus.

Treftadaeth

3.1.12 Mae gan yr ardal gyfoeth o asedau hanesyddol, archaeolegol a phensaernïol, yn arbennig o ran hanes diwydiannol yr ardal ym meysydd glo, haearn, dur a chopr. Roedd Castell-nedd Port Talbot yn ganolog i chwyldro diwydiannol Cymru, yn arbennig o ran cloddio am lo, smeltio copr, a chynhyrchu haearn. Mae'r rhanbarth yn gartref i safleoedd diwydiannol hanesyddol fel Ystâd y Gnoll, hen ystâd gwaith haearn, a gwaith haearn Mynachlog Nedd, a fu ar un adeg yn ganolbwynt diwydiannol. Mae Camlas Abertawe a Chamlas Tenant yn weddilliol o gysylltiadau trafnidiaeth cadarn y rhanbarth ar gyfer gweithgareddau masnach a diwydiannol.

3.1.13 Mae ganddi hefyd lawer o weddillion archaeolegol hŷn, sy'n dyddio nôl i'r cyfnod cyn y Rhufeiniaid, yn cynnwys Mynachlog Nedd, un o fynachlogydd canoloesol mwyaf a phwysicaf Cymru, a Chastell Nedd, caer Normanaidd sydd mewn cyflwr da. Ar ben hynny, mae Abaty Margam a'r parcdir cysylltiedig yn arddangos nodweddion pensaernïol canoloesol ac ôl-ganoloesol. Mae'r rhain i gyd yn nodweddion pwysig yn yr ardal, ac yn ei gwneud yn unigryw, yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth a hamdden.

Y Tirlun ac Ecoleg

3.1.14 Mae gan Gastell-nedd Port Talbot dirlun amrywiol a nifer o gynefinoedd unigryw, o forfa heli arfordirol a thwyni tywod i goetir hynafol ac ardaloedd ucheldir lle mae glaswellt y gweunydd yn tyfu. Mae gan rai o'r cynefinoedd hyn bwysigrwydd Ewropeaidd, Cenedlaethol

neu leol. Mae ardaloedd helaeth o'r fwrdeistref sirol yn cynnwys planigfeydd conifferau, ac mae'r ardal hefyd yn cynnwys nodweddion daearegol pwysig, gan gynnwys dyffrynnoedd rhewlifol a ffurfiannau creigiau.

3.1.15 Nodweddir yr ardal gan ucheldir garw, gan gynnwys rhannau o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae Cymoedd Afan a Nedd yn nodweddion trawiadol, gyda llethrau coediog serth a systemau afonydd. Mae'r cymoedd a'r bryniau yn goediog dros ben, gyda choedwigoedd masnachol fel Parc Coedwig Afan yn cynnig cynefinoedd bywyd gwyllt a chyfleoedd hamdden. Mae'r parc hefyd yn enwog am ei lwybrau beicio mynydd.

3.1.16 Mae gan y sir arfordir helaeth ar hyd Bae Abertawe, gyda thwyni tywod, traethau, a Thwyni Crymlyn, sydd ag arwyddocâd ecolegol. Mae'r ardal hon yn cynnwys morfeydd heli a thraethelli llaid sy'n cefnogi amrywiaeth o adar a rhywogaethau morol. Ffurfir y rhanbarth gan afonydd Nedd, Afan a Dulais, sy'n darparu cynefinoedd pwysig ar gyfer rhywogaethau fel dyfrgwn ac eogiaid. Mae'r gwlyptiroedd a'r corsydd yn cyfrannu bioamrywiaeth, gan gynnal amrywiaeth o adar a rhywogaethau prin o blanhigion.

Adnoddau Naturiol

3.1.17 Mae'r fwrdeistref sirol yn cynnwys adnoddau mwynau, y mae i rai ohonynt arwyddocâd ar raddfa'r Deyrnas Unedig. Maent hefyd yn bwysig o ran eu cyfraniad i economi Cymru ac yn fwy lleol o ran cyflogaeth.

3.1.18 Mae'r ddwy brif chwarel yn yr ardal ar gyfer cerrig caled, yn y Gilfach (Castell-nedd) a Chwm Nant Lleici (Pontardawe), yn cyflenwi agregau o ansawdd uchel i'r farchnad ranbarthol ac ar draws y Deyrnas Unedig. Mae argaeledd agregau o'r fath yn lleol, ac yn gyfyngedig iawn, ac felly'n cynrychioli cynnyrch gorau'r diwydiant chwarela cerrig caled.

3.1.19 Oherwydd yr ardaloedd ucheldir helaeth yn y fwrdeistref sirol, mae potensial sylweddol hefyd i wneud yn fawr o adnodd y gwynt, ac mae *Cymru'r Dyfodol* yn nodi rhan o'r ardal fel Ardal a Ragaseswyd ar gyfer ynni gwynt.

Pennod 4

Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion



4.1 Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion

4.1.1 Er mwyn pennu'r nodau a'r amcanion cyffredinol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid, mae angen nodi a chytuno ar y Materion Allweddol y dylai'r cynllun ganolbwyntio arnynt, y Weledigaeth gyffredinol o ran yr hyn y mae'r cynllun yn ceisio'i gyflawni, a phennu Amcanion penodol i'r cynllun ymdrin â nhw yn deillio o hynny. Mae'r bennod hon yn amlinellu sut yr aed ati, y gwaith a wnaed, ac yn cyflwyno'r elfennau drafft a gafwyd o ganlyniad.

4.2 Materion Allweddol a Thueddiadau

4.2.1 Wrth nodi'r Materion Allweddol, yr heriau neu'r sbardunau y bydd angen i'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid ymdrin â nhw, y cam cyntaf oedd cymharu, asesu/addasu a chyfuno'r materion a nodwyd yng nghynlluniau a strategaethau presennol Castell-nedd Port Talbot, ynghyd â'r materion eraill a restrir isod:

1. Y Materion Allweddol o Gynllun Datblygu Lleol cyntaf Castell-nedd Port Talbot (y rhain oedd y man cychwyn ar gyfer yr adolygiad);
2. Newidiadau i ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau;
3. Canfyddiadau a'r materion oedd yn codi o Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol a'r Adroddiad Adolygu;
4. Tystiolaeth a gwybodaeth newydd o arolygon ac astudiaethau a gynhaliwyd gan y cyngor a chyrff eraill ar newidiadau i amgylchiadau economaidd neu gymdeithasol lleol a chenedlaethol (gan gynnwys yr ailstrwythuro arfaethedig yn y diwydiant dur, a sefydlu'r Porthladd Rhydd Celtaidd, gan gynnwys Harbwr Port Talbot, ymhlith materion eraill);
5. Y materion a'r themâu a ddaeth i'r amlwg o'r mentrau *Dewch i Sgwrsio a Daliwn Ati i Sgwrsio* sy'n cael eu datblygu yn y Cynllun Corfforaethol (Adnewyddu, Ailosod, Adfer) a Chynllun Llesiant Castell-nedd Port Talbot;
6. Y materion a nodwyd gan waith a wnaed wrth baratoi'r Cynllun Corfforaethol amnewid a'r Cynllun Llesiant.

4.2.2 Ar ben hynny, ymgynghorwyd â rhanddeiliaid fel rhan o'r broses, gan arwain at nifer o newidiadau pellach.

4.2.3 Mae'r ystyriaethau uchod wedi bwydo i'r broses o nodi 14 o Faterion Allweddol newydd drafft ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid, fel y nodir isod. Mae'r Materion Allweddol newydd wedi cael eu categoreiddio yn ôl y meysydd pwnc oedd yn deillio o'r strwythur a ddefnyddiwyd ar gyfer Polisi Cynllunio Cymru. Ceir manylion llawn y broses a'r deilliannau yn y Papur Cefndir ar y Materion Allweddol, y Weledigaeth a'r Amcanion.

Materion Allweddol y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid

Materion Trosfwaol

MAN 1 Argyfwng yr Hinsawdd: Mae gweithredu i fynd i'r afael ag achosion ansefydlogrwydd cynyddol yr hinsawdd ac ymdrin ag effeithiau hynny yn awr ac yn y dyfodol bellach yn fater brys.

MAN 2 Argyfwng Byd Natur: Mae rhoi sylw i'r dirywiad lleol a byd-eang mewn bioamrywiaeth wedi dod yn fater brys. Mae gofyn bod pob awdurdod cyhoeddus yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, a hybu gwydnwch ecosystemau er mwyn sicrhau budd net i fioamrywiaeth yn sgîl pob datblygiad newydd.

MAN 3 Iechyd a Llesiant: Mae poblogaeth Castell-nedd Port Talbot yn heneiddio, gyda diet sydd ymhlith y lleiaf iach ac un o'r lefelau isaf o weithgarwch corfforol yng Nghymru, ac mae hynny'n golygu bod cyfraddau gordewdra ac afiechyd yn cynyddu.

Dewisiadau Strategol a Gofodol

MAN 4 Creu Lleoedd Strategol: Mae'r rhan fwyaf o boblogaeth Castell-nedd Port Talbot, ei gweithgarwch economaidd a diwylliannol, a'i seilwaith a chyfleusterau pwysig i'w canfod yn y llain arfordirol, ac mae hynny'n golygu bod anghydraddoldeb daearyddol o ran llesiant, gyda'r mewndir a'r cymoedd yn llai breintiedig.

MAN 5 Creu Lleoedd ar Waith: Bu colled ganfyddedig o ran treftadaeth a chymeriad naturiol, diwylliannol ac adeiledig ar draws cymunedau Castell-nedd Port Talbot, ei hamgylchedd naturiol, ei threfluniau a'i thirluniau, ochr yn ochr â cholli rôl a phwrpas yn achos llawer o gymunedau'r cymoedd.

Lleoedd Actif a Chymdeithasol

MAN 6 Symud: Mae cysylltiadau trafnidiaeth, yn arbennig ar gyfer Teithio Llesol a Thrafnidiaeth Gyhoeddus, yn wael mewn llawer o ardaloedd (yn arbennig y cymoedd), ac mae hynny'n creu anfantais ac yn cael effeithiau niweidiol o ran anghydraddoldeb gofodol, ôl troed carbon a iechyd a llesiant ar draws y fwrdeistref sirol.

MAN 7 Byw: Mae'n rhaid rhoi sylw i'r angen am gartrefi ychwanegol o bob math, gan gynnwys tai fforddiadwy a darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

MAN 8 Gweithgareddau: Er mwyn bod yn gynaliadwy, mae angen mynediad parod ar bob cymuned at nwyddau, gwasanaethau, swyddi a chyfleusterau hamdden a chymunedol lleol.

Lleoedd Cynhyrchiol, Llawn Menter

MAN 9 Adferiad Economaidd: Mae newidiadau economaidd strwythurol pwysig ar waith sy'n debygol o drawsffurfio'r economi genedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal â defnyddiau diwydiant a chyflogaeth lleol ar hyd coridor yr arfordir yn Castell-nedd Port Talbot (gan gynnwys darpariaethau arfaethedig y Porthladd Rhydd a datblygiadau yn y gwaith dur). Bydd angen rhoi sylw llawn i'r newidiadau hyn, a mwyafu'r manteision posibl.

MAN 10 Seilwaith Economaidd: Mae angen lledaenu manteision datblygu economaidd cynaliadwy a thwf ar draws y fwrdeistref sirol trwy ddarparu seilwaith economaidd modern priodol, gan gynnwys gwasanaethau digidol.

MAN 11 Ynni: Er mwyn cyflawni targedau uchelgeisiol o ran y newid yn yr hinsawdd, bydd angen i Castell-nedd Port Talbot harneisio'i adnoddau ynni gwyrdd sylweddol a datgarboneiddio gymaint â phosibl ym mhob sector.

MAN 12 Adnoddau Materol a'r Economi Gylchol: Dylai adnoddau mwynau a seilwaith mwynau Castell-nedd Port talbot gael eu cadw a'u diogelu, ochr yn ochr â galluogi cyfraniad priodol a chymesur i'r cyflenwad o fwynau a sicrhau y cyfyngir gymaint â phosibl ar effeithiau niweidiol, ochr yn ochr â darparu cyfleusterau priodol o ran trin gwastraff, ailgylchu a gwaredu.

Lleoedd Unigryw a Naturiol

MAN 13 Nodweddion Arbennig Lleoedd: Mae angen cadw, diogelu a gwella cyfoeth Castell-nedd Port Talbot o amgylcheddau hanesyddol a naturiol, ei Seilwaith Gwyrdd, ei phridd, ei thirluniau a'i hardaloedd arfordirol, er mwyn i genedlaethau'r dyfodol eu mwynhau.

MAN 14 Nodweddion Amgylcheddol Lleoedd: Mae perygl llifogydd, adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr yn debygol o fod yn ystyriaethau pwysicach gyda threigl y blynyddoedd, a bydd angen rhoi sylw iddyn nhw ochr yn ochr â phob math o lygredd, gan gynnwys materion ansawdd aer.

4.3 Gweledigaeth

4.3.1 Hefyd mae angen sefydlu Gweledigaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid, yn nodi ein dyheadau ar gyfer y fwrdeistref sirol a'n disgwyliadau o ran sut dylid darparu ar gyfer newid a datblygu yn ystod cyfnod y cynllun. Dylid dylanwadu ar weledigaeth y cynllun gan weledigaethau eraill a gyflwynir mewn cynlluniau a strategaethau eraill perthnasol, a dylid alinio'r gweledigaethau hynny. Ymhlith y gweledigaethau a gymerwyd i ystyriaeth fel rhan o'r broses hon mae Gweledigaeth Cynllun Datblygu Lleol cyntaf Castell-nedd Port Talbot, Deilliannau Cymru'r Dyfodol (2040) ac Amcanion Llesiant Castell-nedd Port Talbot.

4.3.2 Mae Cymru'r Dyfodol a Chynllun Corfforaethol a Chynllun Llesiant Castell-nedd Port Talbot i gyd yn mynegi eu gweledigaethau ar ffurf cyfres o ddeilliannau a ddymunir, a chynigir dull gweithredu tebyg ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid, gan nodi deilliant a ddymunir ar gyfer pob un o'r Materion Allweddol / meysydd pwnc, fel y nodir isod.

4.3.3 Fel yn achos y Materion Allweddol, ceir manylion llawn y broses o ddatblygu'r Weledigaeth, gan gynnwys mewnbwn rhanddeiliaid, yn y Papur Cefndir Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion.

Gweledigaeth y Cynllyn Datblygu Lleol Amnewid

Erbyn 2038 bydd Castell-nedd Port Talbot yn fan lle mae:

1. ***Argyfwng yr hinsawdd yn derbyn sylw cadarnhaol*:** Bydd Castell-nedd Port Talbot ar y llwybr cywir i gyrraedd y targedau newid yr hinsawdd y cytunwyd arnynt, a bydd yn addasu'n briodol i hinsawdd newidiol.
2. ***Argyfwng byd natur yn derbyn sylw cadarnhaol*:** Bydd Castell-nedd Port Talbot yn cyflawni budd net parhaus o safbwynt bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a phridd, a bydd yn hybu gwydnwch ecosystemau o ganlyniad i gynigion datblygu dros gyfnod y cynllun.

3. ***Iechyd a llesiant y cyhoedd yn gwella*:** Bydd manteision sylweddol o ran iechyd a llesiant y cyhoedd a manteision amgylcheddol i bawb, gan gynnwys cyfleusterau i bobl hŷn, yn cael eu cyflawni trwy ddatblygiadau newydd a adeiladir.
4. ***Dyfodol hirdymor mwy cynaliadwy i aneddiadau allweddol y cymoedd ac mae potensial economaidd y llain arfordirol yn cael ei fwyafu, ochr yn ochr â diogelu a gwella amgylcheddau tir a môr:*** Yn sgîl sefyllfa a rôl Castell-nedd Port Talbot fel sbardun economaidd allweddol yn Ninas-Ranbarth Bae Abertawe, bydd cyfleoedd economaidd a datblygiadau technolegol gwyrdd newydd pwysig yn dod i'r amlwg yng nghyswllt ardaloedd cyflogaeth Campws Bae Prifysgol Abertawe, Bae Baglan a Glannau'r Harbwr. Bydd manteision hynny'n cael eu dosbarthu'n decach trwy ddatblygu aneddiadau allweddol ym mhob un o gymoedd Castell-nedd Port Talbot, a rhoi mwy o bwyslais ar atyniadau ymwelwyr, gan gynnwys safleoedd treftadaeth, atyniadau antur awyr agored yng nghymoedd Nedd ac Afan, ac atyniadau glan môr traddodiadol ar Draeth Aberafan.
5. ***Treftadaeth bwysig naturiol, ddiwylliannol ac adeiledig holl gymunedau Castell-nedd Port Talbot, gan gynnwys yr iaith Gymraeg, yn cael ei chefnogi, ei gwella a'i chyfoethogi trwy gymhwyso egwyddorion creu lle:*** Bydd natur a chymeriad unigryw tair prif dref Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe, eu hanes, eu diwylliant a'u hasedau naturiol unigol, yn cael eu diogelu, eu rheoli'n gynaliadwy, a'u gwella. Bydd cymeriad gwahanol unigryw pob un o'r pum cwm yn Castell-nedd Port Talbot yn cael ei gadw a'i wella trwy gynnal a gwella'u prif aneddiadau a'u hamgylcheddau unigryw.
6. ***Teithio a thrafnidiaeth yn fwy cynaliadwy, cyfleus, hygyrch ac effeithlon:*** Bydd gwelliannau gyda phwyslais ar Deithio Llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn arbennig yn ardaloedd y cymoedd, yn gwella hygyrchedd i bob cymuned.
7. ***Sylw'n cael ei roi i'r angen am gartrefi o bob math ar draws y fwrdeistref sirol.*** Bydd mesurau i alluogi ac annog cartrefi newydd mewn lleoliadau cynaliadwy yn rhoi sylw i anghenion tai.
8. ***Pob cymuned yn cael mynediad hwylus at nwyddau, gwasanaethau, swyddi a chyfleusterau cymunedol.*** Bydd mesurau i alluogi ac annog darparu gwasanaethau, cyflogaeth a chyfleusterau mewn lleoliadau cynaliadwy yn rhoi sylw i ofynion y gymuned.
9. ***Manteision newid economaidd strwythurol pwysig, yn genedlaethol ac yn lleol, yn cael eu mwyafu:*** Bydd newidiadau economaidd strwythurol parhaus sy'n effeithio ar ddiwydiannau lleol pwysig a chyflogaeth yn cael eu croesawu, ac mae'r manteision posibl o ran iechyd, llesiant, cyflogaeth a'r amgylchedd lleol yn cael eu mwyafu ar gyfer trigolion Castell-nedd Port Talbot.
10. ***Holl ardaloedd Castell-nedd Port Talbot yn cael eu gwasanaethu gan y seilwaith economaidd ffisegol a digidol diweddaraf:*** Bydd gwelliannau i'r seilwaith economaidd yn helpu pob cymuned i elwa o seilwaith economaidd modern sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion a'u dyheadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, tra bydd atyniadau gwell i ymwelwyr, yn arbennig yn ardaloedd Cwm Nedd a Chwm Afan, yn annog twf yn y sector twristiaeth.

11. ***Ayfraniad pwysig yn cael ei wneud i anghenion ynni Cymru:*** Bydd y mesurau a roddir ar waith i ymateb i'r galw am ynni ac effeithlonrwydd yn cael effaith, a budd priodol yn dod o botensial Castell-nedd Port Talbot i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan roi sylw i dargedau lleihau carbon a gwella effeithlonrwydd adeiladau.
12. ***Adnoddau, cronfeydd a seilwaith mwynau yn cael eu cadw a'u diogelu, a chyfleusterau priodol ar gyfer trin a gwaredu gwastraff yn cael eu darparu i ymateb i anghenion.*** Bydd mesurau i ddiogelu adnoddau a seilwaith mwynau, gwarchod cronfeydd mwynau a galluogi defnydd ohonynt yn ôl y galw, ynghyd â thrin, ailgylchu a gwaredu gwastraff yn briodol, yn rhoi sylw i'r holl ofynion priodol.
13. ***Asedau ac amgylcheddau naturiol a hanesyddol, bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd, tirluniau ac ardaloedd arfordirol yn cael eu cadw, eu diogelu a'u gwella.*** Bydd mesurau priodol yn cadw ac yn gwella amgylchedd hanesyddol unigryw Castell-nedd Port Talbot sydd wedi goroesi o bob cyfnod, o fryngaerau cynhanesyddol i rolau allweddol y diwydiannau glo a metel mewn diwydiannu ar draws y byd, y cyfan yng nghyd-destun naturiol godidog y cymoedd a'r arfordir.
14. ***Perygl llifogydd, newid arfordirol ac afonol a materion llygredd yn derbyn sylw priodol, gan gyfyngu cymaint â phosibl ar yr effeithiau niweidiol.*** Bydd mesurau priodol yn arwain at lai o risg yn sgîl newid amgylcheddol, a gostyngiad mewn lefelau llygredd.

4.4 Amcanion

4.4.1 Bwriad amcanion y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid yw nodi'r hyn y mae'r cynllun yn bwriadu ei gyflawni yng nghyswllt pob un o'r pynciau, er mwyn cyflawni'r deilliannau sy'n rhan o'r weledigaeth. O ganlyniad, mae'r amcanion wedi'u halinio â'r materion allweddol a'r deilliannau, ac fe'u rhestrir o dan yr un penawdau pwnc.

4.4.2 Yn achos pob pwnc, cymerwyd amcan(ion) perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn fan cychwyn. Yna ystyriwyd elfen gyfatebol (deilliant) Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid yn 'darged' y dylai polisïau a chynigion y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid ymdrin ag ef, ac y gellir eu hasesu yn ei erbyn.

4.4.3 Mae hynny wedi creu 14 o amcanion drafft ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid, fel y nodir isod. Fel yn achos y Materion Allweddol a'r Weledigaeth, mae'r rhain wedi cymryd ymgysylltiad rhanddeiliaid i ystyriaeth, a cheir manylion llawn y broses ddatblygu yn y Papur Cefndir Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion.

Amcanion y Cynllyn Datblygu Lleol Amnewid

AN1: Lleiafu achosion y newid yn yr hinsawdd ac addasu i'r effeithiau cyfredol a'r rhai a ragwelir trwy wneud y canlynol:

- Lleiafu allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- Mynnu bod lleoliad a dyluniad datblygiadau yn briodol; a
- Diogelu a gwella'r holl asedau amgylcheddol sy'n ofynnol ar gyfer addasu a gwydnwch yng nghyswllt yr hinsawdd.

AN2: Cyflawni budd net o ran bioamrywiaeth a gwell gwydnwch i ecosystemau yn sgîl datblygiadau newydd ar draws y fwrdeistref sirol.

AN3: Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn darparu amgylchedd lleol iach sy'n annog ffordd fwy egnïol a iach o fyw i bob grŵp oed.

AN4: Gwireddu manteision llawn twf economaidd gwyrdd ar draws y fwrdeistref sirol i ddarparu cymunedau cwbl gynaliadwy ym mhob ardal leol, ochr yn ochr â diogelu amgylchedd Castell-nedd Port Talbot.

AN5: Cynnal, gwella a chyfoethogi unigrywiaeth cymunedau Castell-nedd Port Talbot, gan gynnwys defnydd o'r Gymraeg, trwy gamau gweithredu cadarnhaol i greu lleoedd ar lefel leol.

AN6: Lleihau anghydraddoldebau gofodol ym maes teithio a thrafnidiaeth ar draws y fwrdeistref sirol trwy wella Teithio Llesol a chysylltiadau a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, yn arbennig yn ardaloedd y cymoedd.

AN7: Cyflwyno cartrefi newydd digonol o safon uchel o'r mathau sy'n ofynnol yn y lleoliadau mwyaf addas i ddiwallu'r angen a nodwyd.

AN8: Annog a chefnogi cadw a darparu cyfuniad o gyfleusterau cymunedol, manwerthu, cyflogaeth a hamdden mewn lleoliadau priodol ar draws y fwrdeistref sirol.

AN9: Annog a galluogi technolegau a diwydiannau newydd, glân i ymsefydlu a thyfu, er mwyn hybu a chynnal rôl arweiniol i Castell-nedd Port Talbot yn yr economïau adnewyddadwy a diwydiannol cenedlaethol a rhyngwladol.

AN10: Sicrhau bod holl ardaloedd Castell-nedd Port Talbot yn gallu elwa o dwf economaidd a seilwaith economaidd modern addas i ddiwallu eu hanghenion a'u dyheadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.


AN11: Galluogi Castell-nedd Port Talbot i wneud cyfraniad priodol at gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, ochr yn ochr â hybu'r holl gamau priodol i leihau'r galw am ynni a gwella effeithlonrwydd ar draws pob sector

AN12: Cadw a diogelu adnoddau, cronfeydd a seilwaith mwynau ochr yn ochr â gwneud cyfraniad priodol, cymesur i'r cyflenwad o fwynau i ddiwallu angen lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau ar yr un pryd bod effeithiau niweidiol yn cael eu lleiafu, a bod darparu cyfleusterau a phrosesau priodol ar gyfer trin, ailgylchu a gwaredu gwastraff yn cael eu hwyluso.

AN13: Sicrhau bod asedau ac amgylcheddau naturiol a hanesyddol Castell-nedd Port Talbot, ei Seilwaith Gwyrdd, ei thirluniau, ei harfordir sydd heb ei datblygu a'i hardaloedd arfordirol yn cael eu cadw, eu diogelu a'u gwella.

AN14: Sicrhau bod materion amgylcheddol a newidiadau i'r dyfodol, gan gynnwys risg llifogydd, newid arfordirol ac afonol a materion llygredd yn cael eu hosgoi'n briodol, yn derbyn sylw, gan gyfyngu cymaint â phosibl ar yr effeithiau niweidiol.

Pennod 5
Asesiad Aneddiadau a Hierarchaeth Aneddiadau



5.1 Asesiad Aneddiadau a Hierarchaeth Aneddiadau

5.1.1 Mae'r *Asesiad Aneddiadau* yn asesiad o rôl a swyddogaeth gyfredol yr holl aneddiadau presennol yn y fwrdeistref sirol, ac mae'n rhan bwysig o'r gronfa ddata wybodaeth sy'n llywio'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid. Mae'n ffurfio arfarniad o gynaliadwyedd cyffredinol pob anheddiad gan ddilyn methodoleg fanwl, ac yn crynhoi gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau.

5.1.2 Mae'r wybodaeth a grynhoir yn cynnwys yr ystod o wasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael ym mhob anheddiad neu o fewn pellter rhesymol hygyrch (3 neu 5 km) o bob anheddiad (er mwyn asesu ymarferoldeb defnyddio dulliau Teithio Llesol), argaeledd cyfleoedd cyflogaeth o fewn neu yn ymyl pob anheddiad, a bodolaeth ac amlder gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.

5.1.3 Mae'r ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddir yn cynnwys gwybodaeth o Gyfrifiad 2021, amserlenni trafnidiaeth gyhoeddus, gwybodaeth fewnol y Cyngor, Google Maps, ac arolygon safle. Yna defnyddiwyd system sgorio fanwl i greu sgôr cynaliadwyedd a fydd yn nodi cynaliadwyedd gymharol. O ganlyniad i'r broses hon, mae modd rhoi aneddiadau Castell-nedd Port Talbot a chreu *hierarchaeth aneddiadau* fydd yn llywio polisïau a chynigion y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid.

5.1.4 Ceir manylion llawn y broses asesu a tharddiad yr hierarchaeth aneddiadau yn y Papur Cefndir ar yr Asesiad Aneddiadau.

5.2 Yr Hierarchaeth Aneddiadau

5.2.1 Cyflwynir yr Hierarchaeth Aneddiadau lawn ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, sy'n deillio o'r broses hon, yn Nhabl 5.2.1 isod.

Tabl 5.2.1 Yr Hierarchaeth Aneddiadau

Ardal Ofodol	Anheddiad	Categori Terfynol
Port Talbot	Hyb Tref Port Talbot	Prif Ganolfan
Castell-nedd	Hyb Tref Castell-nedd	Prif Ganolfan
Pontardawe	Hyb Tref Pontardawe	Prif Ganolfan
Castell-nedd	Llansawel	Anheddiad Allweddol
Castell-nedd	Sgiwen	Anheddiad Allweddol
Port Talbot	Baglan	Anheddiad Allweddol
Castell-nedd	Llandarcy / Coed Darcy	Anheddiad Allweddol
Cwm Nedd	Glyn-nedd / Pontwalby	Anheddiad Allweddol
Castell-nedd	Llangatwg, Cilffriw ac Aberdulais	Anheddiad Allweddol
Port Talbot	Cwmafan	Anheddiad Allweddol
Cwm Tawe	Ystalyfera	Anheddiad Allweddol
Castell-nedd	Jersey Marine	Anheddiad Lleol
Cwm Afan	Croeserw a'r Cymer	Anheddiad Lleol
Castell-nedd	Tonna	Anheddiad Lleol
Cwm Nedd	Resolfen	Anheddiad Lleol

5 Pennod 5 - Asesiad Aneddiadau a Hierarchaeth Aneddiadau

Ardal Ofodol	Anheddiad	Categori Terfynol
Port Talbot	Goetre	Anheddiad Lleol
Castell-nedd	Dyffryn Clydach	Anheddiad Lleol
Cwm Dulais	Creunant	Anheddiad Lleol
Cwm Nedd	Cwmgwrach / Blaengwrach	Anheddiad Lleol
Dyffryn Aman	Gwaun Cae Gurwen a Chwmgors	Anheddiad Lleol
Castell-nedd	Twyni Crymlyn	Anheddiad Lleol
Cwm Tawe	Cilmaengwyn / Godre'r Graig	Anheddiad Lleol
Dyffryn Aman	Brynamman Isaf	Anheddiad Lleol
Cwm Dulais	Blaendulais	Anheddiad Lleol
Port Talbot	Ten Acre Wood	Anheddiad Lleol
Cwm Afan	Tonmawr	Anheddiad Lleol
Port Talbot	Coed Hirwaun	Anheddiad Lleol
Pontardawe	Fforest Goch	Pentref
Cwm Afan	Blaengwynfi / Abergwynfi	Pentref
Castell-nedd	Ynysygerwen	Pentref
Dyffryn Amman	Tai'r gwaith	Pentref
Cwm Nedd	Pentreclwydau	Pentref
Cwm Tawe	Penrhiwfawr	Pentref
Cwm Nedd	Clun	Pentref
Cwm Tawe	Cwmllynfell	Pentref
Cwm Afan	Pontrhydyfen ac Efail Fach	Pentref
Pontardawe	Cilybebyll	Pentref
Cwm Nedd	Melin-cwrt	Pentref
Port Talbot	Bryn	Pentref
Cwm Afan	Glyncorrwg	Pentref
Cwm Dulais	Onllwyn / Banwen	Pentref
Cwm Nedd	Abergarwed	Anheddiad Bychan
Cwm Afan	Cwm Ifan Bach	Anheddiad Bychan
Cwm Dulais	Pant y Ffordd	Anheddiad Bychan
Port Talbot	Pen y Bryn	Anheddiad Bychan
Cwm Nedd	Glyncastell	Anheddiad Bychan
Cwm Afan	Dyffryn / Trecynon	Anheddiad Bychan
Cwm Afan	Abercregan	Anheddiad Bychan
Cwm Nedd	Cyd Terrace	Anheddiad Bychan

Ardal Ofodol	Anheddiad	Categori Terfynol
Port Talbot	Eglwys Nynydd / Parc Dewi Sant	Anheddiad Bychan

Pennod 6

Opsiynau Twf a Gofodol



6 Pennod 6 - Opsiynau Twf a Gofodol

6.1 Opsiynau Twf

6.1.1 Er mwyn ystyried lefel y twf ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid, cynhaliwyd Asesiad Twf Economaidd a Thai, sydd wedi ystyried y perthnasoedd strategol o ran tai ac economeg yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan gynnwys cwmpas daearyddol yr ardaloedd marchnad dai ac economaidd gweithredol. Bu'r asesiad yn ystyried y pontio yng ngwaith dur Tata, goblygiadau posibl hynny i'r economi leol, ac yn nodi'r cyfleoedd posibl a gynlluniwyd ar gyfer buddsoddi yn ystod cyfnod y cynllun, gan gynnwys Dynodi'r Porthladd Rhydd Celtaidd yn ddiweddar. Wrth ystyried lefel twf cyflogaeth yn y dyfodol, cynhyrchwyd cyfrifiad o swm a chyfansoddiad y tir cyflogaeth a fyddai'n ofynnol i ddarparu ar gyfer buddsoddiadau'r dyfodol, ac asesiad o dwf aelwydydd i'r dyfodol, gan roi cyfrif am dueddiadau demograffig a graddfa'r newid i'r gweithlu fyddai'n ofynnol i gynnal y rhagolygon a gyflwynwyd o ran twf swyddi. Mae'r dull gweithredu hwn yn darparu asesiad cadarn o anghenion i'r dyfodol ac yn alinio twf economaidd a thai.

6.1.2 Gan ddefnyddio'r Asesiad Twf Economaidd a Thai, a thystiolaeth arall yn cynnwys yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, rhagamcanion Llywodraeth Cymru ac adolygiad o dueddiadau'r gorffennol, cynhyrchwyd nifer o opsiynau twf posibl oedd yn archwilio lefel yr angen economaidd ac am dai a allai godi yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod 15 mlynedd y cynllun, 2023-2038. Ceir rhagor o fanylion ynghylch yr holl opsiynau twf a ystyriwyd yn yr Asesiad Twf Economaidd a Thai a'r papur cefndir ar Dwf ac Opsiynau Gofodol.

6.1.3 Torrwyd yr holl opsiynau twf a ystyriwyd i lawr i'r rhai y barnwyd eu bod yn realistig ac yn opsiynau cyflawnadwy, ac yn dilyn hynny, bu'r 7 opsiwn twf a gyflwynir isod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus anffurfiol rhwng 14 Mai a 5 Mehefin 2024:

Table 6.1.1 Senarios Twf

Senario Twf	Cartrefi (y flwyddyn)	Cartrefi dros Gyfnod y Cynllun	Cartrefi dros Gyfnod y Cynllun (gan gynnwys 10% o Hyblygrwydd)	Swyddi (y flwyddyn)
1. Craidd wedi'i addasu	130	1,950	2,145	121
2. Cyflogaeth Gwaelodlin	161	2,415	2,657	130
3. Ategol wedi'i addasu	232	3,480	3,828	237
4. Cyfradd Cyflawni Cyfartalog yn ystod y 15 mlynedd diwethaf	238	3,570	3,927	Ddim ar gael
5. Pwf Poblogaeth – Hirdymor	261	3,915	4,307	181

Senario Twf	Cartrefi (y flwyddyn)	Cartrefi dros Gyfnod y Cynllun	Cartrefi dros Gyfnod y Cynllun (gan gynnwys 10% o Hyblygrwydd)	Swyddi (y flwyddyn)
6. Prif Ragamcan Llywodraeth Cymru 2018	285	4,275	4,703	152
7. Yr Angen am Dai (Asesiad o'r Farchnad Dai Leol)	296	4,445	4,890	Ddim ar gael

6.1.4 Ceir disgrifiad cryno o bob un o'r 7 opsiwn twf isod:

- Roedd y '**Senario Craidd wedi'i addasu**' (Opsiwn 1) yn addasu'r rhagolwg cyflogaeth gwaelodlin ac yn gwneud rhai rhagdybiaethau twf economaidd cymedrol ar sail dynodi'r Porthladd Rhydd Celtaidd a chyfleoedd eraill posibl i fuddsoddi.
- Roedd **Cyflogaeth Gwaelodlin (Opsiwn 2)** yn defnyddio rhagolwg Economaidd Caergrawnt, ac yn defnyddio'r tueddiad macroeconomaidd i ddarparu 'achos gwaelodol' oedd yn rhoi cyfrif am ddata tueddiadau hanesyddol, rhaniadau sector a thueddiadau cenedlaethol.
- Y '**Senario Ategol wedi'i Addasu' (Opsiwn 3)** yw'r rhagolwg economaidd mwyaf cadarnhaol, ac mae'n adlewyrchu rhagdybiaeth fwy uchelgeisiol o ran buddsoddi yn y dyfodol, gan ragdybio lefel uwch o dwf yn deillio o gyfleoedd buddsoddi pellach sy'n gysylltiedig â'r Porthladd Rhydd Celtaidd.
- Mae **Cyfradd Cyflawni Cyfartalog y 15 mlynedd Diwethaf (Opsiwn 4)** yn cyflwyno senario twf a arweinir gan breswylfeydd, gan ddangos cyfradd adeiladu cyfartalog y cyfnod o 15 mlynedd rhwng 2008/09 a 2022/23, sy'n cyfateb i 238 o gartrefi'r flwyddyn.
- Mae **Twf Poblogaeth Hirdymor (Opsiwn 5)** yn darparu sylfaen newydd ar gyfer Prif Ragamcan Llywodraeth Cymru yn 2018, er mwyn cymryd i ystyriaeth amcangyfrifon canol blwyddyn 2019, 2020 a 2021 ac mae'n rhagdybio y bydd twf poblogaeth yn dilyn tueddiadau'r 10 mlynedd blaenorol.
- Mae **Prif Ragamcan Llywodraeth Cymru 2018 (Opsiwn 6)** wedi'i fodelu gan ddefnyddio Prif Amrywiad Rhagamcan Swyddogol Llywodraeth Cymru yn 2018. Seiliwyd y prif ragamcan ar dueddiadau demograffig y 5 mlynedd blaenorol.
- Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (Angen am Dai) (Opsiwn 7) yn ystyried yr angen am dai yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, a seiliwyd ar Brif Ragamcan Llywodraeth Cymru yn 2018, ac sy'n cwmpasu'r cyfnod o 2021-2036. Nododd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ôl-groniad o angen am dai fforddiadwy, sef 542 o breswylfeydd y flwyddyn, y byddai angen ei ddarparu yn ystod 5 mlynedd cyntaf y Cynllun. O'u cyfuno, mae'r anghenion marchnad a thai fforddiadwy yn ystod y 15 mlynedd yn cyfateb i 4,445 o gartrefi.

6.1.5 Bu goblygiadau i breswylwyr presennol yn sgîl cyflwyno tai annigonol yn y CDLl cyfredol; gydag oedolion hŷn yn byw mewn aelwydydd sy'n tyfu mwyfwy. Cymerwyd hyn i ystyriaeth wrth fodelu rhagamcanion i'r dyfodol trwy addasu Cyfraddau Aelodaeth Aelwydydd,

(cyfradd trosi poblogaeth yn aelwydydd). Byddai'r addasiad yn codi lefel yr angen am dai, gan ragdybio y byddai datblygu cartrefi ychwanegol yn rhoi cyfle i aelwydydd cudd ddewis ffurfio'u haelwydydd eu hunain. Mae Opsiynau 1-3, 5 a 6 yn cynnwys yr addasiad hwn.

6.1.6 Mae'r opsiynau twf a gyflwynir uchod yn cynnwys lwfans hyblygrwydd o 10%, i wneud iawn am rai safleoedd na fyddant yn cael eu cynnig fel y rhagwelwyd, fel yr awgrymwyd fel man cychwyn yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Gwnaed hynny at ddibenion dangosol ar hyn o bryd er mwyn rhoi darlun mwy cywir o'r ffigur gofynion tai posibl sy'n deillio o bob opsiwn twf.

6.1.7 Er mwyn cyflwyno opsiynau twf economaidd ar ffurf swyddi yn hytrach na chyflogaeth, ychwanegwyd cynnydd o 2.98% at y ffigurau cyflogaeth a gyflwynwyd yn yr Asesiad Twf Economaidd a Thai i wneud iawn am gyflawni dwy swydd, sef cyfradd gyfartalog hirdymor cyflawni dwy swydd.

6.1.8 Ceir dadansoddiad o'r opsiynau twf sy'n cael eu hystyried yn y papur cefndir Twf ac Opsiynau Gofodol. Yn dilyn y dadansoddiad hwn, ynghyd â'r Asesiad Cynaliadwyedd Integredig, ymgynghori cyhoeddus anffurfiol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, bernir mai **Opsiwn 3, y senario *Ategol a Addaswyd*** yw'r opsiwn twf mwyaf priodol i'w ddatblygu fel lefel twf a ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid, am y rhesymau canlynol:

- Bydd yn hybu cyfradd adeiladu tai sy'n gyflawnadwy ond yn uchelgeisiol, o ystyried tueddiadau'r gorffennol;
- Mae aelwydydd iau, cudd, o ganlyniad i lefelau isel o adeiladu tai yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn cael eu cymryd i ystyriaeth trwy ddefnyddio addasiad Cyfradd Aelodaeth Aelwydydd;
- Mae'n adlewyrchu'r cyd-destun economaidd o ystyried y pontio yng Ngwaith Dur Tata, ond serch hynny yn cefnogi'r uchelgais o ran adferiad economaidd a gefnogir gan y Porthladd Rhydd Celtaidd a buddsoddiadau eraill a gynlluniwyd.

6.1.9 Ochr yn ochr â'r lefel a ffefrir o dwf mewn tai a swyddi, aethom ati hefyd i archwilio ac ystyried faint o dir cyflogaeth sy'n ofynnol. Roedd hynny'n galw am drosi swyddi yn arwynebedd llawr, ac arwynebedd llawr yn ofynion tir. Cymerwyd ffactorau oedd yn cynnwys dwysedd cyflogaeth, lefelau ymateb yn y gorffennol, darparu gwell argaeledd, dewis a hyblygrwydd, a chymarebau rhagdybio lleiniau i gyd i ystyriaeth. Daeth y dadansoddiad hwn i'r casgliad bod angen hyd at **57Ha o dir cyflogaeth** i gyflawni'r opsiwn lefel twf a ffefrir.

6.1.10 Mae'r Papur Pwnc Poblogaeth a Thai wedi ystyried gwahanol lefelau o lwfans hyblygrwydd y gellir eu cymhwyso i'r galw am breswylfeydd. O ystyried cyfraddau isel adeiladu tai yn y gorffennol, er mwyn darparu'r cyfle gorau i ddiwallu anghenion tai a dyheadau economaidd, bernir ei fod yn briodol defnyddio lwfans hyblygrwydd o 20%.

6.2 Opsiynau Gofodol

6.2.1 Mae penderfynu ble dylid dosbarthu datblygu ar draws Castell-nedd Port Talbot yn ystyriaeth allweddol ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir. Mae hon yn dasg bwysig oherwydd y bydd yn cael dylanwad sylweddol ar ddyfodol ein cymunedau. Mae angen rhyddhau tir nid yn unig i ymateb i'r lefel twf a ffefrir, ond hefyd i roi sylw i'r prif faterion a nodwyd. O fewn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, bernir mai'r strategaeth ofodol yw'r sylfaen ar gyfer pob elfen o'r cynllun.

6.2.2 Mae angen i opsiynau gofodol roi sylw i ddeddfwriaeth, polisi cynllunio cenedlaethol, strategaethau lleol a rhanbarthol. Ar ben hynny, mae rhaid i bob opsiwn gofodol gymryd i ystyriaeth nodweddion, asedau a materion penodol Castell-nedd Port Talbot a cheisio llywio datblygu mewn modd sy'n ymateb i'r rheiny.

6.2.3 Er mwyn sicrhau bod y strategaeth ofodol yn gyflawnadwy, mae rhaid iddi fodloni anghenion y cymunedau lleol, yn ogystal â bod yn ddichonadwy, fel bod y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn gallu ac yn fodlon buddsoddi yn y mannau a nodwyd. Mae rhai materion polisi cynllunio allweddol y mae angen eu hystyried wrth lunio'r strategaeth ofodol, gan eu bod yn rhan annatod o unrhyw strategaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Defnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol cyn safleoedd tir glas yn y lle cyntaf;
- Rhoi sylw i'r newid yn yr hinsawdd trwy liniaru ac addasu;
- Hybu egwyddorion creu lleoedd;
- Hybu trafnidiaeth gynaliadwy;
- Hybu a diogelu'r Gymraeg;
- Mwyafu cyfleoedd i wella'r seilwaith gwyrdd; ac
- Ymateb i argyfwng byd natur trwy fudd bioamrywiaeth net.

6.2.4 Ar ben hynny, rhaid i'r strategaeth ofodol hon gynorthwyo i gyflawni'r Weledigaeth a'r Amcanion.

6.2.5 Wrth benderfynu sut dylai twf gael ei ddosbarthu'n ofodol ar draws yr awdurdod, cafodd nifer o opsiynau gofodol eu hystyried ac ymgynghorwyd arnynt. Llywiwyd yr opsiynau hynny gan nifer o ddarnau allweddol o dystiolaeth, megis asesiadau aneddiadau, dynodiadau ecolegol a thirwedd, yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, ynni adnewyddadwy, perygl llifogydd, y tir gorau a mwyaf addas at sawl defnydd, ardaloedd sensitif o ran y Gymraeg, a thir llwyd.

6.2.6 Gan fod Cynllun Datblygu Lleol wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor eisoes, aseswyd strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol presennol ochr yn ochr â phum strategaeth arall amgen er mwyn penderfynu a yw'n parhau'n briodol yn y cyd-destun polisi cyfredol. Mae'r chwe opsiwn a ystyriwyd o ran strategaeth fel a ganlyn:

- **Opsiwn A – Parhau â strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd**. Nod y strategaeth yn y fan hon oedd hwyluso twf yng Nghastell-nedd Port Talbot, gyda phrif ffocws ar goridor yr arfordir, ochr yn ochr ag adfywio'r cymoedd. Fodd bynnag, gan na chyflwynwyd safleoedd tir llwyd strategol ac yn wyneb y lefel isel o dai a gwblhawyd, barnwyd nad oedd yr opsiwn hwn yn addas.
- **Opsiwn B – Twf wedi'i wasgaru ar draws yr awdurdod**. Nod yr opsiwn hwn oedd dosbarthu datblygiad ar draws yr awdurdod yn unol â haenau'r strategaeth aneddiadau. Byddai hynny'n digwydd trwy gyfres o safleoedd bach i ganolig, heb ddibyniaeth ar safleoedd unigol strategol ar raddfa fawr.
- **Opsiwn C – Ardal Dwf Genedlaethol a Seilwaith Trafnidiaeth Gynaliadwy**. Nod yr opsiwn yma oedd adeiladu ar Cymru'r Dyfodol oherwydd bod rhannau o Gastell-nedd Port Talbot mewn Ardal Dwf Genedlaethol, wedi'i gyplysu â'r gwelliannau trafnidiaeth a ragwelir.
- **Opsiwn D – Adeiladu ar gyfleoedd allweddol yn y cymoedd.** Roedd yr opsiwn yma'n ceisio sicrhau gwell buddion i gymunedau'r cymoedd, trwy ddefnyddio cyfleoedd twristiaeth a chyflogaeth allweddol a gynigir ar gyfer yr ardal.

- **Opsiwn E – Dull gweithredu Canol Trefi'n Gyntaf.** Mae'r opsiwn yma'n datblygu'r dull gweithredu a gyflwynwyd yn Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru, sef y dylai pob datblygu ddigwydd yng nghanol trefi'n gyntaf, a defnyddio dull gweithredu dilyniannol wrth symud allan o'r fan honno.
- **Opsiwn F – Cyfuniad o Opsiwn C ac Opsiwn D.** Mae'r opsiwn yma'n cyflwyno prif elfennau Opsiwn C – sef bod Castell-nedd Port Talbot mewn Ardal Dwf Genedlaethol, wedi'i gyplysu â'r gwelliannau trafnidiaeth a ragwelir, ond hefyd yn adeiladu ar gyfleoedd allweddol yn y cymoedd.

6.2.7 Ceir dadansoddiad cyflawn o'r chwe opsiwn gofodol yn y *Papur Cefndir Twf ac Opsiynau Gofodol*, lle caiff manteision ac anfanteision pob opsiwn gofodol eu hystyried. Mae pob opsiwn wedi cael ei ystyried hefyd fel rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

6.2.8 Wedi dadansoddi'r opsiynau, a chyfuno hynny â'r digwyddiad ymgynghori anffurfiol ac allbwn y sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid, bernir mai'r **dull gweithredu hybrid, Opsiwn F, yw'r mwyaf priodol**, gan mai dyma'r un sy'n cyfateb orau i ofynion polisi Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru a Llwybr Newydd – Strategaeth Trafnidiaeth Cymru.

6.2.9 Trwy ddewis **Opsiwn F**, bydd yr opsiwn hwn yn darparu'r rhan fwyaf o'r twf yn yr Ardal Dwf Genedlaethol, lle bydd swyddi a chartrefi'n cael eu cydleoli, er mwyn lleihau cymudo. Bydd y rhan fwyaf o'r datblygu a'r buddsoddi yn parhau i ddilyn grymoedd y farchnad, gyda thai, cyflogaeth a datblygu masnachol yn yr Ardal Dwf Genedlaethol gan mwyaf, a bydd yn mwyafu'r cyfleoedd uchelgeisiol o ran yr Harbwr, y Porthladd Rhydd a Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Bydd hynny'n golygu bod modd lleoli datblygidau yn agos at y prif ganolfannau poblogaeth (gan sicrhau bod tai fforddiadwy yn targedu'r ardaloedd lle mae'r angen mwyaf) a chefnogi'r cyfleusterau a'r gwasanaethau yng nghanol y trefi.

6.2.10 Mae Castell-nedd a Phort Talbot wedi'u nodi fel rhan o gynllun Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru Trafnidiaeth Cymru. Bydd cyfleoedd datblygu cynaliadwy yn yr ardaloedd hyn yn elwa o gyfleoedd posibl y Metro, y rhwydwaith trafnidiaeth presennol, yn ogystal â llwybrau teithio llesol, a byddant o gymorth i hybu dulliau teithio heblaw ceir preifat. Mewn rhannau eraill o'r fwrdeistref sirol, bydd llwybrau teithio llesol newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli yn cael eu defnyddio a mwyafir y defnydd o'r seilwaith presennol.

6.2.11 Bydd Opsiwn F hefyd yn cyflwyno adfywio arfaethedig yng nghymunedau'r cymoedd trwy wneud yn fawr o'r prif gyfleoedd treftadaeth, twristiaeth a chyflogaeth sy'n dod i'r amlwg. Bydd y cyfleoedd hyn yn gweithredu fel catalydd ar gyfer gwelliannau tymor hir. I gyd-fynd â hynny, bydd angen sicrhau twf cymedrol yng nghymunedau'r cymoedd, mewn modd sy'n gymesur â'u rôl, eu swyddogaeth a haen yr hierarchaeth aneddiadau. Bydd y strategaeth cyflogaeth yn annog mentrau twristiaeth a graddfa lai i fwyafu potensial cyfleoedd twristiaeth a diwallu anghenion cymunedau lleol.

6.2.12 Oddi mewn i Ardal Cyfle'r Cymoedd, nodir Pontardawe a Glyn-nedd fel *Hybiau'r Cymoedd*, gan gydnabod eu swyddogaeth bwysig yn darparu ystod o wasanaethau cyfleusterau, a chan fod eu lleoliad daearyddol yn darparu cysylltiadau trafnidiaeth pwysig â'r ardal ehangach.

Pennod 7
Y Strategaeth a Ffefrir



7.1 Y Strategaeth a Ffefrir

7.1.1 Gan adeiladu ar y weledigaeth a'r amcanion a amlinellwyd yn y penodau blaenorol, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ceisio **rhoi sylw i'r materion, y nodweddion, yr heriau a'r cyfleoedd unigryw mae Castell-nedd Port Talbot yn eu hwynebu**, meithrin cyfleoedd datblyu newydd, a chydweddu â rôl yr Awdurdod yn yr Ardal Dwf Genedlaethol.

7.1.2 Mae'r Strategaeth yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer ffurfio Castell-nedd Port Talbot yn ystod y cyfnod rhwng 2023 a 2038. Mae'n cynnwys strwythur defnydd tir sy'n cydnabod y proffil economaidd unigryw, yr heriau a'r cyfleoedd, ac yn ceisio cyflwyno lefel gynaliadwy o ddatblygu er mwyn cyflawni amcanion y cynllun. Ar sail yr opsiynau Twf a Gofodol a amlinellwyd yn y penodau blaenorol, teitl y Strategaeth a Ffefrir yw, '**Cynorthwyo adferiad economaidd a gwerthfawrogi ein cyfleoedd unigryw yng Nghastell-nedd Port Talbot**'.

7.1.3 Mae'r opsiwn twf a gofodol hwn yn adeiladu ar y CDLl presennol, gan rannu'r Awdurdod yn ddwy ardal strategaeth: ***Ardal Cyfle'r Cymoedd***, sy'n cwmpasu ardaloedd gofodol Cwm Afan, Cwm Nedd, Cwm Dulais, Cwm Tawe, Dyffryn Aman a Phontardawe, a ***Choridor yr Arfordir a'r Ardal Dwf Genedlaethol***, sy'n cynnwys ardaloedd gofodol Castell-nedd a Phort Talbot. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ceisio rhoi sylw i argyfyngau'r hinsawdd a byd natur, diogelu'r amgylchedd a chyflwyno safon uchel o greu lleoedd a dylunio.

Dros gyfnod y cynllun, bydd hynny'n golygu:

- Darparu ar gyfer **4,176 o gartrefi** (gan gynnwys **lwfans hyblygrwydd o 20%**) (**278 y flwyddyn**) i ddiwallu'r **angen am 3,480 o gartrefi**; a
- Chefnogi cyflwyno **3,555 o swyddi (237 y flwyddyn)** a darparu ar gyfer **57Ha o dir cyflogaeth**.

7.1.4 Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cymryd i ystyriaeth y **cyfleoedd economaidd unigryw** o fewn yr Awdurdod, gan gynnwys y lleoliad strategol allweddol yn economaidd, **lle mae'r A465, Heol Blaenau'r Cymoedd a'r M4** o fewn yr Awdurdod; nodi Port Talbot a Chastell-nedd yn **Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli yn Cymru'r Dyfodol**; twf economaidd diweddar oedd yn cyfyngu ar argaeledd safleoedd cyflogaeth yn yr Awdurdod; datblygiadau allweddol yn y Cymoedd, gan gynnwys y **Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd a Chanolfan Antur Wildfox**; y twf yn y diwydiant twristiaeth a chyfleoedd i ddatblygu ynni adnewyddadwy yn y Cymoedd; a chyfle unwaith mewn oes **dynodi'r Porthladd Rhydd Celtaidd** a'r potensial i greu coridor buddsoddi ac arloesi gwyrdd gyda chyfleoedd allweddol, gan gynnwys ynni gwynt yn arnofio oddi ar y lan, hydrogen, cipio a storio carbon a thanwydd arloesol.

7.1.5 Cydbwysir hyn â'r **dirywiad yn niwydiannau traddodiadol y Cymoedd** a'r **heriau economaidd unigryw sy'n gysylltiedig â'r pontio yng ngwaith dur Tata**, gan gydnabod yr effaith bydd y pontio hwn yn ei chael ar yr ardal, gan fod gweithgynhyrchu yn dal yn rhan bwysig o'r economi leol ac yn rhan o gyfansoddiad economaidd y Fwrdeistref Sirol, gan gyfrif am ryw 20% o'r allbwn economaidd, o gymharu â chyfartaledd o 9% ar draws y Deyrnas Unedig. Gallai bwriad Tata i godi **Ffwrnais Arc Drydan (EAF) ar safle'r gwaith dur ym Mhort Talbot** helpu'r Fwrdeistref Sirol a'r rhanbarth ehangach i arallgyfeirio'n economaidd trwy feithrin sylfaen ddiwydiannol fodern, carbon isel, sy'n apelio at wahanol sectorau, fel ynni adnewyddadwy a gweithgynhyrchu technolegol.

7.1.6 Mewn ymateb i'r ffaith bod gan yr Awdurdod boblogaeth sy'n heneiddio, sy'n un o'r lleiaf actif yn gorfforol, ac sydd â diet ymhlith y lleiaf iach yng Nghymru, gydag ardaloedd lle mae'r drafnidiaeth gyhoeddus yn wael yn cael effeithiau niweidiol ar anghydraddoldeb gofodol a chyfleoedd economaidd cyfyngedig, elfen ganolog o'r Strategaeth a Ffefrir yw amcan creu lleoedd, sef sicrhau bod datblygu'n cael ei leoli mewn mannau sydd â mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau, gwasanaethau a seilwaith gwyrdd.

7.1.7 Yn unol â pholisi cenedlaethol, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ceisio sicrhau y bydd penderfyniadau ynghylch **lleoliad datblygiadau yn cael eu gwneud yng nghyd-destun yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy**, a amlinellir mewn polisi cenedlaethol, ac a fydd yn helpu i leihau'r angen am deithio, yn hybu teithio llesol, yn cefnogi trafnidiaeth gyhoeddus, yn darparu seilwaith Cerbydau Allyriadau Sero, ac yn helpu i gyflawni nodau o ran y newid yn yr hinsawdd.

7.1.8 Yn unol â datganiad y Cyngor ynghylch Argyfwng Hinsawdd, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cydnabod hynny fel mater allweddol ac yn ceisio **mynd i'r afael ag achosion ansefydlogrwydd cynyddol yr hinsawdd** ac ymdrin ag effeithiau hynny yn awr ac yn y dyfodol trwy roi blaenoriaeth i ddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol lle mae hynny'n ddichonadwy a heb gyfyngiadau; osgoi ardaloedd lle mae perygl llifogydd, ac yn unol â'r amcan creu lleoedd sy'n ganolog i'r Strategaeth a Ffefrir, hybu ystod a dewis o safleoedd tai a chyflogaeth newydd mewn lleoliadau cynaliadwy, gyda mynediad da at gyflogaeth, trafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau cymunedol a siopau.

7.1.9 Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cydnabod bod **cyfyngiadau amgylcheddol sylweddol** yn yr Awdurdod, gan gynnwys llifogydd, halogiad, a thopograffi sy'n lleihau swm y tir a ddatblygwyd yn flaenorol y mae modd ei ddefnyddio'n gynaliadwy. Wrth wneud hynny, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi ardaloedd sy'n safleoedd tir glas. Nodwyd y rhain ar ôl chwilio am gyfleoedd datblygu a chynnal dwy Alwad am Safleoedd, cynnal Astudiaeth Capasiti Trefol ac, yn unol â pholisi cenedlaethol, defnyddio dilyniant chwilio am safleoedd y manylir arno yn y Papur Safleoedd Allweddol.

7.1.10 Cynhaliwyd asesiad safle manwl o'r holl safleoedd a gyflwynwyd, ac mae hynny wedi cymryd i ystyriaeth y cyfyngiadau helaeth yn yr Awdurdod, gan gynnwys ardaloedd lle mae halogiad hanesyddol, llifogydd, dichonoldeb, topograffi, a Dosbarthiad Tir Amaethyddol Gradd 1-3a mewn ardaloedd a nodwyd fel arall yn rhai dichonadwy, digyfyngiad.

7.1.11 Yn unol â datganiad Llywodraeth Cymru ynghylch Argyfwng Byd Natur yn 2019 ac Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cydnabod bod **dyletswydd statudol ar y Cyngor i gynnal a gwella bioamrywiaeth**. Mae'r holl safleoedd a gyflwynwyd fel rhan o'r Alwad am Safleoedd wedi cael eu harfarnu gan dîm Ecoleg y Cyngor, ac yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, defnyddiwyd dull gweithredu cam wrth gam er mwyn canfod cyfleoedd datblygu.

7.1.12 Lle nodwyd cyfleoedd datblygu, fe'u harfarnwyd er mwyn deall a ydynt yn ddichonadwy ac yn gyflawnadwy.

7.1.13 Er mwyn nodi cyfleoedd datblygu yn ardal Cyfle'r Cymoedd, lle mae cyfyngiadau dichonoldeb, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cydnabod y **cyfoeth o asedau hanesyddol a naturiol yn Ardal Cyfle'r Cymoedd** ac yn ceisio hybu datblygiad yr adnoddau hynny er mwyn darparu cyfleoedd economaidd a chymdeithasol i drigolion yn yr ardaloedd hynny.

7.1.14 Trwy geisio adeiladu ar wead hanesyddol a diwylliannol cyfoethog Ardal Cyfle'r Cymoedd, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ceisio diogelu, cadw a gwella'r cyfleoedd hynny ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a nodwyd hynny fel mater allweddol i'r CDLlA.

7.1.15 Mae **lefel y twf** a gynigir wedi'i seilio ar **senario economaidd ei ogwydd**, sy'n cyd-fynd â'r dull gweithredu a fabwysiadwyd ar draws y rhanbarth trwy ddefnyddio'r un fethodoleg â Chyngor Abertawe. Fel rhan o ddatblygu'r Strategaeth a Ffefrir, mae'r Cyngor wedi rhannu methodolegau astudiaethau allweddol gydag awdurdodau cymdogol.

7.1.16 Mae'r senario economaidd ei ogwydd yn ceisio rhagweld sut bydd newidiadau cysylltiedig â datblygu'r Porthladd Rhydd, y pontio economaidd sy'n gysylltiedig â Gwaith Dur Tata, a datblygiadau newydd yn y Cymoedd megis GCRE a Wildfox yn effeithio ar economi Castell-nedd Port Talbot, gan ganolbwyntio'n bennaf ar swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol, ac mae'n defnyddio dull uchelgeisiol o ragweld lefel y buddsoddi newydd y gellid ei ddenu i'r ardal.

7.1.17 Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ceisio cyflwyno cyfartaledd o **237 o swyddi y flwyddyn** dros gyfnod y Cynllun trwy ddyrannu rhyw **57ha o dir cyflogaeth at ddefnyddiau dosbarth B**.

7.1.18 Caiff y rhan fwyaf o **dir cyflogaeth** ei ddyrannu ar hyd Coridor yr Arfordir ac yn yr Ardal Dwf Genedlaethol. Er mwyn bod mor hyblyg â phosibl, cynigir dyrannu tir ychwanegol at ddefnyddiau cydweddus (er enghraifft, yn achos y Porthladd Rhydd Celtaidd, defnyddiau ynni adnewyddadwy). **Nodwyd cyfleoedd allweddol hefyd yn Ardal Cyfle'r Cymoedd, a datblygwyd dull polisi hyblyg** (yr adeiladir arno yn y Cynllun Adnau) er mwyn annog datblygu.

7.1.19 Er mwyn sicrhau lefel ddigonol o boblogaeth i ddiwallu'r anghenion a ragwelir o ran y gweithlu, mae'r senario twf yn ceisio darparu **cyfartaledd o 232 o anheddau y flwyddyn**.

7.1.20 Mae'r **lefel hon o dai** yn adlewyrchu'r heriau a'r cyfleoedd economaidd sylweddol mae Castell-nedd Port Talbot yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae'n cymryd i ystyriaeth lefelau cyfredol digartrefedd yn yr Awdurdod, ac mae wedi cael ei haddasu i roi sylw i anghenion aelwydydd iau sy'n guddiedig. Bernir ei bod yn gyflawnadwy, gan ei bod yn cyfateb yn fras i lefel y cyflwyno yn y gorffennol yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, sy'n cyfateb i 238 o gartrefi y flwyddyn. Er mwyn sicrhau bod y lefel hon o ddarpariaeth tai yn cael ei chyflawni, gan nodi cyfyngiadau ar gyflawni yn y gorffennol, cynhwyswyd lwfans hyblygrwydd o 10% yn y lle cyntaf, ond er mwyn darparu mwy o wydnwch i sicrhau bod yr angen cyffredinol am dai, sef 3,480 o gartrefi, yn cael ei gyflawni, cynhwyswyd **hyblygrwydd o 20%**. Aseswyd yr holl safleoedd i bennu a ydynt yn addas ac yn gyflawnadwy (gan gynnwys dichonoldeb).

7.1.21 O ran **lleoli twf**, gan gydnabod mai **Coridor yr Arfordir a'r Ardal Dwf Genedlaethol** sydd â'r crynodiad mwyaf o dai a chyflogaeth, a hynny mewn lleoliad amlwg ar hyd Coridor yr M4, gan gynnwys un o dri phorthladd dŵr dwfn yn unig sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig, fel ei bod yn chwarae rôl allweddol yn y cyd-destun lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac yn cynnwys y rhan fwyaf o gyfleoedd buddsoddi, yr ardal hon fydd y ffocws ar gyfer y rhan fwyaf o'r datblygu. Mae'r rhestr sy'n dilyn yn crynhoi'r strategaeth ar gyfer yr ardal hon, ond mae manylion pellach ar gael ym **Mholisi Strategol (PS6) 'Ardaloedd Strategaeth', ym Mhennod 8**.

- Bydd **twf cyflogaeth** yn troi o gwmpas datblygiad y Porthladd Rhydd, yr Harbwr, a Pharc Ynni Baglan, er mwyn gwneud yn fawr o ddiddordeb y farchnad yn yr Ardal Dwf Genedlaethol a gwaith dur Port Talbot, i helpu adferiad economaidd;
- Nodir **safleoedd tai allweddol** i helpu i gyflwyno tai fforddiadwy yn yr ardaloedd lle nodwyd bod yr angen mwyaf**.**
- Bydd **cartrefi a swyddi yn cael eu cydleoli** i leihau cymudo.
- **Mwyafu cyfleoedd ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy** a chysylltedd yn rhanbarth Bae Abertawe er mwyn lleihau'r angen am deithio yn y car a hybu dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy.

7.1.22 Mae **Ardal Cyfle'r Cymoedd** yn adlewyrchu'r **dreftadaeth ddiwylliannol draddodiadol gref a hunaniaeth cymunedol,** y dirywiad economaidd mewn diwydiannau traddodiadol, a'r cyfoeth o dreftadaeth ac adnoddau naturiol, ac mae'r strategaeth yn ceisio cydnabod y cymeriad unigryw hwn a mwyafu'r cyfleoedd ar gyfer twf yn yr ardaloedd hyn ochr yn ochr â diogelu'r dreftadaeth gyfoethog a'r adnoddau naturiol. Mae'r rhestr ganlynol yn crynhoi'r strategaeth ar gyfer yr ardal hon, ond ceir rhagor o fanylion ym **Mholisi Strategol (PS6) 'Ardaloedd Strategaeth', ym Mhennod 8.**

- Bydd **cyfleoedd treftadaeth, twristiaeth a chyflogaeth allweddol** megis Canolfan Antur Wildfox, y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd, Cwm Treftadaeth Castell-nedd, beicio mynydd yng Nghoedwig Afan a Gwlad y Sgydau yn cael eu mwyafu i weithredu fel catalydd ar gyfer gwelliannau hirdymor.
- Bydd **Pontardawe a'r ardal o'i hamgylch** yn cael ei nodi fel **Hyb yn y Cwm** ar gyfer datblygu tai, er mwyn helpu i gyflwyno cartrefi fforddiadwy i gymunedau'r cymoedd.
- Oherwydd y gwaith gwella gwerth miliynau lawer ar yr A465, **nodir Glyn-nedd fel Hyb yn y Cwm**, a cheisir sicrhau gwell cyfleoedd yno.
- Bydd **twf tai cymedrol** sy'n gymesur â maint, rôl a swyddogaeth aneddiadau presennol.
- Bydd y **strategaeth cyflogaeth** yn annog mentrau twristiaeth a graddfa lai i fwyafu potensial cyfleoedd twristiaeth i ddiwallu anghenion y gymuned leol.
- Gwneud yn fawr o'r **cyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy** sydd ar gael yn yr ardal, yn arbennig y rhai a nodwyd yn Cymru'r Dyfodol.
- Cefnogir darparu **seilwaith band eang o'r radd flaenaf** i hwyluso newid mawr mewn patrymau gwaith a fydd yn **caniatáu i bobl weithio gartref** mewn ardal hardd a gweithredol, fel bod y cymoedd yn dod yn lle mwy deniadol i fyw a gweithio.

7.1.23 Fel rhan o ddatblygu'r Strategaeth a Ffefrir, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â darparwyr seilwaith. Gallai'r gofynion seilwaith allweddol fydd yn helpu i gyflawni'r strategaeth hon a ffefrir gynnwys y canlynol:

- **Seilwaith ffyrdd gwell** i gefnogi cyflawni safleoedd allweddol;
- Gwelliannau cysylltiedig â Metro De-orllewin Cymru, Cyffordd yr M4/A465, y Rhwydwaith Teithio Llesol, coridor yr A465 Glyn-nedd;
- **Buddsoddi** sy'n troi o gwmpas yr Ardal Dwf Genedlaethol, gan gefnogi Clwstwr Diwydiannol De Cymru, Parc Ynni Baglan, Gwaith Dur Port Talbot, y Porthladd Rhydd Celtaidd, yr Harbwr a dyheadau Bargen Ddinesig Bae Abertawe sy'n darparu cyfleoedd i ehangu ac opsiynau twf gwyrdd (sero net) a'r economi wybodaeth;
- **Prosiectau twristiaeth ac arloesedd** yn ardal y cymoedd megis y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd, Canolfan Antur Wildfox, Beicio yng Nghoedwig Afan, prosiect Ffyniant Bro y Cwm Treftadaeth; Gwlad y Sgydau a Pharc Gwledig y Gnoll, fydd yn

helpu i ddatblygu Castell-nedd Port Talbot fel cyrchfan a manteisio ar ein lleoliad fel porth i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;

- Gofynion seilwaith eraill lle nodir hwy wrth i astudiaethau pellach gael eu cynnal.

7.1.24 Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn darparu cydbwysedd priodol o ddatblygu i gyflawni **amcanion y cynllun ac ymdrin â'r materion allweddol** a nodwyd. Bydd graddfa a lleoliad datblygu, a'r dull strategol o ymdrin ag ef yn helpu ar lefel leol i gyflawni **gweledigaeth gyffredinol Castell-nedd Port Talbot**, ac ar lefel genedlaethol bydd yn cyfrannu at gefnogi a chyflawni'r gobeithion a nodir yn Cymru'r Dyfodol. Mae economi Castell-nedd Port Talbot wedi mynd trwy **newid mawr o ran cyd-destun**, a bydd y Strategaeth a nodwyd yn **cefnogi datblygiad economaidd i'r dyfodol** ac yn darparu fframwaith cynllunio sy'n **cydbwyso cartrefi a swyddi** ac a fydd yn meithrin cyfleoedd buddsoddi newydd i gynorthwyo **adferiad economaidd** a chynnal potensial hirdymor Castell-nedd Port Talbot.


7.1.25 Bydd y dull gweithredu a ddefnyddir yn mwyafu cyfleoedd yn yr ardal drefol, gan barchu sefyllfa Castell-nedd Port Talbot yn y cyd-destun rhanbarthol, hwyluso datblygiadau ag arwyddocâd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol o fewn yr A**rdal Dwf Genedlaethol, sy'n cyd-fynd â Pholisi 28 (Ardal Dwf Genedlaethol – Bae Abertawe a Llanelli) Cymru'r Dyfodol**. Bydd nifer o ddatblygiadau allweddol yn symud i gyfeiriad yr ardal drefol, ac mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod y gallai fod angen twf newydd i gefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy, yn unol â **Pholisïau 4 (Cefnogi Cymunedau Gwledig) a 5 (Cefnogi'r economi wledig) yn Cymru'r Dyfodol**. Trwy ganolbwyntio ar ganol ein trefi, mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd yr ardaloedd hyn fel y rhai sy'n darparu'r crynodiad mwyaf o nwyddau a gwasanaethau, a rhai sy'n cael eu hwyluso gan y **cysylltiadau cludiant mwyaf cynaliadwy**.

7.1.26 Lleolir **trefi mwyaf Castell-nedd a Phort Talbot** yn yr **Ardal Dwf Genedlaethol**, a **nodir trefi Pontardawe a Glyn-nedd yn y Strategaeth fel 'Hybiau yn y Cymoedd**'. Yn unol â Pholisi 6 Cymru'r Dyfodol (Canol Trefi'n Gyntaf) bydd datblygu, lle bo modd, yn cael ei gyfeirio i ganol ein trefi yn gyntaf, gyda'r Hierarchaeth aneddiadau yn nodi aneddiadau Haen 1 o amgylch canol ein trefi mwyaf, sef Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe. Mae nifer o gyfyngiadau yng nghanol ein trefi, a bydd yr **Hierarchaeth Aneddiadau** yn cyfeirio datblygiadau i'r aneddiadau Haen 1 yn y lle cyntaf, a lle nad yw hynny'n ymarferol bosibl, i haen nesaf yr hierarchaeth.

7.1.27 ***At ei gilydd, nod y strategaeth yw hwyluso datblygu cynaliadwy sy'n gwreiddio egwyddorion creu lleoedd fel elfen ganolog, ochr yn ochr â pharchu ein hamgylchedd adeiledig a naturiol mewn modd sensitif, er budd hirdymor i Gastell-nedd Port Talbot a'i thrigolion.***

7.1.28 Mae'r **diagram allweddol** isod yn dangos Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid. Mae'n dangos y prif ffyrdd, yr hybiau trafnidiaeth gyhoeddus a chysylltedd; yr Ardal Dwf Genedlaethol, a Choridor yr Arfordir ac Ardal Cyfle'r Cymoedd. Mae'n amlygu'r prif safleoedd tai a chyflogaeth, yn ogystal â mannau lle gellid buddsoddi.

Figure 7.1 Diagram Allweddol y Strategaeth a Ffefrir



Allwedd		Hyb Trafnidiaeth
Choridor yr Arfordir a'r Ardal Dwf Genedlaethol		Hwb Trafnidiaeth Dros Dro
Ardal Cyfle'r Cymoedd		Rhwydwaith Teithio Llesol
Ardal Dwf Genedlaethol		Priffyrdd Strategol
Aneddiadau		Porth
Cysylltedd Cenedlaethol		Prifysgol
Safleoedd Tai Allweddol		Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd
Ardal Gyflogaeth Allweddol		Parciau Gwledig
Hyb y Cymoedd		Parc Rhanbarthol y Cymoedd
Rheilffordd		Parc Coedwig Afan
Gorsafoedd Rheilffordd / Metro Presennol		Atyniad Ymwelwyr - Rhaeadrau
Gorsaf Metro Newydd Bosibl		Canolfan Antur Wildfox

Hawlfraint y Goron 2024 OS 100023392. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig atddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot Nichewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partionmewn unrhyw ffurf.

© Crown copyright 2024 OS 100023392. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-license, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

Pennod 8
Polisïau Strategol



Polisïau Strategol

8.0.1 Mae'r Fframwaith Strategol yn amlinellu'r polisïau strategol sy'n cynnal gweithrediad a chyflawniad y Strategaeth a Ffefrir a'r CDLlA yn ei grynswth. Mae'r rhain yn ceisio ymateb i amcanion y CDLlA, sef darparu polisïau a fydd yn berthnasol wrth ystyried ceisiadau cynllunio yn Castell-nedd Port Talbot hyd at 2038.

8.0.2 Mae cysylltiad rhwng polisïau strategol a'i gilydd, a dylid eu hystyried gyda'i gilydd yn hytrach nag yn ynysig, a'u gweld fel fframwaith cynhwysfawr lle mae pob polisi'n cyfrannu at y weledigaeth a'r amcanion cyffredinol er mwyn rhoi sylw i brif faterion y Cynllun.

8.1 Dewisiadau Strategol a Gofodol

8.1.1 Elfen ganolog o bolisi cynllunio cenedlaethol yw pwyslais ar bwysigrwydd creu lleoedd.

8.1.2 Yn PCC diffinnir creu lleoedd fel agwedd gyfannol at gynllunio a dylunio datblygiad a lleoedd, gyda ffocws ar ganlyniadau cadarnhaol. Mae'n defnyddio potensial ardal i greu datblygiad o safon uchel a mannau cyhoeddus sy'n hybu ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl, yn yr ystyr ehangaf, gan ystyried cyd-destun, swyddogaeth a pherthynas safle datblygu a'i gyd-destun ehangach.

8.1.3 Mae creu lleoedd yn berthnasol i bob datblygiad, beth bynnag yw eu maint, ac ni ddylai ychwanegu costau at ddatblygiad. Yn hytrach, mae'n galw am feddwl yn glyfar ac yn arloesol mewn sawl dimensiwn wrth weithredu, a dylid ei ystyried mor gynnar â phosibl. Dylai hefyd fod yn gymesur â math a graddfa'r datblygiad a gynigir a chydbwyso anghenion a dichonoldeb y datblygiad â'r dyheadau ehangach o ran creu lleoedd a chynaliadwyedd.

8.1.4 Mae PCC yn pwysleisio bod creu lleoedd yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at gynigion datblygu, gan greu manteision sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau datblygiad ffisegol ac yn gwreiddio gwydnwch mwy cyffredinol mewn penderfyniadau cynllunio.

8.1.5 Mae Castell-nedd Port Talbot wedi llofnodi'r Siarter Creu Lleoedd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn Dylunio Cymru a Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru (grŵp amlddisgyblaeth sy'n cynrychioli galwedigaethau a sefydliadau sy'n gweithio yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol). Mae'r Polisi Strategol sy'n dilyn yn ceisio cyflawni addunedau'r Siarter hon. Mae'n cyflwyno egwyddorion strategol creu lleoedd ar gyfer datblygu o fewn yr Awdurdod, ac ategir ef gan nifer o bolisïau strategol eraill, gan gynnwys Polisi Strategol 5, Creu Lleoedd ar Waith.

8.1.1 PS1 Creu Lleoedd Strategol

PS1 Creu Lleoedd Strategol

Bydd gofyn bod cynigion datblygu yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i leoedd cynaliadwy. Bydd cynaliadwyedd cymunedau yn cael ei wella, bydd manteision yr economi twf gwyrdd[16] yn cael eu dosbarthu, a diogelir yr amgylchedd naturiol trwy weithredu strategaethau twf a gofodol y CDLIA. Cyflawnir hynny trwy'r canlynol:

1. Mesurau dylunio, addasu a lliniaru priodol fydd yn helpu i ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd;

2. Darparu ar gyfer cydbwysedd priodol o gartrefi a swyddi;

3. Cyfeirio datblygiad i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy yn unol â'r strategaeth ofodol, yr hierarchaeth aneddiadau a therfynau diffiniedig aneddiadau er mwyn hybu iechyd a llesiant;

4. Creu lleoedd cynhwysol, diogel a chroesawgar, gan sicrhau cyfuniad priodol o dai fydd yn helpu i gefnogi anghenion tai yr Awdurdod a chefnogi creu cymunedau bywiog, amrywiol;

5. Cyfyngu ar yr angen am deithio, gan ddefnyddio a blaenoriaethu cysylltiadau teithio cynaliadwy, rhwydweithiau teithio llesol ac opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus sydd wedi'u cysylltu'n dda, yn hygyrch, ac yn lleihau dibyniaeth ar gerbydau preifat;

6. Hybu defnydd effeithlon o dir ac adnoddau;

7. Gwneud defnydd effeithlon o seilwaith presennol a lle bo angen, darparu ar gyfer seilwaith newydd, gwell sy'n briodol ar gyfer graddfa, math a lleoliad datblygiadau arfaethedig trwy ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio;

8. Dull gweithredu seiliedig ar Seilwaith Gwyrdd a budd net o ran bioamrywiaeth;

9.Dynodi a diogelu Lletemau Glas; Hyrwyddo a diogelu ein treftadaeth adeiledig a naturiol, nodweddion unigryw a chymeriad lleoedd sydd eisoes yn bodoli, diwylliant a'r iaith Gymraeg.

Amcan y CDLIA: NO4

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.1.1.1 Bydd dylunio da yn rhan hanfodol o sicrhau bod lleoedd yn gallu ymateb i anghenion preswylwyr y presennol a'r dyfodol. Mae hynny'n cynnwys **mesurau dylunio, addasu a lliniaru** priodol **sy'n helpu i ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd** a sicrhau bod lleoedd naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella er mwynhad cymunedau. Bydd angen i ddatblygiadau newydd sicrhau bod nodweddion unigryw, cadarnhaol a chymeriad lleoedd sydd eisoes yn bodoli a chefn gwlad yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu; mae hynny'n cynnwys cymryd i ystyriaeth amgylchedd adeiledig hanesyddol cyfoethog Castell-nedd Port Talbot, ei gymeriad lleol a'i hunaniaeth.

8.1.1.2 Mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau bod **cydbwysedd priodol o gartrefi a swyddi** yn cael ei gynllunio o fewn y Fwrdeistref Sirol, gan adlewyrchu'r heriau a'r cyfyngiadau presennol. Mae cynllunio ar gyfer cydbwysedd o gartrefi a swyddi yn arwain at gymunedau mwy cydnerth a chynaliadwy, sy'n haws byw ynddynt. Bydd hynny'n sicrhau bod ein trigolion yn gallu byw'n nes at eu gweithleoedd, gan leihau'r angen am deithiau cymudo hir, gyda busnesau'n elwa o weithlu lleol.

16 Mae Economi Twf Gwyrdd yn fframwaith economaidd sy'n ceisio cyflawni twf economaidd cynaliadwy ochr yn ochr â lleiafu diraddio amgylcheddol, lleihau allyriadau carbon, a hybu defnydd effeithlon o adnoddau naturiol.

8.1.1.3 Mae creu lleoedd strategol yn hanfodol i sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae'n gofyn bod datblygiadau wedi'u lleoli yn unol â'r strategaeth ofodol ac yn cael eu **cyfeirio i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy** lle mae gwasanaethau a chyfleusterau ar gael mewn lleoliadau hygyrch er mwyn cefnogi a hybu iechyd a llesiant. Mae teithiau cymudo byrrach yn lleihau straen ac yn cynyddu'r amser ar gyfer gweithgareddau corfforol fel cerdded neu feicio, ac yn gwella llesiant cyffredinol, gan arwain at gymdogaethau mwy bywiog, lle mae modd cerdded, sy'n hybu ffyrdd actif o fyw.

8.1.1.4 Bydd angen ystyried yr angen am ddarparu mynediad i bawb mor gynnar â phosibl er mwyn sicrhau bod **cymunedau cynhwysol, diogel a chroesawgar yn cael eu creu**. Dylai pob datblygiad hybu mynediad cyfartal i'n holl drigolion, beth bynnag yw eu hoed, eu gallu neu eu cefndir. Mae creu cymunedau hygyrch, hyfyw ac amrywiol hefyd yn lleihau ynysu cymdeithasol ac yn darparu cyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol. Dylid dylunio cynllun mannau agored, goleuadau ac adeiladau i leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dylai cymhwyso egwyddorion *menter Diogel drwy Ddyluniad* hybu gwyliadwriaeth naturiol, fydd yn gwella'r ymdeimlad o ddiogelwch. Mae sicrhau bod lleoedd yn ddiogel hefyd yn golygu ystyried gwydnwch yn wyneb risgiau amgylcheddol, fel llifogydd, newid yn yr hinsawdd a thrychinebau eraill naturiol. Gall integreiddio seilwaith gwyrdd (fel systemau draenio cynaliadwy (SUDs) helpu i ymdrin â materion o'r fath. Bydd angen hefyd i ddatblygiadau tai ddarparu **cyfuniad priodol o dai**, sy'n cefnogi amrywiaeth o fathau o dai a deiliadaeth er mwyn ymateb i ystod o anghenion yn unol â'n Hasesiad o'r Farchnad Dai Leol, a chyfrannu at dargedau tai fforddiadwy lleol fel y nodir ym Mholisi PS8 Tai. Lleoedd croesawgar yw rhai sy'n meithrin cydlyniant cymdeithasol, gan ddarparu mannau cyhoeddus a rennir sy'n annog pobl i gwrdd a rhyngweithio, gan ddileu rhwystrau cymdeithasol a meithrin ymdeimlad o berthyn.

8.1.1.5 Bydd darparu cyfuniad o ddefnyddiau ar safleoedd mwy yn fuddiol trwy **leihau'r angen am deithio** ac yn sgîl hynny yr angen am deithio mewn car. Bydd cefnogi teithio llesol ar y safle yn hanfodol i sicrhau newid modd, yn ogystal â chysylltu dolenni a all fodoli ar gyrion safleoedd datblygu, gan hybu mynediad cyffredinol a chysylltedd. Mae hynny'n cynnwys sicrhau mynediad digonol i rwydweithiau cerdded, beicio, bws a thrên newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli.

8.1.1.6 Bydd gofyn bod datblygiadau'n gwneud y **defnydd mwyaf effeithlon o dir** trwy gynnig dwyseddau priodol ochr yn ochr ag ystyried ein rhwydweithiau bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd. Bydd gofyn bod datblygiadau'n defnyddio deunyddiau cynaliadwy ac yn ymgorffori dyluniadau sy'n lleiafu gwastraff, yn hybu effeithlonrwydd ynni, ac yn **lleihau'r defnydd o adnoddau** (megis mwynau).

8.1.1.7 Diogelu seilwaith economaidd, digidol, diwylliannol a ffisegol sydd eisoes yn bodoli; ac anogir **defnydd effeithlon o seilwaith presennol** er mwyn lleihau effeithiau datblygiadau newydd. Bydd gofyn bod seilwaith newydd, os bydd angen, yn cefnogi datblygiadau newydd, a bydd hynny'n allweddol i sicrhau y cyflawnir cymunedau cynaliadwy ac egwyddorion creu lleoedd. Gall seilwaith gynnwys darparu tai fforddiadwy ac arbenigol; darpariaeth addysgol a chyfleusterau; seilwaith trafnidiaeth a chyfleusterau ar gyfer cerddwyr, beicwyr, trafnidiaeth gyhoeddus a thraffig cerbydau; yr iaith Gymraeg, seilwaith gwyrdd, gan gynnwys gwella bioamrywiaeth; cyfleusterau hamdden, chwaraeon ac adloniant; cyfleusterau cymunedol; cyfleusterau gofal iechyd; a seilwaith gwasanaethau a chyfleustodau, gan gynnwys seilwaith digidol. Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol, a gallai fod eraill, yn dibynnu ar natur safle-benodol datblygiadau arfaethedig.

8.1.1.8 Bydd sicrhau **dull newydd sy'n cael ei arwain gan Seilwaith Gwyrdd (SG)** wrth ddylunio yn hanfodol i sicrhau bod rhwydweithiau SG presennol a newydd yn cael eu gwella a'u creu i gefnogi datblygiad. Bydd cyfuno hyn ag ymrwymiad i gyflawni **budd net ar gyfer bioamrywiaeth** yn sicrhau bod datblygu yn Castell-nedd Port Talbot yn gynaliadwy, yn gydnerth o ran yr hinsawdd ac yn amgylcheddol gyfrifol. Mae'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelu a gwella ecosystemau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ac yn gwella iechyd a llesiant. Mae Polisi PS16 Seilwaith Gwyrdd a Pholisi PS3 Argyfwng Byd Natur, Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol yn darparu rhagor o fanylion.

8.1.1.9 Mae **dynodi a diogelu lletemau glas** yn hanfodol ar gyfer creu lleoedd strategol gan eu bod nid yn unig yn fodd i reoli ymlediad trefol, ond hefyd yn darparu manteision ecolegol, hamdden a diwylliannol sy'n gwella ansawdd bywyd yn gyffredinol mewn ardaloedd trefol.

8.1.1.10 Mae gan Castell-nedd Port Talbot gasgliad neilltuol o asedau treftadaeth dynodedig, y mae gan lawer ohonynt statws Heneb Gofrestredig ac Adeilad Rhestredig Dynodedig, sy'n dangos eu pwysigrwydd cenedlaethol a'u harwyddocâd i amgylchedd hanesyddol Cymru. Dylai datblygu **ddiogelu a hyrwyddo** asedau o'r fath, gan fod ein hamgylchedd hanesyddol wedi bod yn rhan annatod o ehangu ein cymunedau a'n **diwylliant** dros y canrifoedd. Mae ein **treftadaeth** yn llywio ein hymdeimlad o hunaniaeth ac unigrywiaeth, mae'n hybu hyfywedd economaidd ac ansawdd bywyd, ac yn cynnig cyfleoedd i bobl o bob oed ddysgu am hanes yr ardal. Mae'r **laith Gymraeg** yn rhan bwysig o'n treftadaeth a'n diwylliant. Mae twf y Gymraeg yn uchelgais genedlaethol i Gymru. Caiff defnydd o'r Gymraeg ei hybu yn Castell-nedd Port Talbot, a gall dylunio lleoedd gefnogi cyfleoedd i bobl ymgysylltu â'r Gymraeg a dwyieithrwydd, eu hybu a'u diogelu. Bydd datblygiadau'n cael eu hasesu er mwyn ystyried eu heffaith ar y Gymraeg.

8.1.2 PS2 Newid yn yr Hinsawdd

PS2 Newid yn yr Hinsawdd

Bydd gofyn bod cynigion datblygu yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at liniaru, addasu a meithrin gwydnwch yn wyneb effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Dylai cynigion gymryd i ystyriaeth yr angen am y canlynol:

1. Cael eu dylunio mewn modd sy'n ymgorffori mesurau effeithlonrwydd ynni, yn lleiafu defnydd o ynni, yn annog cadwraeth ynni ac yn cyfrannu at gyflawni targedau carbon isel/sero net;

2. Sicrhau defnydd cynaliadwy, effeithlon o ynni ac adnoddau fel tir, dŵr a mwynau;

3. Hwyluso cynhyrchu ynni adnewyddadwy, lle bo hynny'n briodol;

4. Cael eu lleoli mewn mannau priodol, cynaliadwy, sy'n cael eu cefnogi â dylunio da, cysylltedd digidol a chyfleoedd teithio cynaliadwy;

5. Osgoi datblygu mewn ardaloedd lle nodir bod perygl llifogydd neu lle mae hynny'n cynyddu perygl llifogydd ac erydiad arfordirol;

6. Mabwysiadu arferion adeiladu cynaliadwy;

7. Mwyafu cyfleoedd Seilwaith Gwyrdd (ac atebion seiliedig ar fyd natur) a helpu bywyd gwyllt a chynefinoedd i addasu i'r hinsawdd newidiol;

8. Diogelu a gwella'r holl asedau amgylchedd sy'n ofynnol er mwyn addasu i'r hinsawdd a datblygu gwydnwch yn y cyswllt hwn.

Amcan CDLIA: NO1

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.1.2.1 Ar 30 Ebrill 2019, cyhoeddodd LIC argyfwng hinsawdd. Tynnodd y cyhoeddiad hwn sylw yng Nghymru at faint ac arwyddocâd y dystiolaeth ddiweddaraf am y newid yn yr hinsawdd ac o ganlyniad, mae'r newidiadau diweddaraf i bolisi ac arweiniad cenedlaethol yn adlewyrchu blaenoriaeth i leihau achosion hyn trwy eu lliniaru, lleihau'r effeithiau (trwy addasu) ac ymgorffori gwydnwch yn wyneb effeithiau'r hinsawdd.

8.1.2.2 Datblygodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot ei Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy (DARE) ym mis Mai 2020 a chyhoeddi Argyfwng Hinsawdd ym mis Medi 2022. Mae'r Cyngor yn gweithio ar ddiweddaru ei strategaeth DARE i gynhyrchu Strategaeth Carbon Sero Net a Chynllun Gweithredu / Costau Rhoi ar Waith ochr yn ochr â'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (RLCEA) a Chynllun Ynni Ardal Leol 2024. Mae'r tair strategaeth hon, ochr yn ochr â'r Adroddiad Pontio Sero Net, yn ddogfennau allweddol sy'n nodi sut bydd Castell-nedd Port Talbot yn cyflawni ei dargedau lleol, gan gynnwys targed sero net.

8.1.2.3 Mae'r Newid yn yr Hinsawdd yn effeithio ar yr amgylchedd mewn sawl ffordd. Mae'r materion hyn yn hanfodol bwysig i'r CDLIA ac maen nhw wedi dylanwadu ar bob agwedd ar ddatblygiad y Cynllun. O ganlyniad, gwelir newid yn yr hinsawdd fel mater trosfwaol sydd i dderbyn sylw gan bob maes pwnc.

8.1.2.4 Bydd angen dylunio datblygiadau mewn modd sy'n **ymgorffori mesurau effeithlonrwydd ynni**, yn lleiafu defnydd o ynni, yn annog arbed ynni ac yn cyfrannu at gyflawni targedau carbon isel/sero net. Mae effeithlonrwydd cyffredinol o ran adnoddau ynni, gwres a dŵr yn elfen hanfodol o ddylunio da. Mae manteision aruthrol i leiafu'r galw am adnoddau ac arbed ynni trwy ddatblygiadau newydd, gan gynnwys cyrraedd targedau'r

Deyrnas Unedig ar gyfer mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, lleihau'r angen am ôl-osod cartrefi newydd, lleihau pwysau ar adnoddau lleol fel adnoddau dŵr, a lleihau costau cynnal tymor hir perchnogion tai unigol. Cyflwynir canllawiau manwl ynghylch safonau a cyngor dylunio ar sut mae cyflawni effeithlonrwydd ynni a chadwraeth mewn adeiladau a datblygiadau ym mholisïau rheoli datblygu'r Cynllun a'r Canllawiau Cynllunio Atodol.

8.1.2.5 Bydd cyfeirio datblygu i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy yn allweddol i sicrhau **defnydd cynaliadwy ac effeithlon o ynni ac adnoddau fel tir, dŵr a mwynau**. Rhoddir blaenoriaeth i dir a ddatblygwyd yn flaenorol, defnyddir dulliau draenio cynaliadwy, anogir teithio llesol, a datblygir polisïau dwysedd.

8.1.2.6 Yn ogystal ag integreiddio ar y safle, cadwraeth a defnydd effeithlon o adnoddau naturiol a dulliau o liniaru'r newid yn yr hinsawdd, bydd y Cyngor yn hwyluso, lle bo hynny'n briodol, **gynhyrchu ynni adnewyddadwy** er mwyn lliniaru effaith y newid yn yr hinsawdd. Mae Polisi PS12- Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel, yn cyfeirio'n benodol at ddatblygiadau o'r fath.

8.1.2.7 Lleolir datblygiadau mewn **mannau cynaliadwy** yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau, sy'n cymryd i ystyriaeth **gysylltedd digidol a chyfleoedd trafnidiaeth cynaliadwy**. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod datblygu'n ymgorffori mesurau i hwyluso defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy, er enghraifft mannau gwefru ar gyfer Cerbydau ag Allyriadau Eithriadol Isel (ULEV) a lle i storio beiciau.

8.1.2.8 Mae **perygl llifogydd** yn bryder i Castell-nedd Port Talbot oherwydd y cyd-destun a'r lleoliad arfordirol, topograffi'r cymoedd a'r patrymau anheddu hanesyddol. Bydd angen cyfeirio datblygu yn unol â pholisi ac arweiniad cenedlaethol, gan gynnwys y Nodyn Cyngor Technegol (TAN) diweddar ar berygl llifogydd. Dylai datblygu **osgoi ardaloedd arfordirol lle gellid cael erydiad** er mwyn diogelu cynefinoedd naturiol fel twyni tywod a gwlyptir, yn ogystal ag osgoi'r angen am ymyriadau drud fel amddiffynfeydd môr neu atgyweirio eiddo a ddifrodwyd.

8.1.2.9 Er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy, bydd Castell-nedd Port Talbot yn ceisio gwreiddio egwyddorion economi gylchol, ac yn ceisio lleihau ei allyriadau yn ei gadwyni cyflenwi. Lle bo modd, dylai datblygiadau ddefnyddio agregau eilaidd a rhai a ailgylchwyd fel rhan o'r **broses adeiladu**. Lle bynnag y bo modd, dylid gwneud hynny heb fynd â deunyddiau oddi ar y safle. Dylai datblygiadau hefyd gymryd i ystyriaeth faterion fel cyfeiriadedd solar a lefelau inswleiddio wrth ddylunio datblygiad newydd.

8.1.2.10 Bernir bod **atebion seiliedig ar fyd natur** yn angenrheidiol i feithrin gwydnwch mewn datblygiadau newydd a chymunedau presennol lle gellid gwaethygu effeithiau'r hinsawdd o ganlyniad i ddatblygiad newydd. Bydd y Cyngor yn defnyddio'i Asesiad **Seilwaith Gwyrdd** i lywio lleoliad datblygu, ac yn ceisio ymgorffori mesurau dylunio priodol. Bydd hynny'n helpu ein hamgylchedd i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac ymateb i'r heriau ecolegol, yn ogystal â helpu i liniaru'r achosion.

8.1.2.11 **Asedau amgylcheddol** yw adnoddau naturiol ac ecosystemau sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i gynnal bywyd, llesiant dynol a datblygiad economaidd. Mae'r asedau hyn yn cynnwys coedwigoedd, bioamrywiaeth, gwlyptir, afonydd, aer a phridd sy'n darparu amddiffyniad naturiol rhag llifogydd, yn cipio carbon, ac yn rheoleiddio'r tymheredd.

8.1.3 PS3 Argyfwng Byd Natur, Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol

PS3 Argyfwng Byd Natur, Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol

Bydd disgwyl i gynigion datblygu roi sylw i argyfwng byd natur trwy gyflawni budd net i fioamrywiaeth a gwella gwydnwch ecosystemau.

Bydd gofyn bod cynigion datblygu yn dangos:

1. Sut cyflawnir budd net cyffredinol i fioamrywiaeth trwy roi'r cynnig ar waith;

2. Y bydd yr holl rywogaethau gwarchodedig a chynefinoedd dynodedig a nodir sy'n bresennol yn cael eu diogelu a'u cadw yn unol â'r gofynion statudol;

3. Y bydd integriti safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol ar gyfer cadwraeth natur yn cael eu diogelu, gan gyfeirio datblygiadau oddi wrth safleoedd o'r fath lle bo modd; ac

4. Y bydd safleoedd eraill heb eu dynodi neu nodweddion sy'n gwella integriti a chysylltedd rhwydweithiau seilwaith gwyrdd ac ecolegol yn cael eu diogelu a'u gwella.

Amcanion CDLlA: NO2; NO3

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.1.3.1 Gwnaeth Cymru gyhoeddiad ynghylch Argyfwng Byd Natur gyntaf yn 2019, ac o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) [17]mae dyletswydd statudol ar y cyngor i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth ymarfer ei swyddogaethau. Er mwyn sicrhau bod pob cynnig datblygu newydd yn gweithio tuag at gyflawni'r rhwymedigaethau hyn, cyflwynir ystod lawn o fesurau yn y polisi hwn (Polisi PS3) yn amlinellu mesurau i ddiogelu a gwella cynefinoedd a rhywogaethau, ac ym Mholisi PS16 Seilwaith Gwyrdd, amlinellir y dull a ddefnyddir i ddiogelu ac estyn rhwydweithiau seilwaith gwyrdd.

8.1.3.2 Mae Polisi PS3 yn cydnabod pwysigrwydd amgylchedd naturiol ac asedau Castell-nedd Port Talbot, ac yn ceisio sicrhau eu bod yn cael eu diogelu, eu cynnal a'u gwella, nid yn unig oherwydd eu gwerth cynhenid o ran cadwraeth natur a gwydnwch ecosystemau, ond hefyd oherwydd y manteision cymdeithasol, economaidd, iechyd a chymunedol ehangach maen nhw'n eu darparu. Mae tystiolaeth gynyddol sylweddol bod manteision iechyd a llesiant cadarnhaol o gael mynediad at yr amgylchedd naturiol. Mae safleoedd a nodweddion dynodedig a rhai heb eu dynodi yn cynnig manteision aml-swyddogaethol o ran bioamrywiaeth, cadwraeth natur a chyfleoedd i fyw'n iach ac yn egnïol.

8.1.3.3 Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd uwch o ran bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau (Dyletswydd Adran 6) ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd hon yn gofyn bod awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, wrth ymarfer eu swyddogaethau, yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth trwy sicrhau nad yw datblygu yn achosi unrhyw golled sylweddol o ran cynefinoedd neu boblogaeth rhywogaethau, a rhaid iddo ddarparu budd net o safbwynt bioamrywiaeth.

8.1.3.4 Bydd gofyn felly bod pob Datblygiad yn dangos y cyflawnir budd net o safbwynt bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau. Gall ystod o gamau gweithredu fod yn ofynnol, gan gynnwys creu neu adfer cynefinoedd, trefniadau rheoli tymor hir a mesurau eraill sy'n

17 https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/enacted

gwella cynefinoedd presennol ac yn gwella gwydnwch ecosystemau. Bydd angen i'r manteision fod yn rhai hirdymor, mesuradwy, amlwg, ac yn cael eu darparu'n bennaf o fewn y safle datblygu. Mae **Fframwaith DECCA** yn nodi'r nodweddion fydd angen sylw:

- Amrywiaeth (**D**iversity)
- Cwmpas (**E**xtent)
- Cyflwr (**C**ondition)
- Cysylltedd (**C**onnectivity)
- Gallu i Addasu i newid (**A**daptability to change)

8.1.3.5 Ceir manylion pellach yn [18]PCC a TAN 5 (Dolen)[19].

8.1.3.6 Bydd angen i effeithiau niweidiol ar fioamrywiaeth dderbyn sylw, a darparu gwelliannau i fioamrywiaeth trwy ddilyn y dull fesul cam sy'n ofynnol gan bolisi cenedlaethol: yn gyntaf, osgoi unrhyw effaith, yna lleiafu'r effeithiau, yna ymgymryd â mesurau lliniaru, ac yna, os bydd popeth arall yn methu yn unig, gwneud iawn am unrhyw effaith negyddol. Lle nad oes modd lliniaru a gwella ar y safle, rhaid darparu mesurau gwneud iawn oddi ar y safle i sicrhau **mantais net i fioamrywiaeth**.

8.1.3.7 Caiff **rhywogaethau gwarchodedig a chynefinoedd dynodedig** eu diffinio gan y rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau pwysicaf i Gymru, a gyhoeddwyd o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Lle maent yn bresennol, bydd angen cytuno ar fesurau i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u gwarchod fel rhan o unrhyw gynigion cynllunio.

8.1.3.8 Mae llawer o ardaloedd pwysig ar gyfer bioamrywiaeth wedi cael eu nodi o dan ddynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a/neu leol, megis Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a Safleoedd Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC). Bydd angen i gynigion datblygu osgoi **safleoedd a amddiffynnir yn statudol** (**gan gynnwys ACAoedd a SoDdGAoedd**), a bydd y dull cam wrth gam yn cael ei ddefnyddio yn achos **safleoedd anstatudol** (**e.e. SINCs**).

8.1.3.9 Mae llawer o gynlluniau datblygu arfaethedig, os nad y cyfan, yn debygol o gynnwys neu effeithio ar safleoedd a nodweddion sydd â phwysigrwydd bioamrywiaeth, megis coed, perthi, ardaloedd coediog a dyfrgyrff. Bydd angen i unrhyw **ardaloedd o'r fath sy'n darparu gwerth ecolegol a manteision seilwaith gwyrdd** gael eu diogelu a'u gwella.

8.1.3.10 Gall dylunio sensitif a dewis lleoliad datblygiad newydd gael effaith gadarnhaol ar dreftadaeth adeiledig a naturiol. Yn yr un modd, bydd gofyn bod pob datblygiad newydd yn lleiafu'r effaith ar systemau naturiol, tirweddau, rhywogaethau a chynefinoedd, a lle bo hynny'n briodol, yn darparu cyfleoedd i greu cynefinoedd newydd neu wella cynefinoedd presennol yn sensitif.

18 https://www.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

19 https://www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-5-cynllunio-chadwraeth-natur

8.1.4 PS4 Iechyd

PS4 Iechyd

Bydd gofyn bod cynigion datblygu yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol i iechyd a llesiant cymunedau, gan gynnwys lleihau anghydraddoldeb iechyd trwy'r canlynol:

1. Datblygu a gwella cymunedau cynaliadwy, diogel a chydlynus trwy ddarparu gwasanaethau, cyfleusterau a chyflogaeth yn lleol;

2. Lleihau cysylltiad pobl ag effeithiau amgylcheddol niweidiol ar eu hiechyd trwy wella amgylcheddau lleol a rhoi sylw i bob math o lygredd, lle bo modd;

3. Bydd gwella hygyrchedd o fewn a rhwng cymunedau yn annog ffyrdd iachach a mwy actif o fyw trwy wella'r amgylchedd adeiledig a ffisegol, gan gynnwys cynnal a/neu wella cwmpas, ansawdd a chysylltedd y canlynol:

- **Rhwydwaith Teithio Llesol;**
- **Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd;**
- **Mannau adloniant; a**

4. Darparu tai ynni effeithlon, o safon dda.

Amcan CDLlA: NO3

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.1.4.1 Mae angen ystyried cynllunio a iechyd ar y cyd mewn dwy ffordd: o ran creu amgylcheddau sy'n cefnogi ac yn annog ffyrdd iach o fyw, a nodi a sicrhau'r ystod lawn o wasanaethau a chyfleusterau sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd da.

8.1.4.2 Mae rhai materion iechyd arwyddocaol yn Castell-nedd Port Talbot. Mae'r Cynllun Llesiant yn nodi bod gan Castell-nedd Port Talbot ddeiet sydd ymhlith y lleiaf iach a lefel o weithgaredd corfforol sydd ymhlith yr isaf. Mae ansawdd aer yn dal yn destun pryder, ac mae'n flaenoriaeth allweddol er mwyn gwella iechyd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae crynodiadau uchel o amddifadedd a thlodi'n parhau mewn ardaloedd o Castell-nedd Port Talbot. Mae'r mwyaf bregus i'w canfod mewn ardaloedd lle mae risg amgylcheddol uwch, er enghraifft ansawdd aer gwael. Mae disgwyl i'r newid yn yr hinsawdd waethygu'r anghydraddoldeb yma, ac mae perygl y gallai'r ymatebion i'r newid yn yr hinsawdd osod baich anghymesur ar bobl fregus a chymunedau mwy difreintiedig.

8.1.4.3 O ganlyniad, mae iechyd a llesiant ein cymunedau yn hanfodol bwysig i greu lleoedd a datblygu'n gynaliadwy yn y tymor hir. Elfen allweddol o hynny yw sicrhau bod **cymunedau cynaliadwy, diogel a chydlynus yn cael eu datblygu a'u gwella**, lle mae gan bobl o bob oed a chefndir fynediad at wasanaethau a chyfleusterau o safon uchel, fel sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau llawn, cynhyrchiol a llewyrchus. Cyflawnir hyn trwy ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau, ochr yn ochr â diogelu ardaloedd cyflogaeth presennol a darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd.

8.1.4.4 Bydd gofyn bod datblygiadau newydd yn sicrhau bod ansawdd yr amgylchedd lleol a'r angen naturiol sylfaenol mae'n ei gyflenwi yn cael eu diogelu, gan fod y rhain yn eithriadol bwysig i iechyd a llesiant pobl. Cyfyngir ar gyswllt pobl ag **effeithiau amgylcheddol niweidiol** trwy geisio gwella ansawdd aer ac adfer tir a halogwyd.

8.1.4.5 Bydd cyfleoedd yn cael eu darparu i annog ffyrdd iachach, mwy actif a mwy diogel o fyw trwy geisio cadw ystod o gyfleusterau hamdden, iechyd, cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol hygyrch.

8.1.4.6 Bydd **cyfleoedd teithio llesol** yn cael eu darparu o fewn datblygiadau newydd, ac edrychir ar gyfleoedd i wella hygyrchedd rhwng cymunedau ar draws y Fwrdeistref Sirol yn fwy cyffredinol.

8.1.4.7 Bydd **rhwydweithiau seilwaith gwyrdd** presennol yn cael eu diogelu, a datblygir rhwydweithiau newydd er mwyn annog ffyrdd mwy actif a iach o fyw.

8.1.4.8 Bydd **mannau hamdden** presennol yn cael eu diogelu, a cheisir sicrhau mannau newydd ar gyfer hamdden fel rhan o ddatblygiadau newydd.

8.1.4.9 Dyrannir cyfleoedd tai newydd i sicrhau bod **tai ynni effeithlon o safon dda** yn cael eu darparu.

8.1.5 PS5 Creu Lleoedd ar Waith

PS5 Creu Lleoedd ar Waith

Mae creu lleoedd yn ceisio sicrhau cyfuniad priodol o ddefnyddiau i gynnal creu cymunedau hyfyw, cynaliadwy.

Rhaid i gynigion datblygu ddangos sut maent yn:

1. Ymateb yn gadarnhaol i nodweddion a chyfleoedd unigryw y cyd-destun lleol trwy sicrhau dylunio cynhwysol o safon uchel, gan gymryd i ystyriaeth egwyddorion diogel trwy ddyluniad er mwyn lleihau troseddu ac ofn trosedd;

2. Ymgorffori Seilwaith Gwyrdd;

3. Ceisio cadw a diogelu mannau hamdden a chyfleusterau cymunedol sydd eisoes yn bodoli, a datblygu rhai newydd;

4. Sicrhau bod gan leoedd fynediad at opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy;

5. Diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a'r dreftadaeth ieithyddol;

6. Diogelu, cadw a gwella'r dreftadaeth adeiledig, diwylliant a'r amgylchedd naturiol;

7. Diogelu'r prif byrth mynediad; a

8. Chyflwyno lefel briodol o seilwaith ategol.

Amcanion y CDLlA: NO5, NO8; NO3

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.1.5.1 Tra bod Polisi PS1 Creu Lleoedd Strategol yn amlinellu'r dull strategol o greu lleoedd ar draws y fwrdeistref sirol, mae Polisi PS5, Creu Lleoedd ar Waith, yn ymdrin â mesurau dylunio mwy penodol er mwyn sicrhau bod lleoedd yn gallu ymdrin ag anghenion trigolion y presennol a'r dyfodol a chreu cymunedau hyfyw, cynaliadwy.

8.1.5.2 Bydd **dylunio da** yn cynnwys rhoi sylw i amwynder cyffredinol, yn ogystal â gwedd, hygyrchedd a defnydd o adnoddau. Os yw safle i gael ei ddatblygu gyda chyfuniad o ddefnyddiau, bydd angen ystyried yn ofalus y berthynas a'r rhyngweithio rhwng y defnyddiau hynny i sicrhau eu bod yn gydnaws ac yn integreiddio â'i gilydd, ac â defnyddiau cyfagos presennol. Mae dylunio adeiladau'n fanwl, o'r cyfanwaith cyffredinol i'r deunyddiau gorffen, yn rhan bwysig o hyn, a dylai gymryd i ystyried amgylchiadau'r safle a'u gwella, gan gynnwys adeiladau eraill, mannau hamdden a thopograffi. Mae angen ystyried maint, graddfa, uchder, crynswth, gweddluniau, deunyddiau a manylion, cynllun, ffurf, cyfuniad a dwysedd; gan sicrhau na fydd yn effeithio ar amwynder defnyddiau cymdogol.

8.1.5.3 Mae tirlunio yn cael effaith bwysig ac yn rhan sylweddol o'r broses ddylunio gyffredinol. Gall dyluniad a chynllun datblygiad newydd gael effaith sylweddol hefyd ar ddiogelwch y cyhoedd ac ofn trosedd. Mae gofyn bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried atal troseddu ac annhrefn, a dylai dyluniad y datblygiad ddilyn **egwyddorion Diogel trwy Ddyluniad** er mwyn helpu i leihau cyfleoedd ar gyfer troseddu, annhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bernir bod cynllun ac ymarferoldeb strydoedd yn rhan sylfaenol o lwyddo i greu lleoedd cynaliadwy yn y cyswllt hwn.

8.1.5.4 Gan gydnabod pwysigrwydd **Seilwaith Gwyrdd**, yn unol â pholisi cenedlaethol, bydd gofyn bod cynigion datblygu yn creu, yn diogelu ac yn gwella'r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd ac yn mwyafu ei allu i gyflawni ei swyddogaeth. Ceir rhagor o wybodaeth ym Mholisi PS16 'Seilwaith Gwyrdd'.

8.1.5.5 Bydd **mannau hamdden a chyfleusterau cymunedol** yn cael eu cadw a'u diogelu a'u datblygu yn ein cymunedau oherwydd eu bod yn cyflawni sawl diben, yn hanfodol ar gyfer iechyd, llesiant ac amwynder, ac yn cyfrannu at seilwaith gwyrdd ardal. Mae PCC yn diffinio mannau hamdden fel rhai sy'n darparu lle ar gyfer chwarae, chwaraeon, gweithgaredd corfforol iach a lle i ymlacio, yn aml ym mhresenoldeb byd natur. Enghreifftiau o gyfleusterau cymunedol yw siopau lleol, ysgolion, cyfleusterau diwylliannol, cyfleusterau gofal iechyd, llyfrgelloedd, rhandiroedd ac addoldai.

8.1.5.6 Gyda golwg ar liniaru a lleihau perygl llifogydd, dylai cynigion datblygu geisio cadw, diogelu a datblygu darpariaeth newydd o ran seilwaith gwyrdd, mannau hamdden a chyfleusterau cymunedol.

8.1.5.7 Bydd angen i gynigion datblygu sicrhau bod ganddyn nhw fynediad at **opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy** megis teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn datblygu cymunedau hyfyw, cynaliadwy. Dylid cymryd hyn i ystyriaeth wrth baratoi cynigion i sicrhau bod y defnyddiwr terfynol mewn golwg ar y cyfle cyntaf. Mae Polisi PS7 Trafnidiaeth Gynaliadwy yn cynnwys rhagor o fanylion o ran y gofynion i ddatblygiadau penodol.

8.1.5.8 Asesir pob cynnig datblygu yn y dyfodol i sicrhau y byddant yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gryfhau hunaniaeth leol; cyflawni cymunedau cynaliadwy; annog ffordd fwy cynaliadwy o fyw; hybu cydlyniant cymunedol ac ymgysylltiad, a diogelu a hyrwyddo'r **Gymraeg a threftadaeth ieithyddol**. Mae twf y Gymraeg yn uchelgais genedlaethol i Gymru. Mae defnydd o'r Gymraeg yn allweddol bwysig yn Castell-nedd Port Talbot a gall dyluniad lleoedd gefnogi cyfleoedd i bobl ymgysylltu â'r Gymraeg, tra gall seilwaith cymdeithasol ddarparu cyfleoedd dysgu. Bydd angen i ddatblygiadau hybu defnydd o'r iaith ac osgoi effeithiau negyddol ar ddefnydd o'r Gymraeg. Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 yn amlygu nifer o fesurau posibl i helpu i reoli effaith datblygu ar y Gymraeg ac i hybu defnydd o'r iaith. Ymgorfforir mesurau o'r fath ym mholisïau manwl y cynllun adnau, ac ymhelaethir arnynt trwy baratoi canllawiau cynllunio ategol diwygiedig.

8.1.5.9 Bydd angen i ddatblygiadau **gadw, diogelu a gwella amgylchedd hanesyddol ac adeiledig a threftadaeth diwylliannol** ein Bwrdeistref Sirol; ac adlewyrchu cyd-destun yr ardal. Mae arwyddocâd hanesyddol, pwysigrwydd diwylliannol a gwerth pensaernïol ein cymunedau yn allweddol i ddeall hunaniaeth Castell-nedd Port Talbot a'i gorffennol hanesyddol, cyfoethog. Bydd ein **hamgylchedd naturiol** yn cael ei ddiogelu, ei gadw a'i wella trwy sicrhau bod datblygiadau'n cyflawni budd net o ran bioamrywiaeth, gan gyfrannu'n gadarnhaol at fioamrywiaeth, a sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol posibl yn cael eu gwrthbwyso gan gamau gweithredu sy'n gwella bioamrywiaeth.

8.1.5.10 Bydd angen hefyd i gynigion datblygu gymryd i ystyriaeth y **prif byrth** i mewn i'r Sir. Ardaloedd yw'r rhain yn ymyl ffin y Fwrdeistref Sirol sy'n amlwg wrth ddod i mewn i Castell-nedd Port Talbot neu ymadael, ac maent yn helpu i ddiffinio cymeriad a delwedd yr ardal. Mae pryderon bod datblygiadau blaenorol yn yr ardaloedd hyn wedi cael effaith niweidiol ar olwg yr ardal leol, ac o ganlyniad ar yr effaith gyntaf a roddir i ymwelwyr a delwedd gyffredinol y Fwrdeistref Sirol. Er mwyn sicrhau dyluniad o safon dda, bydd gofyn bod datblygiadau newydd yn cymryd eu heffaith weledol o'r prif lwybrau trafnidiaeth i ystyriaeth lawn, gan roi sylw gofalus i leoliad, dyluniad, golwg, swmp a graddfa, er mwyn lleiafu unrhyw ymwthio gweledol a lle bo hynny'n briodol, wella agweddau gweledol yr ardal.

8.1.5.11 Bydd gofyn bod pob datblygiad newydd yn darparu lefel briodol o **seilwaith ategol**. Ceir gwybodaeth bellach yn PS1 'Creu Lleoedd Strategol'.

8.1.6 PS6 Ardaloedd Strategaeth

PS6 Ardaloedd Strategaeth

Nodir dwy Ardal Strategaeth yn Castell-nedd Port Talbot (ac fe'u gwelir ar y Diagram Allweddol): Coridor yr Arfordir a'r Ardal Dwf Genedlaethol (CCNGA) ac Ardal Cyfle'r Cymoedd (VOA).

Coridor yr Arfordir a'r Ardal Dwf Genedlaethol (CCNGA)

Lleolir y rhan fwyaf o boblogaeth, cyflogaeth, gwasanaethau allweddol a chyfleusterau'r Fwrdeistref Sirol yn y CCNGA, a dyna lle cyfeirir y rhan fwyaf o ddatblygu.

Yn y CCNGA, mae'r strategaeth yn:

1. Gwneud yn fawr o dwf cyflogaeth o amgylch y Porthladd Rhydd, y Porthladd, a Pharc Ynni Baglan er mwyn adeiladu ar ddiddordeb y farchnad ar hyd yr Ardal Dwf Genedlaethol a Gwaith Dur Port Talbot er mwyn helpu gydag adferiad economaidd;

2. Nodi safleoedd tai allweddol er mwyn helpu i gyflwyno tai fforddiadwy yn yr ardaloedd lle nodwyd yr angen mwyaf;

3. Cydleoli cartrefi a swyddi i leihau cymudo;

4. Mwyafu cyfleoedd trafnidiaeth gynaliadwy a chysylltedd yn rhanbarth Bae Abertawe ac yn hybu dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy; ac yn

5. Gwella'r Rhwydwaith Teithio Llesol.

Ardal Cyfle'r Cymoedd (VOA)

Yn y VOA y caiff y prif gyfleoedd twristiaeth, cyflogaeth a threftadaeth eu hyrwyddo, er mwyn gweithredu fel catalydd ar gyfer gwelliannau tymor hir.

O fewn y VOA, mae'r strategaeth yn:

1. Nodi cyfleoedd cyflogaeth a thwristiaeth allweddol, fel Canolfan Antur Cwm Afan a'r Ganolfan Rhagoriaeth Rheilffyrdd Ranbarthol;

2. Mwyafu lleoliadau twristiaeth a threftadaeth sydd eisoes yn bodoli fel Parc Beicio Afan, Gwlad y Sgydau a Dyffryn Treftadaeth Castell-nedd;

3. Nodi Pontardawe a'r ardal o amgylch a Glyn-nedd fel canolbwyntiau i'r Cymoedd

4. Cydnabod y bydd twf tai yn gymedrol o gymharu â maint, rôl a swyddogaeth aneddiadau presennol'

5. Annog twristiaeth a mentrau ar raddfa lai trwy'r strategaeth gyflogaeth i fwyafu'r cyfleoedd cyflogaeth posibl i ddiwallu anghenion y gymuned leol;

6. Darparu cyfleoedd i gynhyrchu Ynni Adnewyddadwy;

7. Cefnogi darparu seilwaith band eang o safon uchel; ac yn

8. Gwella'r Rhwydwaith Teithio Llesol.

Amcan y CDLIA: Bydd y polisi hwn yn ceisio rhoi sylw i holl amcanion y cynllun newydd.

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.1.6.1 Mae dwy elfen yn ffocws i'r strategaeth yn Castell-nedd Port Talbot; cynorthwyo adferiad economaidd a gosod gwerth ar y cyfleoedd unigryw yn yr ardal.

8.1.6.2 O fewn y **CCNGA**, bydd y strategaeth yn ceisio darparu adferiad economaidd trwy dwf cyflogaeth o amgylch y Porthladd Rhydd, y Porthladd a Pharc Ynni Baglan. Cefnogir hyn trwy gyflwyno safleoedd tai allweddol a fydd yn helpu i ddarparu cartrefi fforddiadwy mewn ardaloedd lle nodwyd bod yr angen mwyaf. Bydd datblygu'r ardaloedd cyflogaeth a phreswyl hyn yn sicrhau bod swyddi a chartrefi'n cael eu cydleoli, a chefnogir hynny trwy ddarparu cyfleoedd trafnidiaeth cynaliadwy a chysylltedd yn rhanbarth Bae Abertawe. Ymhellach, bydd cydleoli swyddi a chartrefi yn helpu i greu cymunedau cynhwysol, cynaliadwy sydd â mynediad at addysg, gofal iechyd, manwerthu a chyfleusterau cysylltiedig, yn ogystal â defnyddiau ategol. Cefnogir cyfleoedd i ddylunio ac adeiladu datblygiadau sy'n gydnerth yn wyneb y newid yn yr hinsawdd er mwyn helpu i leihau effeithiau'r newid hwnnw. Nod y polisi hwn yw gwella'r Rhwydwaith Teithio Llesol. Mae'n rhaid cwblhau rhwydweithiau cerdded a beicio a dolenni rhwydwaith allweddol i gael mynediad at asedau seilwaith gwyrdd.

8.1.6.3 Yn y **VOA**, mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau bod cyfleoedd twristiaeth a chyflogaeth allweddol yn cael eu mwyafu. Yn Castell-nedd Port Talbot, mae nifer o asedau twristiaeth gwerthfawr, megis Parc Beicio Afan; Camlas Nedd; rhaeadrau Melin-cwrt, Aberdulais a chysylltiadau agos â Bannau Brycheiniog; Gwaith Haearn Aberdulais; Pyllau Glyncorrwg a'r Ganolfan Beicio Mynydd. Mae arwyddocâd cenedlaethol i gyfleusterau fel Parc Beicio Afan, sy'n denu ymwelwyr ar hyd y flwyddyn. Ar ben hynny, mae darpar gynlluniau sydd hefyd yn symud trwy'r cyfnodau Cynllunio, megis Canolfan Antur Coedwig Afan a Rheola. Ochr yn ochr â chreu swyddi yn GCRE, mae'r VOA am fwyafu'r rhain yn gatalydd ar gyfer gwelliannau hirdymor.

8.1.6.4 Mae'r **VOA** hefyd yn nodi **Pontardawe** a'r ardal o amgylch, **a Glyn-nedd fel hybiau yn y Cymoedd**; Pontardawe oherwydd ei gallu i ddarparu tai fforddiadwy yn sgîl ei lleoliad allweddol, a Glyn-nedd oherwydd y gwaith gwella gwerth miliynau o bunnoedd ar hyd yr A465. Mae strategaeth y VOA yn cydnabod y bydd twf cymesur, cymedrol o ran tai, wedi'i gydbwyso â manteision a chyfleoedd cyflogaeth y cynigion twristiaeth sydd ar gael, er mwyn diwallu anghenion y cymunedau lleol, a bydd hynny'n cael ei wella ymhellach trwy ddarparu cwmpas band eang gwell yn yr ardal. Mae'r VOA hefyd yn ardal a allai ddarparu cyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy (megis Gwynt, Solar a chyfleusterau Storio Batrïoedd). Cefnogir cyfleoedd i ddylunio ac adeiladu datblygiadau sy'n gydnerth yn wyneb y newid yn yr hinsawdd er mwyn helpu i leihau effeithiau'r newid hwnnw. Nod y polisi hwn yw gwella'r Rhwydwaith Teithio Llesol. Mae'n ofynnol cwblhau rhwydweithiau cerdded a beicio a chysylltiadau rhwydwaith allweddol er mwyn cael mynediad at asedau seilwaith gwyrdd.

8.2 Lleoedd Actif a Chymdeithasol

8.2.1 PS7 Trafnidiaeth Gynaliadwy

PS7 Trafnidiaeth Gynaliadwy

Rhaid i ddatblygu gyd-fynd â'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a chael ei gefnogi gan seilwaith trafnidiaeth priodol. Bydd angen i gynigion wneud y canlynol:

1. Galluogi cyfleoedd i wella'r rhwydwaith teithio llesol;

2. Diogelu a chefnogi cyfleoedd i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus;

3. Darparu lefel briodol o ddarpariaeth barcio ar gyfer ystod o anghenion parcio, yn cynnwys seilwaith sy'n darparu ar gyfer datblygiadau technolegol yn y dyfodol megis pwyntiau gwefru i gerbydau allyriadau isel a/neu drydan;

4. Sicrhau bod dewisiadau heblaw cludo nwyddau ar y ffordd yn cael eu gwarchod a/neu eu gwella trwy ddiogelu darpariaethau Porthladd, Harbwr, Dociau, Afonydd a Rheilffyrdd.


Amcan y CDLIA: NO6

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.2.1.1 Mae Cynlluniau Datblygu yn fodd i integreiddio defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth. Mae Castell-nedd Port Talbot ar goridor strategol bwysig yr M4, rhwydweithiau ffordd a rheilffordd strategol pwysig sy'n cysylltu Cymru â gweddill y Deyrnas Unedig. Mae'r Sir yn lleoliad pwysig yn genedlaethol o ran gweithgareddau economaidd cysylltiedig â'r porthladd ac ynni, ac felly mae cefnogi symud nwyddau trwy ddulliau amgen yn bwysig. Yn unol â PCC a TAN 19, mae'r polisi hwn yn galluogi, yn diogelu ac yn cefnogi gwelliannau arfaethedig i'r seilwaith trafnidiaeth.

8.2.1.2 Yn unol â pholisi cenedlaethol, gwneir penderfyniadau yng nghyd-destun yr **Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy**: Dylai datblygiadau geisio lleihau'r angen am deithio, hybu teithio llesol, cefnogi trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith Cerbydau Allyriadau Sero, o flaen y car preifat. Bydd defnyddio'r dull gweithredu hwn yn cefnogi'r pontio i ffwrdd oddi wrth ddefnyddio ceir preifat at ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy, ac yn hybu dull integredig o ymdrin â chynllunio trafnidiaeth a defnydd tir trwy gynigion datblygu.

Figure 8.1 Yr Hierarchaeth Drafnidiaeth Gynaliadwy



8.2.1.3 Nod y Polisi yw adlewyrchu Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021, sy'n rhoi blaenoriaeth i ddod â gwasanaethau at bobl er mwyn lleihau'r angen am deithio; galluogi pobl a nwyddau i symud yn hwylus trwy gyfrwng gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon; ac annog pobl i bontio at ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy. Mae Llwybr Newydd yn cyflwyno'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer cyflwyno cynlluniau trafnidaeth lleol ar y cyd a rhai rhanbarthol yn y dyfodol. Mae'r Awdurdodau yn Ne-orllewin Cymru yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i baratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol fydd yn disodli'r cynllun presennol, y Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd y Cyngor yn ceisio archwilio cynigion ar gyfer Metro De-orllewin Cymru, fel yr amlinellwyd yn Cymru'r Dyfodol. Nod y Polisi Strategol yw alinio ag amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'u hadlewyrchu o ran diogelwch a diogeledd, cysylltedd a hygyrchedd, ansawdd ac effeithlonrwydd, amgylchedd a defnydd tir ac adfywio.

8.2.1.4 Bydd angen i'r cynigion alluogi cyfleoedd i ddefnyddio, a lle bo angen i wella'r **rhwydwaith teithio llesol**, trwy welliannau i lwybrau teithio lleol presennol neu arfaethedig, gwella mynediad at lwybrau presennol neu arfaethedig, neu greu cysylltiadau â llwybrau presennol neu arfaethedig. Dylid cymryd cyfleoedd teithio llesol i ystyriaeth wrth nodi safle a datblgu cynigion ar ei gyfer.

8.2.1.5 Dylai cynigion datblygu ddiogelu a chefnogi cyfleoedd i **wella'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus**. Cefnogir cynlluniau trafnidiaeth lle maent yn arwain at fanteision i amgylchedd, economi, iechyd a llesiant y gymuned. Mae darparu dewis o ran moddau teithio yn bwysig i gyflawni datblygu cynaliadwy, fel y mae integreiddio dulliau trafnidiaeth. Bydd annog cerdded a beicio trwy wella seilwaith a hygyrchedd nifer yn unig yn creu manteision amgylcheddol, ond hefyd yn hybu ffyrdd iachach o fyw, gan gyfrannu at amcanion creu lleoedd, iechyd a llesiant.

8.2.1.6 Bydd gofyn bod datblygiadau'n darparu lefel briodol o **ddarpariaeth barcio** ar gyfer ystod o anghenion parcio, gan ymgorffori **seilwaith gwefru cerbydau trydan / allyriadau isel**. Bydd gofyn bod darpariaeth barcio ar gyfer cerbydau modur a beiciau yn cael ei hymgorffori mewn datblygiadau, gyda ffocws penodol ar ddiwallu anghenion y trigolion.

8.2.1.7 Yn sgîl diwydiannau hanesyddol y Fwrdeistref Sirol, mae nifer o ddewisiadau heblaw cludo ar y ffyrdd wrth symud nwyddau yn Castell-nedd Port Talbot. Gwrthwynebir unrhyw ddatblygiad a fyddai'n peryglu defnydd o **gyfleusterau harbwr, dociau, glanfeydd a chysylltiadau rheilffordd a seidinau Castell-nedd Port Talbot** ar gyfer symud nwyddau, yn awr neu yn y dyfodol, oni ellir dangos bod y llwybr yn anaddas ar gyfer cludiant.

8.2.1.8 Yn atgof o'r diwydiannau hanesyddol, mae gan Castell-nedd Port Talbot hefyd nifer o **linellau rheilffordd nad ydynt yn cael eu defnyddio**, y gellid eu hailddatblygu yn goridorau trafnidiaeth lesol neu gynaliadwy. Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, bydd seilwaith nas defnyddir yn cael ei ddiogelu lle mae cyfle realistig y gallai gael ei ailddefnyddio at ddibenion trafnidiaeth, neu lle mae'n briodol ei ddatblygu i greu llwybr cerdded a beicio. Ni chaniateir datblygiad a fyddai'n amharu ar y posibilrwydd o ailagor neu ailddefnyddio oni ddangosir bod y llwybr yn anaddas ar gyfer defnydd cludiant yn y dyfodol.

8.2.2 PS8 Tai

PS8 Tai

Rhoddir sylw i ystod o anghenion llety trwy'r mesurau canlynol:

1. Nodi bod Galw am Dai:
a. Cyflawnir anghenion tai y strategaeth adferiad economaidd, sef 3,480 o anheddau, trwy ddarparu 4,176 o anheddau rhwng 2023 a 2038, gan gynnwys lwfans hyblygrwydd o 20%.

2. Nodi Targed Tai Fforddiadwy.

3. Cyflwyno cartrefi fforddiadwy trwy wneud y canlynol:
a. Pennu trothwyon a thargedau sy'n gofyn bod datblygiadau tai yn cyfrannu at ddarpariaeth tai fforddiadwy; a
b. Darparu fframwaith ar gyfer ystyried cynigion am safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy

4. Diwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr trwy wneud y canlynol:
a. Dyrannu safle(oedd); a
b. Darparu fframwaith ar gyfer ystyried cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

Amcan y CDLlA: NO7

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.2.2.1 Mae'r strategaeth yn ceisio cyflwyno twf poblogaeth fydd yn ymateb i'r lefel o dwf economaidd a ragwelir yn ystod cyfnod y Cynllun, ar ôl cymryd i ystyriaeth hefyd yr amcan o hwyluso adferiad economaidd.

8.2.2.2 Mae'r Cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu 4,176 o unedau preswyl ychwanegol. Mae hynny'n fwy na'r angen am dai a nodwyd er mwyn darparu lwfans hyblygrwydd o 20% pan na fydd safleoedd yn cael eu cyflwyno fel y rhagwelwyd.

8.2.2.3 Cynhwyswyd **Lwfans Hyblygrwydd** o 20% yn sgîl tystiolaeth o dangyflwyno tai yn flaenorol yn y Sir. Bydd y lwfans hwn yn sicrhau bod nifer digonol o safleoedd ar gael i'w datblygu er mwyn ymdrin â'r materion allweddol, cyflawni gweledigaeth ac amcanion y Cynllun, a darparu llawer iawn o hyblygrwydd i'r dyfodol, gan gefnogi cyflawni cynifer o gyfleoedd â phosibl wrth iddyn nhw godi yn ystod cyfnod y Cynllun.

Elfennau'r Galw o ran Tai

Mae nifer o gydrannau'n cael eu cwmpasu gan y cyflenwad tai (4,176):

Tabl 8.10.1

Elfen	Cydran yn y Cyflenwad Tai	Nifer yr Unedau Tai
A	Cyfanswm a gwblhawyd (bach a mawr)	100
B	Unedau sydd ar waith	405
C	Unedau â chaniatâd cynllunio	195

Elfen	Cydran yn y Cyflenwad Tai	Nifer yr Unedau Tai
D	Dyraniadau tai newydd	2,561
E	Safleoedd mawr annisgwyl (10+ uned)	420
F	Safleoedd bach annisgwyl	495
G	Cyfanswm y Ddarpariaeth Tai	4,176

8.2.2.4 Mae angen darparu ar gyfer cyfuniad o ran deiliadaeth, math a maint y cartrefi, yn unol ag Asesiad Marchnad Dai Leol diweddaraf y Cyngor (LHMA).

8.2.2.5 Mae darparu **tai fforddiadwy** yn un o amcanion allweddol Strategaeth y Cynllun, sy'n ceisio cyflwyno digon o gartrefi newydd o ansawdd da o'r mathau sy'n ofynnol yn y lleoliadau mwyaf addas i ddiwallu'r angen a nodwyd.

8.2.2.6 Mae'r LHMA drafft diweddaraf (2024) yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'r LHMA drafft yn nodi, bod angen 164 o dai fforddiadwy y flwyddyn.

8.2.2.7 Bydd tai fforddiadwy yn cael eu darparu trwy ddefnyddio amodau cynllunio, rhwymedigaethau a/neu gytundebau cyfreithiol rhwng y Cyngor, Datblygwyr a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

8.2.2.8 Mae dichonoldeb datblygiadau yn agwedd allweddol ar sicrhau tai fforddiadwy trwy ddatblygiadau newydd. Bydd cyfanswm y targed tai fforddiadwy yn dibynnu ar ddichonoldeb yr ardal.

8.2.2.9 O fewn y CDLlA Adnau, nodir targedau tai fforddiadwy gan adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes trwy'r adroddiad dichonoldeb lefel uchel.

8.2.2.10 Mae gan Gastell-nedd Port Talbot gymuned sefydledig o **Sipsiwn a Theithwyr**. Mae'r Cyngor wedi asesu'r angen am lety ar ffurf Safleoedd i Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn dros gyfnod y Cynllun hyd at ddiwedd 2036. Mae Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) 2022 yn nodi nad oes angen yn y tymor byr, ac y bydd angen 10 llain yn y tymor hir. Yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014, bydd y Cyngor yn cynnal GTAA newydd bob pum mlynedd.

8.2.2.11 Bydd polisi manwl yn cael ei baratoi ar gyfer y CDLlA Adneuo i gyfarch yr angen a nodwyd a darparu polisi seiliedig ar feini prawf ar gyfer asesu cynigion ar gyfer safleoedd neu leiniau newydd ar hyd cyfnod y Cynllun. Bydd hynny'n sicrhau bod mecanwaith effeithiol yn cael ei sefydlu ar gyfer diwallu angen.

8.2.2.12 Bydd gofynion yn y dyfodol ar gyfer lleiniau Sipsiwn a Theithwyr a'r nifer parhaus sy'n defnyddio lleiniau yn cael ei fonitro'n fanwl, gan roi sylw i'r GTAA, a defnyddio'r fframwaith monitro a'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

8.2.3 PS9 Canolfannau Masnachol a Manwerthu

PS9 Canolfannau Masnachol a Manwerthu

Cefnogir hyfywedd, dichonoldeb ac atyniad canolfannau masnachol a manwerthu trwy wneud y canlynol:

1. Nodi hierarchaeth fanwerthu a masnachol lle bydd defnyddiau manwerthu a defnyddiau cydnaws priodol yn cael eu diogelu a'u hannog;

2. Sicrhau bod cynigion datblygu yn cyd-fynd â'r rôl a ddiffiniwyd ar gyfer pob canolfan yn yr hierarchaeth fanwerthu a masnachol; a

3. Rheoli defnyddiau amhriodol newydd o ganolfannau masnachol a/neu fanwerthu, y tu allan i'r hierarchaeth fanwerthu a masnachol a nodwyd.

Amcan y CDLlA: NO8

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.2.3.1 Mae canolfannau masnachol a manwerthu yn hybiau o weithgaredd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, ac yn ffocws ar gyfer ystod amrywiol o wasanaethau sy'n cefnogi anghenion cymunedau lleol. Mae'r canolfannau hyn nid yn unig yn darparu cyfleusterau yn ystod y dydd, ond hefyd yn cefnogi'r economi gyda'r hwyr ac yn y nos.

8.2.3.2 Mae rôl canol trefi traddodiadol fel unedau siopa A1 yn bennaf wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bydd eu dyfodol yn cynnwys addasu diben canolfannau i greu manwerthu, masnach a gwasanaeth amlweddog sy'n diwallu anghenion y cymunedau a wasanaethir. Mae'r polisi hwn yn mabwysiadu agwedd fwy hyblyg at ddefnyddiau heblaw manwerthu, yn unol â Cymru'r Dyfodol.

8.2.3.3 Mae defnyddiau cydnaws, at ddibenion y polisi hwn, yn cynnwys rhai masnachol, hamdden, addysg uwch, llety i ymwelwyr, cyfleusterau diwylliant a chelfyddydau, preswyl, cymunedol a chyfleusterau gwasanaethau cyhoeddus. Trwy ganiatáu defnyddiau cydnaws, bydd hynny o gymorth i sicrhau dichonoldeb a hyfywedd hirdymor canolfannau masnachol a manwerthu, gan sicrhau y byddant yn gweithredu fel lleoedd a mannau ar gyfer cymdeithasu, gweithio, astudio a mwynhau.

8.2.3.4 Caiff yr **hierarchaeth fanwerthu** ei diwygio fel rhan o'r sylfaen o dystiolaeth fanwerthu a fydd yn llywio'r CDLlA Adnau. Isod nodir yr hierarchaeth bresennol a sefydlwyd yn y CDLl a Fabwysiadwyd:

Hierarchaeth Manwerthu

Haenau Hierarchaeth y CDLl	Canolfan
Canolfan Drefol	Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe
Canolfan Ddosbarth	Sgiwen, Llansawel, Taibach a Glyn-nedd
Canolfan Leol	Gwaun Cae Gurwen, Ystalyfera, y Creunant, Resolfen, Croeserw, Heol Jiwbili (Cwmafan), Fairwood Drive / Lodge Drive (Baglan), Heol Pentwyn (Baglan), Fairway (Sandfields) a Margam

8.2.3.5 Yn unol â Pholisi Cenedlaethol, dylid cyfeirio **cyfleusterau manwerthu newydd** i'r canolfannau trefol, dosbarth a lleol. Bydd cynigion datblygu mewn Canolfannau Masnachol a Manwerthu yn cymhwyso egwyddorion Creu Lleoedd ar Waith ym Mholisi PS5, gan sicrhau bod Canolfannau'n ddeniadol, yn ddiogel ac yn groesawgar. Rhaid i'r cynlluniau fod yn gymesur o ran graddfa, natur, maint a chymeriad, gan gymryd i ystyriaeth egwyddorion creu lleoedd. Ymhellach, byddan nhw'n hygyrch i bawb ac yn rhoi blaenoriaeth i drafnidiaeth gynaliadwy; byddant hefyd yn cael eu gwasanaethu'n dda gan seilwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

8.2.3.6 Bydd angen i geisiadau am **ddatblygiadau manwerthu y tu allan i ganolfannau trefol, dosbarth neu leol dynodedig** sicrhau eu bod yn dilyn Polisi Cenedlaethol wrth gymhwyso'r asesiad o angen, yn ogystal â phrawf dilyniannol. Ymhellach, dylai pob cais cynllunio manwerthu neu ddyraniad safle sy'n 2,500msg neu fwy o arwynebedd llawr gros, a gynigir ar gyrion neu'r tu allan i ganolfannau masnachol a manwerthu dynodedig, gael eu cefnogi gan **asesiad effaith manwerthu** er mwyn sicrhau na fydd y cynnig yn effeithio ar hyfywedd na dichonoldeb canolfan.

8.2.3.7 Wrth ystyried cynigion ar gyfer manwerthu cyfleuster a chymharol ychwanegol bydd y Cyngor yn ystyried sut mae'r cynigion yn cyfrannu at amcanion polisi cenedlaethol "Canol Trefi'n Gyntaf", sef cefnogi canolfannau aml-swyddogaeth amrywiol sy'n cyflawni mwy na rôl draddodiadol canolfannau siopa trefi, gan ehangu eu rôl fel lleoedd sy'n cynnig mynediad at ystod o gyfleoedd siopa, masnachol a hamdden, yn ogystal â bod yn lleoedd ar gyfer cyflogaeth, hunaniaeth ddinesig a rhyngweithio cymdeithasol.

8.2.3.8 Bydd **siopau bach lleol** sy'n helpu i ddarparu cyfleuster siopa o ddydd i ddydd i gymunedau lleol mewn aneddiadau nad ydynt yn rhan o ganolfannau trefol, dosbarth neu leol sydd eisoes yn bodoli yn derbyn sylw fel rhan o Bolisi PS5 Creu Lleoedd ar Waith, ac yn cael eu dosbarthu fel 'Cyfleusterau cymunedol'.

8.2.3.9 Bydd y berthynas rhwng y **parciau manwerthu sydd eisoes yn bodoli y tu allan i drefi** a'r ardaloedd o amgylch, gan gynnwys yr effaith ar Ganolfannau Trefol, Dosbarth a Lleol, yn cael ei hasesu trwy'r Astudiaeth Manwerthu.

8.3 Lleoedd Cynhyrchiol, Mentrus

8.3.1 PS10 Twristiaeth

PS10 Twristiaeth

Gall twristiaeth fod yn gatalydd ar gyfer adfywio, a bydd cynigion datblygu sy'n ymwneud â'r economi ymwelwyr yn cael eu cefnogi trwy'r canlynol:

1. Annog datblygiad twristiaeth gynaliadwy o safon uchel sy'n cyfrannu at amrywiaeth ac ansawdd llety ac atyniadau; Cefnogi cyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o ddatblygiadau twristiaeth nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig, na threftadaeth diwylliannol a ieithyddol;

2. Cefnogi datblygiadau sydd mewn lleoliad priodol mewn perthynas â'u defnydd arfaethedig o ran twristiaeth; a

3. Gwrthsefyll cynigion a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth.

Amcan y CDLlA: NO10

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.3.1.1 Mae twristiaeth yn Castell-nedd Port Talbot yn ddiwydiant sy'n tyfu, ac sy'n gwneud cyfraniad dilys, hanfodol i'r economi, gan gefnogi arallgyfeirio gwledig. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r awdurdod wedi gweld cryn fuddsoddi yn y diwydiant hwn, a fydd yn cryfhau'r seilwaith twristiaeth ac yn cynyddu ac yn gwella'r cyfleusterau sy'n cael eu cynnig i drigolion lleol ac ymwelwyr. O ganlyniad, bydd cynigion twristiaeth yn cael eu defnyddio yn ystod cyfnod y Cynllun i ddarparu cyfleoedd i'r Cymoedd.

8.3.1.2 Ffocws ar gyfer y dyfodol yw annog **twristiaeth gynaliadwy o safon uchel**. Bydd y cyngor yn annog datblygu ystod o gyfleusterau twristiaeth. Bydd gofyn bod datblygiadau twristiaeth yn dangos eu bod wedi'u **lleoli mewn man priodol** o ran eu defnydd arfaethedig a dangos nad ydynt yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig, na threftadaeth ieithyddol a diwylliannol.

8.3.1.3 Bydd cynigion a fyddai'n arwain at **golli cyfleusterau twristiaeth** yn cael eu gwrthsefyll oni bai bod tystiolaeth yn cael ei darparu sy'n dangos nad ydynt bellach yn ddichonadwy ac nad oes potensial i ailddefnyddio'r cyfleusterau at ddibenion twristiaeth.

8.3.2 PS11 Adferiad Economaidd

PS11 Adferiad Economaidd

Cefnogir adferiad economaidd trwy wneud y canlynol:

1. **Dyrannu 57 Hectar (ha) o dir cyflogaeth;**
2. **Diogelu ardaloedd cyflogaeth sydd eisoes yn bodoli;**
3. **Gwrthsefyll colli defnyddiau cyflogaeth o fewn a'r tu allan i'r ardaloedd dynodedig;**
4. **Meithrin datblygiad cyfleoedd economaidd allweddol, gan gynnwys y Porthladd Rhydd Celtaidd;**
5. **Hwyluso cyfleoedd newydd sy'n codi o ddatgarboneiddio diwydiannol, gan gynnwys twf yn yr economi werdd;**
6. **Cofleidio cyfleoedd adfywio gwledig, ac ymdrin yn hyblyg â chyfleoedd cyflogaeth yn y Cymoedd; a**
7. **Chefnogi cyfleoedd cyflogaeth a chyfleusterau sy'n cyd-fynd â nhw, gan gynnwys hybiau hyfforddiant a gweithio.**

Amcanion y CDLlA: NO4, NO9; NO10

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.3.2.1 Mae Castell-nedd Port Talbot mewn lleoliad economaidd strategol allweddol a gwelwyd twf economaidd sylweddol yno ers 2001, gyda chyfartaledd o 633-667 o swyddi yn cael eu creu bob blwyddyn, yn ôl set data diweddaraf yr ONS. Mae'r Fwrdeistref Sirol yn rhan o Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli, a nodwyd yn Cymru'r Dyfodol, ac mae'n rhan o Fargen Ranbarthol Bae Abertawe. Mae'r M4 yn rhedeg trwy'r Fwrdeistref Sirol o'r dwyrain i'r gorllewin, ac yna'n cwrdd â Ffordd Blaenau'r Cymoedd, yr A465, sy'n darparu mynediad strategol i Orllewin Canolbarth Lloegr. Mae'r Fwrdeistref Sirol yn elwa o'r lein reilffordd sy'n cysylltu Llundain a Gorllewin Cymru, ac mae ganddi un o'r tri phorthladd dŵr dwfn yn y Deyrnas Unedig.

8.3.2.2 Yn wahanol i Awdurdodau eraill yn y Deyrnas Unedig, mae gweithgynhyrchu'n parhau i gyflawni rôl allweddol, sy'n cyfrif am ryw 20% o'r allbwn economaidd, o gymharu â 15% yng Nghymru a 9% yn y Deyrnas Unedig. Mae hynny'n rhannol o ganlyniad i'r gwaith dur ym Mhort Talbot a'r gadwyn gyflenwi gysylltiedig. Mae ailstrwythuro economaidd sylweddol yn digwydd ar hyn o bryd yn dilyn y cyhoeddiad gan Tata Steel ym mis Medi 2023 eu bod am osod ffwrnais arc drydan ym Mhort Talbot yn lle'r ddwy ffwrnais chwyth bresennol. Er mwyn llywio sylfaen y CDLlA o dystiolaeth, ochr yn ochr â Chyngor Abertawe, comisiynodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Turleys, Edge ac SQW i gynnal Asesiad Twf Economaidd a Thai.

8.3.2.3 Mae'r Polisi Strategol hwn yn ceisio cefnogi adferiad economaidd trwy **ddyrannu 57ha o dir cyflogaeth** (y nodwyd bod angen amdano yn yr Asesiad Twf Economaidd a Thai), **diogelu ardaloedd cyflogaeth sydd eisoes yn bodoli** sy'n darparu ystod o gyfleusterau cyflogaeth mewn cymunedau lleol a **gwrthsefyll colli defnyddiau cyflogaeth o fewn a'r tu allan i'r ardaloedd dynodedig** er mwyn sicrhau bod digon o dir ar gael ar gyfer datblygiadau newydd (gan gynnwys cyfleoedd cysylltiedig â Thwf Gwyrdd) ac ehangu busnesau sydd eisoes yn bodoli. Cyflwynir dyraniadau cyflogaeth penodol yn y Cynllun Adnau a pharatoir polisïau rheoli datblygu manwl er mwyn diogelu ardaloedd cyflogaeth presennol a defnyddiau cyflogaeth y tu allan i'r ardaloedd dynodedig.

8.3.2.4 Mae'r Polisi Strategol hefyd yn ceisio adeiladu ar ddynodiad y **Porthladd Rhydd Celtaidd** gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2023 er mwyn creu 'coridor buddsoddi ac arloesi gwyrdd' gyda chyfleoedd allweddol sy'n cynnwys ynni gwynt yn arnofio oddi ar y lan, hydrogen, cipio a storio carbon a thanwydd arloesol ar safleoedd ym mhorthladdoedd Aberdaugleddau a Phort Talbot ac o'u hamgylch. Nodwyd **Safleoedd Allweddol Posibl** yn yr Ardal Dwf Genedlaethol er mwyn adeiladu ar ddynodiad y Porthladd Rhydd, cefnogi adferiad economaidd, a darparu cyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd.

8.3.2.5 O fewn y **Cymoedd**, i fwyafu cyfleoedd cyflogaeth, bydd cyfleoedd adfywio gwledig yn cael eu croesawu fel catalydd ar gyfer datblygiadau newydd. Nodwyd safleoedd allweddol posibl fel GCRE a Wildfox a mabwysiadir agwedd hyblyg er mwyn gwella cyfleoedd cyflogaeth.

8.3.2.6 Ar draws yr Awdurdod, gan gydnabod yr ailstrwythuro economaidd sylweddol sy'n digwydd, bydd polisïau cyflogaeth y Cyngor yn ceisio meithrin cyfleoedd economaidd a chefnogi adferiad. Bydd y Cyngor yn ceisio galluogi datblygiad cyfleusterau ategol megis **hybiau hyfforddiant a gwaith** er mwyn darparu cyfleoedd i gael hyfforddiant ac addasu sgiliau.

8.3.3 PS12 Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

PS12 Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

Bydd cyfleoedd ar gyfer datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a seilwaith cysylltiedig yn cael eu cefnogi lle bo hynny'n briodol. Cyflawnir hynny drwy'r canlynol:

1. Gwneud cyfraniad cymesur at gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy cenedlaethol a thargedau effeithlonrwydd ynni;

2. Pennu targedau cynhyrchu ynni adnewyddadwy, polisïau seiliedig ar feini prawf, ardaloedd chwilio lleol a/neu ddyraniadau ar gyfer y Fwrdeistref Sirol;

3. Hyrwyddo optimeiddio opsiynau cyflenwi a dosbarthu ynni adnewyddadwy a charbon isel ar gyfer cymunedau lleol;

4. Sicrhau na fydd datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar amgylchedd ac amwynder trigolion lleol, a'i fod yn cymryd i ystyriaeth unrhyw effeithiau cronnol.

Amcanion y CDLlA: NO9 and NO11

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.3.3.1 O ganlyniad i bryder cynyddol ynghylch cynhyrchu nwyon tŷ gwydr a goblygiadau hynny o ran y newid yn yr hinsawdd, ynghyd ag argaeledd adnoddau ynni, mae cynhyrchu ynni o adnoddau adnewyddadwy a'r angen am wneud defnydd effeithlon o ynni wedi dod yn fwyfwy pwysig. Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, felly, nod y strategaeth yw gwneud cyfraniad cymesur i gyrraedd **targedau ynni adnewyddadwy cenedlaethol a thargedau effeithlonrwydd ynni** Cymru. Er mwyn lleihau'r angen cyffredinol am gynhyrchu trydan; bydd arbed ynni a mesurau effeithlonrwydd yn cael eu hannog ym mhob datblygiad newydd.

8.3.3.2 Yn unol â'r gofynion a nodwyd yn PCC, bydd y Cynllun Adnau yn cynnwys **targedau ar gyfer Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy (YA)**. Paratowyd **Asesiad Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel Interim** sy'n asesu'r cyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar draws y Sir, gan gymryd i ystyriaeth ffactorau cynhyrchu ynni fel cyflymder y gwynt, cyfyngiadau, a chyfleoedd datblygu newydd (safleoedd ymgeisiol a chapasiti trefol). Hefyd aed ati i **fapio cyfleoedd o ran Asesu Ynni Adnewyddadwy Integredig mewn Adeiladau a Rhwydweithiau Gwres**.

8.3.3.3 Gwneir gwaith asesu pellach i lywio gosod y targedau YA a darparu tystiolaeth ynghylch a fydd **ardaloedd chwilio lleol neu ddyraniadau ynni adnewyddadwy** yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Adnau, gan gymryd i ystyriaeth dargedau cenedlaethol a pholisïau perthnasol sy'n rhan o Cymru'r Dyfodol, gan gynnwys **Ardaloedd a ragaseswyd fel ardaloedd blaenoriaeth Gwynt a Gwres**.

8.3.3.4 Gall datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel gynnwys cynlluniau fel Ffermydd Gwynt ar y lan, Ynni o Wastraff (EfW), Cyfuno Gwres a Phŵer (CHP), Biomas, Hydro-bŵer a thechnolegau Solar. Gall y seilwaith cysylltiedig gynnwys cynigion ar gyfer is-orsafoedd a systemau storio ynni batrïoedd (BESS). Er yr anogir datblygiadau mewn egwyddor, oherwydd y potensial sylweddol i ddatblygu ffermydd gwynt yng Nghastell-nedd Port Talbot, nod y Cynllun yw cadw rheolaeth ar ecsbloetio ynni adnewyddadwy, ochr yn ochr â chyflawni cydbwysedd derbyniol, cynaliadwy ag **amddiffyn yr amgylchedd ac amwynder cymunedau lleol**. Bydd y Cynllun Adnau yn cynnwys **polisïau clir seiliedig ar feini prawf** a ddefnyddir i asesu pob cynnig yn y dyfodol.

8.3.3.5 Cefnogir cynigion i **ddatblygu rhwydweithiau ynni lleol newydd ac ehangu rhai sydd eisoes yn bodoli**, yn enwedig lle maent yn defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy ar y safle neu a gynhyrchir yn lleol. Bydd disgwyl i ddatblygiadau archwilio cyfleoedd i gael cyflenwad ynni o ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel, a dylid defnyddio ynni sy'n deillio o danwydd ffosil dim ond pan fo popeth arall wedi methu. Bydd hynny'n helpu i wella'r rhwydweithiau dosbarthu ynni sydd eisoes yn bodoli a chrynhoi buddsoddiadau seilwaith ynni newydd yn y mannau lle mae'r angen mwyaf amdanynt i sicrhau manteision ehangach i'r gymuned.

8.3.3.6 Bydd **effeithiau cronnol a niweidiol datblygiadau ynni** a'u seilwaith cysylltiedig ar gymunedau o'u hamgylch a'r amgylchedd yn cael eu hystyried yn unol â PCC. Yn achos datblygiadau Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA), fe'u hasesir fel rhan o feini prawf atodlen 2 ac 1 EIA. Bydd hynny hefyd yn berthnasol i geisiadau ailgomisiynu. Gall **effeithiau amgylcheddol ac amwynder** gyfeirio at amrywiaeth o ystyriaethau, gan gynnwys natur, bioamrywiaeth, tirwedd, mawn, priffyrdd, amgylchedd hanesyddol, llygredd sŵn ac aer a materion cysylltiad â'r grid.

8.3.4 PS13 Mwynau

PS13 Mwynau

Cyflawnir cyfraniad cymesur at ymateb i'r galw cenedlaethol, rhanbarthol a lleol am gyflenwad parhaus o fwynau trwy wneud y canlynol:

1. **Cynnal cyflenwad priodol o agregau ar hyd cyfnod y Cynllun;**
2. **Diogelu adnoddau cerrig caled a thywod a gro mân a nodwyd;**
3. **Cyfyngu cymaint â phosibl ar y gwrthdaro rhwng defnyddiau tir sensitif a gweithrediadau mwynau trwy nodi parthau clustogi o amgylch safleoedd mwynau;**
4. **Hybu defnydd effeithlon o agregau ac annog cymaint o ddefnydd â phosibl o ddeunyddiau amgen cyn troi at agregau crai;**
5. **Sicrhau na fydd datblygiadau mwynau yn cael effaith annerbyniol ar yr amgylchedd ac amwynder trigolion lleol.**

Amcan y CDLlA: NO12

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.3.4.1 Mae mwynau yn adnodd naturiol, terfynedig, ac yn hanfodol i sicrhau ffyniant y genedl a'i hansawdd bywyd. Tywod, gro mân a cherrig mâl sy'n rhoi i'r diwydiant adeiladu y deunyddiau crai i godi a chynnal seilwaith adeiladau, trafnidiaeth a phethau eraill.

8.3.4.2 Yn unol â pholisi a chanllawiau cenedlaethol a rhanbarthol, nod y strategaeth yw cadw rheolaeth ar ecsbloetio adnoddau mwynau er mwyn gwneud cyfraniad cymesur at y galw cenedlaethol, rhanbarthol a lleol am fwynau, ochr yn ochr â sicrhau cydbwysedd derbyniol, cynaliadwy ag amddiffyn yr amgylchedd a chymunedau lleol.

8.3.4.3 O ran cynnal **cyflenwad o gerrig mâl** ar hyd cyfnod y Cynllun, cyflawnir hynny trwy'r ddwy chwarel bresennol yn y Gilfach (Castell-nedd) a Chwm Nant Lleici (Pontardawe). Nodwyd chwarel bresennol arall, y Gwrhyd Uchaf, am ei chyflenwad o gerrig PSV Uchel yn ystod cyfnod y cynllun.

8.3.4.4 Ar hyn o bryd, mae **cyfanswm ffigur cronfa tir** Castell-nedd Port Talbot yn fwy na digon i fodloni gofynion yr Awdurdod ei hun yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh). Bydd Castell-nedd Port Talbot yn ceisio cynnal ei chyfran hithau o'r dyraniadau rhanbarthol, fel y cytunwyd yn y DTRh.

8.3.4.5 Mae **defnydd effeithlon o agregau** yn cael ei hybu, a lle bo'n berthnasol, anogir cymaint o ddefnydd â phosibl o ddeunyddiau amgen o ffynonellau masnachol a dymchwel, yn hytrach nag echdynnu agregau crai. Caiff adnoddau mwynau eu diogelu hefyd rhag mathau eraill o ddatblygiad parhaol a fyddai naill ai'n eu sterileiddio neu'n llesteirio echdynnu.

8.3.4.6 Dim ond lle maent yn digwydd y gellir gweithio mwynau, ac mae'r ffaith honno'n aml yn arwain at wrthdaro â defnyddiau tir eraill ac ystyriaethau amgylcheddol. O ran cydbwyso ecsbloetio mwynau â'r angen am amddiffyn yr amgylchedd ac amwynder trigolion lleol, bydd y Cynllun Adnau yn nodi **parthau Clustogi** ar y Map o'r Cynigion er mwyn sefydlu pellter gwahanu rhwng defnyddiau tir a allai wrthdaro.

8.3.4.7 Er mwyn hybu defnydd effeithlon o adnoddau mwynau a lleiafu gwastraff, yn unol â PCC, bydd disgwyl i gynigion datblygu gael eu cefnogi gan gynllun ar gyfer rheoli deunyddiau naturiol.

8.3.4.8 Bydd **effeithiau** cynnig datblygu **ar yr amgylchedd ac amwynder yn cael eu hystyried**. Bydd gofyn darparu asesiadau o faterion cysylltiedig â datblygiadau mwynau megis sŵn, llwch, dirgryniad, sefydlogrwydd tir, symudiadau trafnidiaeth, yr effaith ar y dirwedd, asedau ac adnoddau naturiol a hanesyddol.

8.3.4.9 O ran **Mwynau Ynni**, mae targedau newid yn yr hinsawdd a symudiad i ffwrdd oddi wrth ddefnyddio tanwydd ffosil yn golygu nad yw glo, nac echdynnu olew a nwy ar y lan, gan gynnwys ffracio, yn cael eu cefnogi yng Nghymru. Ceir canllawiau pellach ar ddelio â cheisiadau cynllunio cysylltiedig â Mwynau Ynni yn adran 5.10 o PCC.

8.3.4.10 Eithriad i hyn yw pwll Aberpergwm, sef yr unig safle glo gweithredol sy'n parhau ar waith yn Castell-nedd Port Talbot. Mae sawl safle glo arall sy'n segur ac sydd naill ai wedi cael eu hadfer neu yn y broses o gael eu hadfer.

8.3.5 PS14 Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy

PS14 Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy

Hwylusir rheoli gwastraff yn gynaliadwy trwy wneud y canlynol:

1. Hyrwyddo a chefnogi cyfleusterau, mesurau a strategaethau ychwanegol ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy, yn unol â'r hierarchaeth wastraff ac egwyddorion y gosodiad agosaf priodol a hunan-ddigonolrwydd.

2. Cefnogi'r economi gylchol trwy annog cynhyrchu cyn lleied â phosibl o wastraff a defnydd deunyddiau eildro ac

3. Sicrhau bod darpariaeth ym mhob datblygiad newydd ar gyfer rheoli, didoli, storio a chasglu gwastraff yn gynaliadwy.

Amcan y CDLlA: NO12

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.3.5.1 Mae rheoli gwastraff wedi newid yn sylweddol yn ystod y degawdau diwethaf, gyda gostyngiad mawr yn swm y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi i'w waredu, a chynnydd mewn ailgylchu.

8.3.5.2 Yn unol â'r strategaeth wastraff genedlaethol 'Tuag at Wastraff Sero', bydd y Cyngor yn ystyried cynigion yn unol â'r **hierarchaeth wastraff**, sy'n rhoi opsiynau atal a rheoli gwastraff yn eu trefn ar sail beth sydd orau i'r amgylchedd. Y flaenoriaeth uchaf yn yr hierarchaeth yw atal gwastraff. Yn dilyn hynny, os caiff gwastraff ei greu, dylid rhoi blaenoriaeth yn gyntaf i'w baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, yna ailgylchu, yna adennill mewn modd arall (e.e. ynni), ac yn olaf oll gwaredu (e.e. tirlenwi neu losgi heb adennill ynni).

8.3.5.3 Fel y nodwyd yn PCC, bydd **cysyniad y 'Gosodiad Agosaf Priodol' ac egwyddor hunan-ddigonolrwydd** yn berthnasol i wastraff sy'n cael ei gwmpasu gan Erthygl 16 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yn unig. Mae'r dull gweithredu hwn yn gofyn bod gwastraff yn cael ei waredu neu ei adennill mewn cyfleusterau priodol, yn agos at y man mae'n deillio ohono, er mwyn lleihau'r effeithiau amgylchedd niweidiol sy'n gysylltiedig â chludo gwastraff. Mae darparu **rhwydwaith integredig a digonol o gyfleusterau rheoli gwastraff** ar draws yr awdurdod a'r rhanbarth ehangach yn hanfodol ar gyfer hyn, ac ar gyfer sicrhau hunan-ddigonolrwydd. Gallai hynny gynnwys darparu safleoedd amwynder aelwydydd newydd, lle darperir tystiolaeth i ddangos nad yw unrhyw safleoedd sydd eisoes yn bodoli bellach yn addas at y diben.

8.3.5.4 Rhaid ystyried yr **economi gylchol** hefyd yng nghyd-destun datblygiadau newydd, sef y nod o barhau i ddefnyddio deunyddiau, cynnyrch a chydrannau cyhyd ag sy'n bosibl. Mae'r dull gweithredu hwn yn hwyluso arbedion cost ac yn cyd-fynd â'r hierarchaeth wastraff trwy ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu deunyddiau.

8.3.5.5 O ran **cyfleusterau rheoli gwastraff mewn datblygiadau**, dylid ymgorffori cyfleusterau a lle digonol ar gyfer casglu, compostio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff yn nyluniad a hefyd, lle bo hynny'n briodol, yng nghynllun unrhyw ddatblygiad, yn ogystal â mesurau atal gwastraff yn y cyfnodau dylunio, adeiladu a dymchwel.

8.3.5.6 Yng nghyswllt capasiti trin gwastraff, bydd y Ganolfan Ynni ac Adennill Deunyddiau (MREC) yn parhau i drin cyfran sylweddol o ddeilliannau gwastraff y Fwrdeistref Sirol.

8.4 Lleoedd Unigryw a Naturiol

Nodweddion Arbennig Lleoedd

8.4.1 PS15 Yr Amgylchedd Hanesyddol

PS15 Yr Amgylchedd Hanesyddol

Bydd yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys trefluniau, adeiladau pwysig ac asedau treftadaeth a'u cyd-destunau yn cael eu cadw a'u gwella trwy'r mesurau canlynol:

1. Sicrhau bod cynigion yn hybu dylunio o safon uchel a chreu lleoedd sy'n parchu cymeriad lleol, diwylliant a nodweddion hanesyddol yr ardal, gan gymryd i ystyriaeth asedau treftadaeth;

2. Diogelu nodweddion sy'n bwysig yn hanesyddol, yn bensaernïol ac yn ddiwylliannol;

3. Nodi'r safleoedd a'r ardaloedd dynodedig canlynol, fel bod modd eu gwarchod, a'u gwella lle bo hynny'n briodol:

- **Asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig (Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol);**
- **Ardaloedd Cadwraeth; a'r**
- **Rhwydwaith camlesi a'i strwythurau.**

Amcan y CDLlA: NO13

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.4.1.1 Mae amgylchedd adeiledig a ffurf trefol Castell-nedd Port Talbot yn amrywiol ac unigryw, gyda nodweddion pwysig yn parhau o'r cyfnod cynhanes, a phob cyfnod wedi hynny, gan gynnwys meini hir a chofebau, claddfeydd, bryngaerau Oes yr Haearn, seilwaith milwrol Rhufeinig ac adeiladau eglwysig a thyddynod canoloesol.

8.4.1.2 Mae tref Castell-nedd wedi cadw cymeriad tref farchnad draddodiadol, tra bod prif gymeriad y rhan fwyaf o drefi a phentrefi'r Fwrdeistref Sirol yn deillio o dreftadaeth ddiwydiannol yr ardal, o weithiau metel a mwyngloddio dechrau'r chwyldro diwydiannol hyd at ddiwydiannau dur a phetro-gemegol graddfa fawr yr 20fed Ganrif. Cydnabyddir treftadaeth hanesyddol yr ardal trwy amrywiaeth o ddynodiadau, a ddiogelir gan mwyaf gan ddeddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol.

8.4.1.3 Mae'r Fwrdeistref Sirol yn gartref i'r Asedau Treftadaeth canlynol:

- 2 Dirlun dynodedig o Ddiddordeb Hanesyddol (Tirluniau Hanesyddol Cofrestredig),
- 6 o Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig,
- 6 Ardal Gadwraeth,
- 96 o Henebion Cofrestredig;
- 399 o Adeiladau Rhestredig;
- 264 o strwythurau Camlas sy'n Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol;
- 4 rhan o'r rhwydwaith camlesi sydd wedi'u diogelu.

8.4.1.4 Yn 2024, mabwysiadodd Castell-nedd Port Talbot Strategaeth Treftadaeth ar gyfer y cyfnod 2024-2039 sy'n pwysleisio pwysigrwydd strategol ein hasedau treftadaeth. Mae'r strategaeth Treftadaeth yn nodi camau gweithredu ar gyfer sicrhau bod ein hamgylchedd

hanesyddol yn cael ei gadw a'i reoli mewn modd cynaliadwy. Ymhlith y prif ardaloedd y canolbwyntir arnynt yn y cynllun gweithredu mae Cwm/Coridor Treftadaeth Castell-nedd, Gwaith Haearn Mynachlog Nedd, Parc y Gnoll, Parc Margan a'r rhwydwaith a strwythurau Camlesi. Mae gan lawer o'r rhain eisoes brosiectau yn gysylltiedig â nhw sydd mewn cyfnodau datblygu neu weithredu, a bydd y CDLlA yn ceisio'u hwyluso a'u cefnogi yn ogystal.

8.4.1.5 **Mewn ardaloedd cadwraeth**, rhoddir sylw i gynigion datblygu yn unol â pholisi a chanllawiau cenedlaethol, sy'n cynnwys mesurau rheoli ychwanegol ar ddymchwel a chlirio coed, fel y nodir yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Bydd y Cyngor yn paratoi arfarniad cymeriad ardal gadwraeth ar gyfer pob ardal gadwraeth, a fydd yn amlinelllu'r elfennau sy'n cyfrannu at gymeriad arbennig neu ddiddordeb hanesyddol yr ardal, ac yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer ei reoli a'i wella yn y dyfodol. Wrth ddelio â cheisiadau, rhoddir ystyriaeth lawn i effeithiau cynigion ar gymeriad yr ardal gadwraeth, fel y nodir yn yr Arfarniad o'r Ardal Gadwraeth berthnasol, gyda'r amcan o sicrhau bod pob cynnig yn cyfateb i'r angen am gadw neu wella cymeriad yr ardal fel y'i nodwyd, sut mae'n edrych a'i chyd-destun.

8.4.1.6 Dros amser, mae rôl a swyddogaeth aneddiadau wedi bod yn newid, wrth i lawer o ddiwydiannau sefydledig gael eu colli, ac o ganlyniad collwyd cymeriad ac adeiladau trawiadol, gan gynnwys siopau, capeli ac eglwysi a fu'n cyflawni rolau pwysig o ran swyddogaethau, yn ogystal ag yn weledol.

8.4.1.7 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Fwrdeistref Sirol wedi denu ystod newydd o gyfleoedd diwydiant a chyflogaeth, gan gynnwys diwydiannau twristiaeth a gwasanaeth, gan arwain at batrymau datblygu newydd, megis ystadau diwydiannol a pharciau busnes, yn arbennig ar hyd coridor yr arfordir. Mae'r amgylchedd naturiol hefyd yn ffynhonnell cyflogaeth bwysig, gyda mwynau a datblygiadau ynni adnewyddadwy megis ffermydd gwynt yn cyflwyno mathau newydd o amgylchedd adeiledig sy'n newid y tirlun.

8.4.1.8 Dylai cynigion datblygu gadw neu wella amgylchedd adeiledig a hanesyddol y Sir, ei hasedau diwylliannol, ei threflun a'i thirlun, a'u cyd-destun, lle bo hynny'n briodol. Bydd disgwyl i gynigion **hybu dylunio o safon uchel sy'n ategu cymeriad lleol ac yn parchu a gwella nodweddion diwylliannol a hanesyddol** ardal y Cynllun.

8.4.1.9 Ochr yn ochr â pharatoi polisïau rheoli datblygu yn y Cynllun Adnau, bydd y rhestr o Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol yn cael ei hadolygu, a diweddarir y CCA.

8.4.2 PS16 Seilwaith Gwyrdd

PS16 Seilwaith Gwyrdd

Bydd gofyn bod cynigion datblygu yn creu, yn diogelu ac yn gwella'r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd, ac yn mwyafu ei ymarferoldeb. Rhaid i gynigion datblygu wneud y canlynol:

1. Ymgorffori ardaloedd seilwaith gwyrdd arwyddocaol sydd eisoes yn bodoli yn nyluniad cyffredinol y datblygiad, gan fanteisio ar gyfleoedd a ddaw yn sgîl asedau presennol a phosibl, gan ddilyn egwyddorion creu lleoedd;

2. Mwyafu'r cysylltedd rhwng asedau seilwaith gwyrdd ac atynt; a

3. Chreu seilwaith gwyrdd newydd a defnyddio atebion seiliedig ar fyd natur lle bynnag y bo modd.

Amcanion y CDLlA: NO3; NO13

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.4.2.1 *Diffinir seilwaith gwyrdd (SG) fel y rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy'n digwydd rhwng lleoedd ac yn eu cysylltu â'i gilydd (PPC 12 6.2.1).* Mae rhwydweithiau o gynefinoedd naturiol a seilwaith gwyrdd yn darparu adnodd ecolegol gwerthfawr. Maent yn gallu cysylltu safleoedd â phwysigrwydd bioamrywiaeth a darparu cerrig camu i rywogaethau fudo, gwasgaru a chyfnewid geneteg o fewn yr amgylchedd ehangach. Rhaid diogelu rhwydweithiau o'r fath rhag datblygu amhriodol a'u gwella i osgoi unrhyw ddarnio neu ynysu ar gynefinoedd naturiol.

8.4.2.2 Yn ogystal â'r manteision bioamrywiaeth ac ecolegol, gall SG gyflawni rôl bwysig yn lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys tywydd eithafol, ochr yn ochr â chynnal bioamrywiaeth a gwneud cyfraniad pwysig i ansawdd yr amgylchedd. Ar yr un pryd, mae'n gallu darparu gwasanaethau seilwaith pwysig, er enghraifft, draenio, lliniaru llifogydd, darparu cysgod a manteision ansawdd aer. Gall mynediad at bob math o fannau gwyrdd helpu i gynnal iechyd corff a meddwl a llesiant trwy gysylltu anheddau, gweithleoedd a chyfleusterau cymunedol, a darparu mannau gwyrdd hygyrch, o safon.

8.4.2.3 Bydd angen nodi **SG arwyddocaol sydd eisoes yn bodoli ar safleoedd datblygu,** ei ddiogelu a'i wella lle bynnag y bo modd, a dylid ymgorffori SG sydd eisoes yn bodoli yn nyluniad safleoedd fel un o ofynion sylfaenol creu lleoedd. Bydd arwyddocâd a swyddogaethau SG yn amrywio'n fawr, a bydd angen gwneud penderfyniadau gan gymryd i ystyriaeth faint, cyd-destun, cymeriad a nodweddion y safle a'r datblygiad arfaethedig.

8.4.2.4 Dylai dyluniad datblygiadau hefyd geisio **cynnal a gwella cysylltiadau a dilyniant rhwng ardaloedd SG** a **chreu SG newydd** er ei fwyn ei hun, er iechyd a llesiant defnyddwyr a phreswylwyr ac er mwyn **darparu gwasanaethau** a chyfleusterau **seiliedig ar fyd natur** i bobl. Gall gwella llwybrau cerdded a beicio (gan gynnwys y Map o'r Rhwydwaith Teithio Llesol (ATNM) a Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PROW)) helpu i wella cysylltedd â'n mannau gwyrdd trwy greu llwybrau hygyrch, diogel a chynaliadwy sy'n annog pobl i ymgysylltu â byd natur, ond gan leihau'r effeithiau amgylcheddol. Gall gwelliannau o'r fath gyfrannu at leihau anghydbwysedd sosio-economaidd, fel bod mwy o gymunedau'n gallu elwa o fyd natur a gweithgareddau hamdden awyr agored.

8.4.2.5 Mae **Asesiad Seilwaith Gwyrdd (ASG)** yn cael ei gynnal, gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i fapio SG arwyddocaol sy'n bodoli ar draws y Fwrdeistref Sirol a nodi cyfleoedd strategol allweddol lle gallai adfer, cynnal, creu a chysylltu nodweddion a swyddogaethau SG gyflawni'r manteision mwyaf sylweddol. Bydd gofyn bod pob datblygiad yn ymdrin â'r angen am SG a'r angen am **gynnal a gwella cysylltedd SG**, ac yn cymryd hynny i ystyriaeth. Bydd yr ASG yn llywio prif gynlluniau safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLlA, fel rhan o greu lleoedd y safleoedd hynny.

8.4.3 PS17 Cefn Gwlad, Tirluniau, a'r Arfordir heb ei Ddatblygu

PS17 Cefn Gwlad, Tirluniau, a'r Arfordir heb ei Ddatblygu

Bydd cefn gwlad a'r arfordir sydd heb ei ddatblygu, gan gynnwys tirluniau, morluniau a geoamrywiaeth, yn cael eu diogelu, a lle bo hynny'n ymarferol, eu gwella trwy'r mesurau canlynol:

1. **Diogelu cefn gwlad agored y tu allan i derfynau aneddiadau trwy reoli datblygu amhriodol a fyddai'n cael effaith niweidiol ar ei gymeriad gwledig, gwerth ecolegol, tirlun, diwylliannol neu amaethyddol, neu adnoddau naturiol;**
2. **Diogelu'r arfordir sydd heb ei ddatblygu a morluniau trwy reoli datblygu amhriodol ar yr arfordir;**
3. **Amddiffyn nodweddion, priodweddau a rhinweddau pwysig tirluniau a morluniau;**
4. **Dynodi a diogelu Ardaloedd Tirlun Arbennig; a**
5. **Nodi a diogelu ardaloedd sydd â phwysigrwydd geoamrywiaeth.**

Amcanion y CDLlA: NO3; NO13

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.4.3.1 Mae cefn gwlad, arfordir a thirluniau Castell-nedd Port Talbot yn amrywiol iawn o ran eu cymeriad, eu ffurf, eu defnydd a'u pwrpas, o rostir ucheldir agored ac ardaloedd coedwigaeth, i ddyffrynnoedd serth, tir amaethyddol tonnog a'r gwastatir arfordirol lle ceir rhesi o dwyni'n gefnlen i draethau tywod helaeth.

8.4.3.2 Mae cefn gwlad yn adnodd deinamig sy'n newid yn barhaus ac yn darparu ystod eang o fuddion, megis cyfleoedd i gynnal a gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn gofyn ei fod yn cael ei gadw er ei fwyn ei hun, a'i wella, lle bo modd, er mwyn diogelu'r nodweddion a'r rhinweddau pwysig hyn.

8.4.3.3 Ar yr un pryd, rhaid cydbwyso'r angen am gadw ei nodweddion ag anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden y cymunedau lleol ac ymwelwyr. Nod y Cynllun fydd **gwarchod cefn gwlad** (gan ddefnyddio terfynau aneddiadau a ddiffiniwyd a pholisi manwl) rhag datblygu amhriodol a nodi'r nodweddion, y priodweddau a'r rhinweddau y mae angen amddiffyniad ychwanegol arnyn nhw.

8.4.3.4 Nodir elfennau trawiadol o'r tirlun ac ardaloedd tirlun pwysig ehangach a'u diogelu trwy **ddynodi Ardaloedd Tirlun Arbennig (ATAoedd)**. Bydd yr ATAoedd a nodwyd yn y CDLl presennol yn cael eu hailwerthuso a nodir ardaloedd tirlun ychwanegol gyda nodweddion, priodweddau neu rinweddau y mae angen amddiffyniad ychwanegol arnynt, lle mae cyfiawnhad dros hynny. Nodir **rhannau o'r arfordir sydd wedi parhau heb eu datblygu** a'u gwarchod rhag datblygu amhriodol nad yw'n gwbl angenrheidiol mewn lleoliad arfordirol naturiol sydd heb ei ddatblygu.

8.4.3.5 Caiff **ardaloedd pwysig o ran diddordeb daearegol** a ddynodwyd fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol (SoDdGA) a Safleoedd â Phwysigrwydd Geoamrywiaeth Rhanbarthol (RISG) eu nodi a'u gwarchod fel sy'n briodol.

8.4.4 PS18 Amddiffyn yr Amgylchedd

PS18 Amddiffyn yr Amgylchedd

Caiff ansawdd yr amgylchedd ei ddiogelu a'i wella, a rhoddir sylw i effeithiau niweidiol posibl problemau amgylcheddol presennol neu rai a ragwelir (gan gynnwys dull gweithredu sy'n dileu risgiau) mewn perthynas â'r canlynol:

1. **Ansawdd aer;**
2. **Halogiad tir, ansefydlogrwydd tir a rhywogaethau anfrodorol ymledol;**
3. **Perygl llifogydd ac erydiad arfordirol;**
4. **Goleuo;**
5. **Sainluniau;**
6. **Ansawdd d r; ac**
7. **Argaeledd adnoddau d r.**

Amcan y CDLlA: NO14

Cyfiawnhad Rhesymedig

8.4.4.1 Mae ansawdd yr amgylchedd a'r anghenion naturiol sylfaenol y mae'n darparu ar eu cyfer yn eithriadol bwysig ar gyfer iechyd a llesiant pobl, a gall effeithio ar ansawdd bywyd mewn ffyrdd sylfaenol. Mae etifeddiaeth gweithgareddau'r gorffennol yn yr ardal, yng nghyswllt diwydiant trwm yn bennaf, ynghyd â phwysau diwydiant, trafnidiaeth a datblygu yn y cyfnod presennol, i gyd yn cael effeithiau ar yr amgylchedd, ac mae angen cymryd y rhain ystyriaeth a rhoi sylw iddynt lle bynnag y mae modd.

8.4.4.2 Ystyr **dull gweithredu sy'n dileu risgiau** yw ystyried peryglon naturiol a rhai o wneuthuriad pobl ar yr wyneb ac oddi tano, a sicrhau eu bod yn derbyn sylw fel rhan annatod o ddealltwriaeth well o nodweddion safleoedd a lleoedd. Caiff y dull gweithredu hwn ei fabwysiadu a'i wneud yn rhan ofynnol o gynigion datblygu lle bo hynny'n briodol.

8.4.4.3 Mae **ansawdd aer, halogiad tir a'i sefydlogrwydd ac ansawdd ac argaeledd adnoddau dŵr i** gyd yn gallu effeithio ar gynigion datblygu a theimlo'u heffeithiau, tra gall **rhywogaethau anfrodorol ymledol (INNS)** (e.e. Canclwm Japan) gael effeithiau niweidiol sylweddol nid yn unig ar fioamrywiaeth lleol, ond ar y datblygiad ei hun a'r preswylwyr.

8.4.4.4 Mae **llygredd aer, sŵn a golau** yn aml yn effeithio ar gymunedau mwy difreintiedig, ac felly mae'n codi materion cydraddoldeb a chynwysoldeb. Ni ddylai cynigion datblygu gyfrannu at lygredd ar lefel sy'n niweidiol i'n cymunedau, a dylent geisio helpu i leihau llygredd mewn ardaloedd sydd eisoes yn destun pryder. Yn y cyswllt hwnnw, felly, mae **cydnawsedd defnyddiau cymdogol** yn ystyriaeth allweddol ar gyfer cynigion datblygu.

8.4.4.5 Bydd unrhyw ddatblygiad sy'n cynhyrchu allyriadau a fyddai'n cael effaith niweidiol ar ansawdd aer yn **Ardal Rheoli Ansawdd Aer Taibach/Margam (ARhAA)** yn cael ei gyfeirio i ffwrdd o'r ardal. Ceir manylion pellach ym mholisïau manwl y Cynllun Adnau.

8.4.4.6 Mae **perygl llifogydd ac erydiad arfordirol** yn bryder cynyddol, sy'n cael ei waethygu gan y newid yn yr hinsawdd a datblygiadau amhriodol. Mae dealltwriaeth well yn datblygu o arwyddocâd **llygredd golau** a phwysigrwydd **sainluniau** priodol, a rhoddir mwy o bwyslais ar hynny.

8.4.4.7 Mae llawer o'r materion hyn yn derbyn sylw mewn deddfwriaeth a mesurau rheoli penodol ar wahân, neu bolisi cynllunio cenedlaethol manwl, ond strategaeth y Cynllun yw amddiffyn a gwella ansawdd yr amgylchedd gymaint â phosibl, a phennir darpariaethau manwl priodol yn y Cynllun lle bo gofyn.

Pennod 9
Safleoedd Allweddol



9.1 Safleoedd Allweddol


9.1.1 Nodwyd y safleoedd allweddol posibl canlynol. Bydd y rhain yn gwneud cyfraniad da iawn at amcanion creu lleoedd, maent yn cyd-fynd â gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid, ac yn helpu i gyflawni'r strategaeth ofodol y manylwyd arni yn y Penodau blaenorol. Ceir rhagor o wybodaeth yn y Papur Cefndir ar Safleoedd Allweddol.

9.1.2 Y ffiniau y manylir arnynt isod yw'r ffiniau a gyflwynwyd fel rhan o'r Alwad am Safleoedd Capasiti Trefol/Safleoedd Ymgeisiol. Ni fwriadir dyrannu'r ardaloedd hyn yn eu crynswth ar gyfer datblygu, ac mae cyfyngiadau o fewn yr ardaloedd hyn. Bydd ffiniau'r safleoedd yn cael eu mireinio cyn yr Ymgynghoriad Adnau.

9.1.3 Yn achos pob safle darparwyd gwybodaeth ynghylch y cyfyngiadau a nodwyd, gofynion seilwaith, egwyddorion creu lleoedd sy'n ofynnol ar gyfer datblygu, a mecanweithiau cyflawni posibl. Darparwyd y rhain i helpu i ddatblygu'r safle, ac amlygu'r materion y bydd angen eu datrys cyn y Cynllun Adnau/cyn rhoi caniatâd cynllunio.

9.1.4 Bydd safleoedd eraill, sydd â llai o bwysigrwydd strategol, yn cael eu dyrannu i'w datblygu yng nghyfnod y Cynllun Adnau.

9.2 Coed Hirwaun



- **Arwynebedd y Safle**: 128.1ha
- **Defnydd Presennol/Blaenorol**: Preswyl ac amaethyddol

- **Ffynhonnell**: Safle Ymgeisiol 2022 RLDP/PT/0042, Safle Ymgeisiol 2023 RLDP/PT/2015, a Safle Capasiti Trefol 2023 RLDP/PT/UC024
- **Datblygiad Arfaethedig:** Nifer dangosol o 900 o anheddau (400 o fewn cyfnod y CDLlA) ac ysgol gynradd newydd cyfrwng Cymraeg.

9.2.1 Mae Coed Hirwaun yn anheddiad sydd eisoes yn bodoli yn ne-ddwyrain yn Awdurdod, yn agos at y Gwaith Dur a'r Porthladd Rhydd.

9.2.2 Mae'r anheddiad presennol yn cynnwys rhyw 500 o gartrefi, ysgol, meysydd chwarae a siop gyfleus. Mae arhosfan bws wrth y fynedfa i'r safle, gyda gwasanaethau bob awr i Ben-y-bont ar Ogwr ac Abertawe. Mae llwybrau cerdded a llwybrau beicio i Fargam a Phen-y-bont.

9.2.3 Mae'r anheddiad ryw 1 filltir o'r Pîl, sydd ag ystod eang o gyfleusterau, yn cynnwys meddygfa, fferyllfa, ysgol gynradd, ysgol uwchradd, canolfan hamdden, archfarchnad, gorsafoedd petrol, bwytai, siopau cludfwyd, tafarnau, eglwysi a gorsaf reilffordd gyda gwasanaethau rheolaidd i Ben-y-bont, Abertawe, Caerdydd a Chaerfyrddin.

9.2.4 Cynigir nodi Coed Hirwaun fel safle allweddol posibl yn ardal cynllunio gofodol Port Talbot. Bydd y safle'n helpu i ddarparu cyfleoedd cydleoli ar gyfer cartrefi a swyddi yng nghyswllt y Porthladd Rhydd a'r pontio yng ngwaith Tata.

9.2.5 Bydd datblygu'r safle hefyd yn helpu i wella cynaliadwyedd y gymuned bresennol. Er bod nifer o gyfleusterau yn y datblygiad presennol, a bod gan y safle gysylltiadau da iawn i gerddwyr a beiciau â'r cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli yn y Pîl, bydd datblygu cartrefi ychwanegol yn y lleoliad hwn yn sicrhau'r dwysedd critigol i gynnal darpariaeth ychwanegol manwerthu, cymunedol a chyflogaeth ar raddfa fach, darparu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, a gwella'r cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli â chyfleusterau cyflogaeth, manwerthu a chymunedol ym Margam a'r Pîl.

9.2.6 Bydd angen datblygu'r safle i wella'r gymuned bresennol a chreu ymdeimlad sengl o le.

9.2.7 Bydd angen i'r dull prif gynllun a ddefnyddir i symud ymlaen gyda'r safle roi sylw i'r cyfyngiadau, yr egwyddorion creu lleoedd a'r gofynion seilwaith canlynol:

<u>Cyfyngiadau:</u>

- Mae'r A48 yn rhedeg trwy'r safle, gan wahanu'r rhannau dwyreiniol a gorllewinol.
- Mae'r Brif Biblinell a Pharth Clustogi Perygl y Brif Biblinell yn croesi rhannau gogleddol y lleiniau yn y dwyrain a'r gorllewin.
- Mae dyfrffordd fach i'r gorllewin o'r safle wedi'i chysylltu'n hydrolegol â Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) / Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)
- Cynffig, ryw 950m i ffwrdd. Mae'r safle'n cynnwys rhwydwaith pwysig o wrychoedd, rhywogaethau a warchodir, cynefin A7, coed na ellir eu cyfnewid, a Rhywogaethau a Warchodir yn Ewrop.
- Coetir trwchus i'r dwyrain a'r de-ddwyrain o'r datblygiad preswyl presennol. Mae rhannau o'r llain i'r gorllewin o'r A48 wedi'u dosbarthu'n dir amaethyddol Gradd 2.
- Mae rhan o'r llain i'r dwyrain o'r A48 wedi'i lleoli mewn Ardal Tirlun Arbennig. Mae'r brif afon (Nant Cole) yn croesi'r safle. Mae nifer o ddyfrffyrdd arferol yn rhedeg trwy'r

safle cyfan. Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn nodi rhan fechan ganolog o'r llain ddwyreiniol fel Parth Llifogydd 3 (Afonydd).

Gofynion Seilwaith:

- Darparu Ysgol Gynradd newydd Cyfrwng Cymraeg ar ran orllewinol y safle.
- Mesurau i leihau'r effeithiau ar ffyrdd, diogelwch, gweithrediad neu gapasiti'r rhwydwaith priffyrdd, i'w llywio gan Asesiad Trafnidiaeth.
- Gwelliannau ac estyniadau i lwybrau cerdded a theithio llesol presennol ac arfaethedig, gan gynnwys darparu llwybr newydd/gwell/i gerddwyr/cyfunol ar hyd blaen y safle.
- Mesurau i annog cerddwyr i groesi o ran ddwyreiniol y safle i'r rhan orllewinol, megis croesfannau cerddwyr a mesurau i arafu traffig ar y rhan hon o'r A48.Mynedfa ychwanegol i gerbydau i ran ddwyreiniol y safle.
- Yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad a chanlyniad Asesiad Trafnidiaeth, lôn newydd troi i'r dde ar lôn gerbydau'r A48, i hwyluso mynediad i ran orllewinol y safle, ac o leiaf un pwynt mynediad newydd i'r rhan orllewinol. Llwybr teithio llesol gwell ar hyd yr A48, yn cysylltu'r safle â'r Pîl a Margam. Rhwydwaith ffyrdd mewnol a luniwyd at safon priffyrdd, ac sy'n cydymffurfio â'r Llawlyfr Strydoedd.
- Llwybrau beicio a llwybrau rhannu defnydd i'w hymgorffori ar y safle.
- Unrhyw fesurau angenrheidiol safle-benodol i wella'r seilwaith dŵr a charthffosiaeth, i'w llywio gan Asesiad Modelu Hydrolig.
- Creu Seilwaith Gwyrdd ar draws y safle sy'n cynnal cysylltedd presennol ecosystemau ar draws y safle trwy gadw gwrychoedd a choed. Archwilio'r potensial i greu Rhwydwaith Gwres Dosbarth yn unol â pholisi cenedlaethol.

Egwyddorion Creu Lleoedd:

- Strategaeth i gyfuno'r lleiniau, gwella cynaliadwyedd y datblygiad presennol, a chreu ymdeimlad sengl o le.
- Cyfuniad o fathau a meintiau o dai i gael eu datblygu ar ddwysedd priodol.
- Darparu tai fforddiadwy yn unol â'r targedau sy'n dod i'r amlwg, gyda thai fforddiadwy'n cynnwys cyfuniad addas o fathau a deiliadaeth i ddiwallu anghenion lleol, a chael eu cyflwyno ar draws y datblygiad.
- Darparu lle ar gyfer hamdden yn unol â pholisïau a thargedau pan nodir y rheiny.Mae asesiad risg llifogydd yn ofynnol ac wedi'i ymgorffori yng nghynllun a dyluniad y safle.
- Ymgorffori rhwydwaith o Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) a Seilwaith Gwyrdd ar y safle.
- Mesurau i wella cynaliadwyedd Coed Hirwaun trwy ddarparu cyfleusterau manwerthu, cymunedol a chyflogaeth ategol ar raddfa fach.Mesurau dylunio i sicrhau bod y rhwydwaith gwrychoedd pwysig a choed pwysig yn cael eu cadw.
- Mesurau dylunio i sicrhau bod y Brif Biblinell a Pharth Clustogi Perygl y Brif Biblinell yn cael eu diogelu – mae'r rhain yn croesi rhannau gogleddol lleiniau dwyreiniol a gorllewinol y safle.
- Arolwg cynefin Cyfnod 1 Estynedig, a ddylai gynnwys nodi presenoldeb cynefinoedd a rhywogaethau A7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), safleoedd sy'n bodloni meini prawf Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC), yn ogystal â rhywogaethau

a warchodir. Dylid cynnwys cydbwyso colli/ennill cynefinoedd A7/SINC yn y cynllun. Dylai canlyniadau'r arolwg hwn lywio'r gofyniad am arolygon pellach mwy penodol, megis arolygon adar, ystlumod ac ymlusgiaid.


- Mae angen Asesiad Tirlun a Gweledol er mwyn asesu'r effaith bosibl ar y tirlun, gydag ymateb priodol yn cael ei ymgorffori yng nghynllun a dyluniad y safle.
- Mesurau dylunio i warchod a gwella safon y tirlun (gan gynnwys golygfeydd i'r pellter), gan gymryd i ystyriaeth ddynodiad yr Ardal Tirlun Arbennig, agosrwydd Parc a Gardd Hanesyddol Margam, Tirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Mynydd Margam, ac Adeilad Rhestredig Carreg Filltir Cae Garw.
- Strategaeth i annog newid moddol ymhlith preswylwyr a defnyddwyr y safle yn y dyfodol.

Cyflawni:

- Bydd angen sicrhau amodau a rhwymedigaethau cynllunio i reoli sut cyflawnir y datblygiad.
- Bydd datblygiad y safle yn unol â phrif gynllun cytunedig a gynhyrchwyd gan y cyngor mewn ymgynghoriad â hyrwyddwr y safle cyn y Cynllun Adnau.

9.3 Tir i'r dwyrain o'r Rhos

Tir i'r dwyrain o'r Rhos



- **Arwynebedd y Safle**: 15.7ha
- **Defnydd Presennol/Blaenorol**: Tir amaethyddol
- **Ffynhonnell**: Safleoedd Ymgeisiol 2022 RLDP/P/0027, RLDP/P/0029, a RLDP/P/0030
- **Datblygiad Arfaethedig**: Datblygiad Preswyl Dangosol (400 o gartrefi) ac ysgol gynradd newydd cyfrwng Cymraeg.

9.3.1 Mae'r safle yn ymyl cyfleusterau'r gymuned a'r anheddiad yn y Rhos, sy'n rhan o Hyb Pontardawe yn Ardal Cyfle'r Cymoedd. O ganlyniad, mae'r safle'n rhoi cyfle i ddarparu tai fforddiadwy yn Ardal Cyfle'r Cymoedd.

9.3.2 O fewn y safle mae cyfyngiadau bioamrywiaeth y bydd angen ymchwilio ymhellach iddyn nhw, yn arbennig mewn perthynas â phwyntiau mynediad posibl i'r safle. Bydd angen ymgymryd â hyn cyn y Cynllun Adnau.

9.3.3 Bydd y dull prif gynllun a ddefnyddir i symud ymlaen gyda'r safle yn rhoi sylw i'r cyfyngiadau, yr egwyddorion creu lleoedd a'r gofynion seilwaith canlynol:

Cyfyngiadau:

- Mae Heneb Gofrestredig ar y safle.

- Lleolir y safle ryw 75m o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Frondeg, gyda chysylltiadau posibl rhwng safleoedd. Mae angen arfarniad llawn o'r effeithiau posibl ar SoDdGA Frondeg.
- Mae nifer o ddyfrffyrdd ar y safle.
- Mae'r safle'n cynnwys caeau mawr wedi'u gwahanu gan rwydwaith o wrychoedd.
- Cyfyngir ar y llain ogledd-orllewinol oherwydd rhwydwaith trwchus o goed.
- Mae'r caeau gorllewinol a deheuol yn cynnwys glaswelltir corsiog gyda thwyni morgrug.
- Mae Hawl Tramwy Cyhoeddus yn rhedeg trwy'r safle.

Gofynion Seilwaith:

- Darparu ysgol gynradd newydd.
- Unrhyw fesurau angenrheidiol safle-benodol i wella'r seilwaith dŵr a charthffosiaeth, i'w llywio gan Asesiad Modelu Hydrolig.
- Mesurau i leihau'r effeithiau ar ffyrdd, diogelwch, gweithrediad neu gapasiti'r rhwydwaith priffyrdd, i'w llywio gan Asesiad Trafnidiaeth.
- Bydd angen dau bwynt mynediad. Mae arfarniad bioamrywiaeth cychwynnol yn awgrymu nad oes modd cael mynediad ar y ffordd o Farch Hywel. Dylid archwilio'r posibiliadau o ran mynediad ar y ffordd yn y lleoliad hwn. Petai modd, byddai'n rhaid gwneud gwelliannau oddi ar y safle i Farch Hywel.
- Nodwyd mynediad gyferbyn â chyffordd Lôn Briallu fel rhywbeth a allai fod yn broblematig, a bydd angen rhoi sylw i hyn fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a'r Archwiliad Diogelwch Ffyrdd oherwydd gwrthdaro posibl a chynllun y gyffordd, gyda dau bwynt mynediad yn union gyferbyn â'i gilydd, heb fedru cyflawni'r meini prawf gofod ar gyfer y gyffordd.
- Byddai angen lledu'r mynediad presennol gyferbyn â Lôn Briallu.
- Lledu a darparu llwybrau cerdded newydd/llwybr cerdded a beicio cyfun ar hyd March Hywel.
- Mae angen gwelliannau teithio llesol i gysylltu ag NCN43 o'r Rhos a chysylltu Rhos â Chastell-nedd.
- Ffyrdd beicio a llwybrau defnydd a rennir i gael eu hymgorffori ar y safle.
- Creu rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd ar draws y safle sy'n cynnal cysylltedd presennol ecosystemau trwy'r safle trwy gadw gwrychoedd a choed.

Egwyddorion Creu Lleoedd:

- Cyfuniad o fathau a meintiau o dai i gael eu datblygu ar ddwysedd priodol.
- Darparu tai fforddiadwy yn unol â'r targedau sy'n dod i'r amlwg, gyda thai fforddiadwy'n cynnwys cyfuniad addas o fathau a deiliadaeth i ddiwallu anghenion lleol, a chael eu cyflwyno ar draws y datblygiad.
- Darparu lle ar gyfer hamdden yn unol â pholisïau a thargedau a gaiff eu nodi.
- Mesurau dylunio sy'n sensitif i'r Heneb Gofrestredig sydd ar y safle.
- Ymgorffori rhwydwaith o Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) a Seilwaith Gwyrdd ar y safle. .


- Arolwg cynefinoedd Cyfnod 1 Estynedig, a ddylai gynnwys nodi presenoldeb cynefinoedd a rhywogaethau A7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), safleoedd sy'n bodloni meini prawf Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC), yn ogystal â rhywogaethau a warchodir. Dylid cynnwys cydbwysedd colli/ennill cynefinoedd A7/SINC yn y cynllun. Dylai canlyniadau'r arolwg hwn lywio'r gofyn am arolygon pellach mwy penodol, megis arolygon adar, ystlumod ac ymlusgiaid.
- Mesurau dylunio i ddiogelu, a lle bo modd i wella, mynediad at yr Hawl Tramwy Cyhoeddus sy'n mynd trwy'r safle a'r Hawl Tramwy Cyhoeddus yn ymyl y safle.
- Mesurau dylunio i fod yn sensitif i'r llety preswyl presennol, cefn gwlad a chyfleusterau chwaraeon cymunedol.
- Strategaeth i annog newid moddol ymhlith preswylwyr a defnyddwyr y safle yn y dyfodol.

Cyflawni:

- Bydd angen amodau a rhwymedigaethau cynllunio i reoli cyflwyno'r datblygiad.
- Bydd datblygiad y safle yn unol â phrif gynllun cytunedig a gynhyrchir gan y Cyngor mewn ymgynghoriad â hyrwyddwr y safle cyn y Cynllun Adnau.

9.4 Tir yn ymyl Blaenbaglan

Tir yn ymyl Blaenbaglan



- **Arwynebedd y Safle**: 14.5ha
- **Defnydd Presennol/Blaenorol**: Tir amaethyddol
- **Ffynhonnell**: Safle Capasiti Trefol 2023 RLDP/PT/UC0003
- **Datblygiad Arfaethedig**: Preswyl Dangosol – 341 o anheddau, gan gynnwys dyraniad presennol o 141.

9.4.1 Mae'r safle wedi'i leoli'n rhannol o fewn anheddiad Baglan, ac yn ei ymyl.

9.4.2 Mae'r safle'n cynnwys lleoliad presennol y safle yn y CDLl cyfredol ar gyfer 141 o gartrefi.

9.4.3 Mae'r CDLl cyfredol hefyd yn cynnwys dyraniad i'r de o'r safle hwn (Tir ar Fferm Blaenbaglan) sydd â chaniatâd cynllunio llawn yn ei le ar gyfer 219 o gartrefi, yn dyddio nôl i 1992 (92/8571). Ni fernir bod hyn yn gyflawnadwy bellach. O ganlyniad, ni fwriedir cario'r dyraniad hwn ymlaen.

9.4.4 Bydd y dull prif gynllun a ddefnyddir i symud y safle ymlaen yn rhoi sylw i'r cyfyngiadau, yr egwyddorion creu lleoedd a'r gofynion seilwaith canlynol:

Cyfyngiadau

- Dyfrffordd fechan trwy ganol y safle.
- Dau gae yn cynnwys glaswelltir wedi'i led-wella, gyda gwrychoedd a choetir hynafol o amgylch. Mae'r ardaloedd lle mae cyfyngiadau bioamrywiaeth yn cynnwys coetir, gwrychoedd, dyfrffordd, cynefin A7, cysylltedd.
- Dyfrffordd sy'n Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC)
- Hawl Tramwy Cyhoeddus i'r gogledd a'r de o'r safle.
- Ffermdy Blaenbaglan, Adeilad Rhestredig yn rhan ddeheuol y safle.
- Twmpath Craig Isaf, Heneb Gofrestredig yn rhan ogleddol y safle.

Gofynion Seilwaith:

- Unrhyw fesurau angenrheidiol safle-benodol i wella seilwaith dŵr a charthffosiaeth, i'w llywio gan Asesiad Modelu Hydrolig.
- Bydd mesurau i leihau effeithiau ar ffyrdd, diogelwch, gweithrediad neu gapasiti'r rhwydwaith priffyrdd yn cael eu llywio gan Asesiad Trafnidiaeth.
- Bydd angen i'r prif bwyntiau mynediad i'r safle estyn ymlaen o'r briffordd ar y Darren Wen a Maes Tŷ Canol.
- Rhwydwaith ffyrdd mewnol a adeiladwyd at safon priffyrdd, gan gydymffurfio â'r Llawlyfr Strydoedd.
- Llwybrau beicio a llwybrau defnydd a rennir i gael eu hymgorffori ar y safle.
- Potensial i archwilio Rhwydwaith Gwres Dosbarth i gael ei archwilio'n unol â pholisi cenedlaethol.
- Creu rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd ar draws y safle sy'n cynnal cysylltedd presennol ecosystemau trwy'r safle trwy gadw gwrychoedd a choed.

Egwyddorion Creu Lleoedd:

- Cyfuniad o fathau a meintiau o dai i gael eu datblygu, gyda dwysedd priodol.
- Darparu tai fforddiadwy yn unol â thargedau sy'n dod i'r amlwg, gyda'r tai ffordiadwy yn cynnwys cyfuniad addas o fathau a deiliadaeth i ymateb i anghenion lleol a chael eu cyflwyno ar draws y datblygiad.
- Darparu lle ar gyfer hamdden yn unol â pholisïau a thargedau a gaiff eu nodi. Ymgorffori rhwydwaith o Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) a Seilwaith Gwyrdd ar y safle.
- Mesurau dylunio i sicrhau bod yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus yng ngogledd a de'r safle yn cael eu diogelu, a lle bo modd gwella mynediad i'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Mesurau dylunio i ddiogelu'r Ddyfrffordd sy'n Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) ar y safle.
- Arolwg cynefinoedd Cyfnod 1 Estynedig, a ddylai gynnwys nodi presenoldeb cynefinoedd a rhywogaethau A7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), safleoedd sy'n bodloni meini prawf Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC), yn ogystal â rhywogaethau a warchodir.


- Dylid cynnwys cydbwysedd colli/ennill cynefinoedd A7/SINC i'r cynllun. Dylai canlyniadau'r arolwg hwn lywio'r gofyn am arolygon pellach mwy penodol, megis arolygon adar, ystlumod ac ymlusgiaid.
- Ymgorffori cynllun a dyluniad sy'n parchu ac yn cyd-fynd â'r tirlun o amgylch, gan gynnwys gwarchod coetir hynafol gerllaw a chyd-destun yr adeilad rhestredig a'r heneb gofrestredig gerllaw.

Cyflawni:

- Bydd angen amodau a rhwymedigaethau cynllunio i reoli cyflwyno'r datblygiad.
- Bydd datblygiad y safle yn unol â phrif gynllun cytunedig a gynhyrchir gan y Cyngor mewn ymgynghoriad â hyrwyddwr y safle cyn y Cynllun Adnau.

9.5 Fferm Fforest

Fferm Fforest



- **Arwynebedd y Safle**: 26.4ha
- **Defnydd Presennol/Blaenorol**: Tir amaethyddol
- **Ffynhonnell**: Safleoedd Ymgeisiol 2022 RLDP/N/0005 a RLDP/N/0006, a Safle Capasiti Trefol 2023 RLDP/N/UC007
- **Datblygiad Arfaethedig**: Preswyl dangosol (250 o gartrefi) a thir ar gyfer ysgol arbennig

9.5.1 Nodwyd y safle fel safle allweddol posibl ar gyfer datblygu tai a darparu ysgol arbennig yn Ardal Ofodol Castell-nedd. Mae'r safle yn ymyl anheddiad presennol Aberdulais a bydd angen ei ddatblygu i greu cysylltiadau â'r anheddiad hwnnw.

9.5.2 Mae Tîm Addysg y Cyngor wedi nodi'r angen am ddatblygu ysgol arbennig. Ar ôl cynnal chwiliad manwl am safleoedd sy'n bodloni eu gofynion maint (20-30ha) gyda mynediad da o'r ffordd, nodwyd y safle hwn fel yr unig opsiwn yn Castell-nedd Port Talbot ar gyfer datblygu ysgol arbennig. Cyn y Cynllun Adnau cynhelir trafodaethau pellach, a datblygir prif gynllun i ymgorffori darpariaeth breswyl ac addysg.

9.5.3 Bydd y dull prif gynllun a ddefnyddir i symud ymlaen gyda'r safle hwn yn rhoi sylw i'r cyfyngiadau, yr egwyddorion creu lleoedd a'r gofynion seilwaith canlynol:

9 Pennod 9 – Safleoedd Allweddol

Cyfyngiadau:

- Tir ffermio gwyrdd yw'r safle'n bennaf. Nodwyd bod cyfyngiadau bioamrywiaeth ar ardaloedd yn y gogledd-ddwyrain a'r de-orllewin. Mae'r rhain yn cynnwys dolydd iseldir, cynefin A7, Dyfrffordd sy'n Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC), coetir, a chynefin na ellir ei gyfnewid.
- Rhwydwaith o wrychoedd a choed sefydledig ar draws y safle.
- Rhwng yr ardal drefol bresennol a'r safle mae coetir trwchus.
- Ceblau uwchben ar draws rhan ganolog/ogleddol y safle.
- Nodwyd rhan o'r safle fel Tir Amaethyddol Dosbarthiad Gradd 3a.
- Dyfrffordd fach trwy ogledd y safle.
- Hawl Tramwy Cyhoeddus i'r gorllewin/de-orllewin o'r safle.

Gofynion Seilwaith:

- Darparu ysgol arbennig newydd (angen 30ha o dir i ddarparu ysgol arbennig newydd).
- Unrhyw fesurau angenrheidiol safle-benodol i wella'r seilwaith dŵr a charthffosiaeth, i'w llywio gan Asesiad Modelu Hydrolig.
- Dylid llunio mynediad i'r safle o'r A4019.
- Mesurau i leihau'r effeithiau ar ffyrdd, diogelwch, gweithrediad neu gapasiti'r rhwydwaith priffyrdd, i'w llywio gan Asesiad Trafnidiaeth.
- Yn dibynnu ar ganlyniad yr Asesiad Trafnidiaeth gallai fod angen gwaith oddi ar y safle megis mesurau arafu traffig posibl ar yr A4109 ac efallai lôn troi i'r dde.
- Rhwydwaith ffyrdd mewnol a adeiladwyd at safon priffyrdd, gan gydymffurfio â'r Llawlyfr Strydoedd.
- Gwelliannau i'r llwybr teithio llesol arfaethedig ar hyd yr A4109.
- Mynediad gwell ar ffurf llwybrau cerdded a beicio i'r anheddiad presennol trwy Gefn yr Allt a'r A4109.
- Llwybrau beicio a llwybrau defnydd a rennir i gael eu hymgorffori ar y safle.
- Creu rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd ar draws y safle sy'n cynnal cysylltedd presennol ecosystemau trwy gadw gwrychoedd a choed.
- Potensial Rhwydwaith Gwres Dosbarth i gael ei archwilio yn unol â pholisi cenedlaethol.

Egwyddorion Creu Lleoedd:

- Cyfuniad o fathau a meintiau o dai i gael eu datblygu ar ddwysedd priodol.
- Darparu tai fforddiadwy yn unol â thargedau sy'n dod i'r amlwg, gyda'r tai fforddiadwy yn cynnwys cyfuniad addas o fathau a deiliadaeth i ymateb i anghenion lleol a chael eu cyflwyno ar draws y datblygiad.
- Darparu lle ar gyfer hamdden yn unol â pholisïau a thargedau a gaiff eu nodi.
- Ymgorffori rhwydwaith o Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) a Seilwaith Gwyrdd ar y safle.
- Ystyriaethau dylunio i wella'r cysylltedd â'r safle a'r anheddiad presennol. Cymryd i ystyriaeth y ceblau uwchben, y ddyfrffordd, sy'n Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC), cyfyngiadau bioamrywiaeth, a sicrhau bod y rhwydwaith

gwrychoedd pwysig a choed pwysig ar draws y safle yn cael eu cadw, a bod y coetir yn ymyl yn cael ei warchod.


- Mesurau dylunio i sicrhau bod Hawliau Tramwy Cyhoeddus i'r gorllewin/de-orllewin o'r safle yn cael eu gwarchod, a lle bo modd gwella mynediad atynt.
- Arolwg cynefinoedd Cyfnod 1 Estynedig, a ddylai gynnwys nodi presenoldeb cynefinoedd a rhywogaethau A7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), safleoedd sy'n bodloni meini prawf Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC), yn ogystal â rhywogaethau a warchodir. Dylid cynnwys cydbwysedd y cynefinoedd A7/SINC a gollir/enillir yn y cynllun. Dylai canlyniadau'r arolwg hwn lywio'r gofyn am arolygon pellach, mwy penodol, megis arolygon adar, ystlumod ac ymlusgiaid.
- Ymgorffori cynllun a dyluniad sy'n parchu ac yn cyd-fynd â'r tirlun o amgylch.

Cyflawni:

- Bydd angen amodau a rhwymedigaethau cynllunio i reoli cyflwyno'r datblygiad.
- Bydd y safle'n cael ei ddatblygu yn unol â phrif gynllun cytunedig a gynhyrchir gan y Cyngor mewn ymgynghoriad â hyrwyddwr y safle cyn y Cynllun Adnau.

9.6 Porthladd Port Talbot

Porthladd Port Talbot



- **Arwynebedd y Safle**: 389.6ha
- **Defnydd Presennol/Blaenorol**: Cyflogaeth a chludiant
- **Ffynhonnell**: Safle Ymgeisiol 2022 RLDP/PT/0048 a Safle Ymgeisiol 2023 RLDP/PT/2009
- **Datblygiad Arfaethedig**: Cyflogaeth, seilwaith cludiant ac ynni adnewyddadwy

9.6.1 Safle tir llwyd a ddatblygwyd yn flaenorol yw'r Porthladd, ac mae'n rhan o'r Ardal Dwf Genedlaethol a nodwyd yn Cymru'r Dyfodol, yn agos at yr M4 a chanol tref Port Talbot. Bydd y safle'n rhan o Borthladd Rhydd dynodedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru. Nodwyd y safle fel safle allweddol posibl i'w ddatblygu er mwyn cydnabod ei rôl genedlaethol, ranbarthol a lleol allweddol amlwg ym maes datblygu ynni gwyrdd ac ynni gwynt sy'n arnofio oddi ar y lan.

9.6.2 Rhagwelir y bydd y safle'n cael ei gyflwyno ar gyfer datblygiad cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy, gyda chyfleusterau ategol i wasanaethu a hwyluso'r defnyddiau hynny.

9.6.3 Er bod y safle'n 389.6ha, mae hynny'n cynnwys rhan o'r môr. Cynigir dyrannu'r safle ar gyfer 30ha o ddefnydd cyflogaeth. Mae hynny'n adlewyrchu natur y gyflogaeth a'r datblygiad ynni adnewyddadwy a gynigir, gan gynnwys y gofynion lle mawr ar gyfer cyfleusterau rhoi llafnau tyrbinau gwynt i orwedd a'u storio.

9.6.4 Paratoir prif gynllun cynhwysfawr fydd yn cymryd i ystyriaeth y cyfyngiadau, y gofynion seilwaith a'r egwyddorion creu lleoedd canlynol:

9 Pennod 9 – Safleoedd Allweddol

Cyfyngiadau:

- Mae nifer o adeiladau rhestredig ar y safle, yn cynnwys Tŷ'r Harbwr gynt, y bont llyfnu platiau, a thŵr gwylio'r harbwr. Mae Adeilad Rhestredig Llys yr Ynadon hefyd yn agos iawn.
- Mae'r safle'n cynnwys bioamrywiaeth cymhleth, gan gynnwys mosaig agored, twyni tywod, traethlin a chynefinoedd morol.
- Mae Canclwm Japan ar draws y safle.
- SINC 0009 Aber Afon Afan Isaf, Dyfrffordd
- Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn nodi bod rhannau o'r safle yn Barth Llifogydd 2 a Pharth Llifogydd 3.

Gofynion Seilwaith:

- Mesurau i leihau'r effeithiau ar ffyrdd, diogelwch, gweithrediad neu gapasiti'r rhwydwaith priffyrdd i gael eu llywio gan Asesiad Trafnidiaeth. Yn dibynnu ar ganlyniad yr Asesiad Trafnidiaeth, mae'n debygol y byddai angen gwelliannau i Gyffyrdd Ffordd Heilbronn.
- Rhwydwaith ffyrdd mewnol wedi'i lunio i safon priffordd, gan gydymffurfio â'r Llawlyfr Strydoedd.
- Gwelliannau ac estyniadau i lwybrau teithio llesol presennol ac arfaethedig.
- Llwybrau beicio a llwybrau defnydd a rennir i gael eu hymgorffori ar y safle.
- Ymgysylltu ag Adran Iechyd Amgylcheddol y Cyngor ynghylch arogleuon posibl allai effeithio ar feddianwyr y datblygiad yn y dyfodol.
- Arolwg halogiad tir a mesurau adfer tir fel sy'n briodol.
- Creu rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd ar draws y safle, sy'n cynnal cysylltedd presennol ecosystemau.

Egwyddorion Creu Lleoedd:

- Bydd y cyfleusterau cludo nwyddau presennol yn cael eu diogelu i gydnabod eu rôl bwysig yn cefnogi'r economi leol ac yn caniatáu nwyddau heblaw am ar y ffyrdd, gan leihau tagfeydd ac allyriadau.
- Bydd angen darparu cyfleusterau ategol i wasanaethu a hwyluso prif ddefnydd cyflogaeth y safle. Bydd angen i'r rhain fod ar raddfa nad yw'n debygol o ddargyfeirio masnach yn sylweddol o'r ardal ehangach (gan gynnwys Canol Tref Port Talbot neu Ganolfan Ardal Commercial Road) na thynnu oddi wrth brif ffocws y safle, sef cyflogaeth a datblygu ynni adnewyddadwy.
- Caiff y safle ei ddylunio i fod yn hwylus i gerddwyr, gan ymgorffori cysylltiadau â chanol y dref a'r gorsafoedd bws a thrên.
- Bydd lle ar gyfer hamdden yn cael ei ddarparu yn unol â pholisïau a thargedau a nodir.
- Bydd y datblygiad yn ymgorffori rhwydwaith o Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) a Seilwaith Gwyrdd ar y safle.
- Asesiad risg llifogydd yn ofynnol, a bydd angen ei ymgorffori yng nghynllun a dyluniad y safle.


- Arolwg cynefinoedd Cyfnod 1 Estynedig, a ddylai gynnwys nodi presenoldeb cynefinoedd a rhywogaethau A7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), safleoedd sy'n bodloni meini prawf Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC), yn ogystal â rhywogaethau a warchodir. Dylid cynnwys cydbwysedd colli/ennill cynefinoedd A7/SINC yn y cynllun. Dylai canlyniadau'r arolwg hwn lywio'r galw am arolygon pellach mwy penodol, megis arolygon adar, ystlumod ac ymlusgiaid.
- Bydd mesurau dylunio'n sensitif i'r adeiladau rhestredig ar y safle a'r rhai sy'n agos at y safle.
- Bydd rhaid i'r mesurau dylunio fod yn sensitif i'r bioamrywiaeth cymhleth ar draws y safle.

<u>Cyflawni:</u>

- Bydd angen amodau a rhwymedigaethau cynllunio i reoli cyflwyno'r datblygiad, defnyddio'r safle ac ystyriaethau priodol oddi ar y safle.
- Bydd prif gynllun manwl yn cael ei baratoi i helpu i gyflawni'r safle a sicrhau datblygiad cynhwysfawr.

9.7 Gwaith Dur Port Talbot

Gwaith Dur Port Talbot



- **Arwynebedd y Safle**: 671.9ha
- **Defnydd Presennol/Blaenorol**: Cyflogaeth
- **Ffynhonnell**: Safle Ymgeisiol 2022 RLDP/PT/0041
- **Datblygiad Arfaethedig**: Cyflogaeth; ynni adnewyddadwy

9.7.1 Yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Medi 2023 ynghylch datgomisiynu'r ddwy ffwrnais chwyth bresennol a gosod ffwrnais arc drydan annibynnol unigol yn eu lle, nodwyd Gwaith Dur Port Talbot fel safle allweddol posibl yn y Strategaeth a Ffefrir i adlewyrchu ei bwysigrwydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol, ac i adlewyrchu'r ailstrwythuro economaidd sylweddol sy'n digwydd.

9.7.2 Rhagwelir y bydd y safle'n cael ei gyflwyno ar gyfer datblygiad cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy gyda chyfleusterau ategol cydweddus i wasanaethu a hwyluso'r defnyddiau hynny.

9.7.3 Dynodwyd y safle yn y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol fel ardal gyflogaeth bresennol. Oddi mewn i'r ardaloedd hynny mae defnyddiau cyflogaeth yn Nosbarthiadau Defnydd B1, B2 a B8, cyfleusterau ategol neu wasanaethau sy'n cefnogi ac yn ategu rôl a swyddogaeth ehangach y prif ddefnydd cyflogaeth, a chefnogir gwasanaethau masnachol nad ydynt yn

gysylltiedig â'r Dosbarth Defnydd B, cyhyd â'u bod yn dangos nad ydynt yn achosi unrhyw effeithiau niweidiol i weithrediad cyffredinol yr ardal gyflogaeth ac eiddo masnachol a phreswyl cymdogol, bod modd cyfiawnhau'r cynnig yn gynaliadwy yn y lleoliad dan sylw, a'i fod yn briodol o ran graddfa a ffurf i rôl a swyddogaeth yr ardal gyflogaeth.

9.7.4 O ystyried hyn, cynigir na ddylid dyrannu'r safle ar gyfer defnyddiau cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy. Yn hytrach, cynigir bod y safle'n parhau'n ardal gyflogaeth ddynodedig.

9.7.5 Bydd angen i geisiadau cynllunio dilynol ar gyfer y safle gymryd i ystyriaeth y cyfyngiadau, y gofynion seilwaith a'r egwyddorion creu lleoedd canlynol:

Cyfyngiadau:

- Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn nodi bod rhan o'r safle yn Barthau Llifogydd 2 a 3.
- Mae cloddiau ar y safle yn darparu cysylltiad hydroleg uniongyrchol â Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Rhosydd Margam, sy'n union yn ymyl y safle. Bydd gofyn cynnal arfarniad llawn o'r effaith bosibl ar SoDdGA Rhosydd Margam.
- Cofnodwyd y Fadfall Fawr Gribog ar y safle.
- Mae gan y safle fioamrywiaeth cymhleth, yn cynnwys mosaig agored, corstir, twyni tywod a chynefinoedd traethlin.
- Dyfrffordd sy'n Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC).
- Mae'r safle'n cynnwys tir a ddatblygwyd yn flaenorol sydd â halogiad tir.
- Nodwyd rhannau o'r safle fel Tir Amaethyddol Dosbarthiad Gradd 2.
- Mae'r safle yn un sefydledig ar gyfer Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH).

Gofynion Seilwaith:

- Mesurau i leihau effeithiau ar ffyrdd, diogelwch, gweithrediad neu gapasiti'r rhwydwaith priffyrdd i gael eu llywio gan Asesiad Trafnidiaeth.
- Rhwydwaith ffyrdd mewnol a godwyd at safon priffyrdd, gan gydymffurfio â'r Llawlyfr Strydoedd.
- Gwelliannau ac estyniadau i lwybrau teithio llesol presennol ac arfaethedig.
- Llwybrau beicio a llwybrau defnydd a rennir i gael eu hymgorffori ar y safle.
- Arolwg halogiad tir a mesurau adfer tir fel sy'n briodol.
- Ymgysylltu ag Adran Iechyd Amgylcheddol y Cyngor ynghylch problemau arogleuon posibl i feddianwyr y datblygiad yn y dyfodol.
- Creu rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd ar draws y safle sy'n cynnal cysylltedd presennol ecosystemau.

Egwyddorion Creu Lleoedd:

- Cymryd i ystyriaeth ganfyddiadau'r asesiad risg llifogydd fel rhan o ddyluniad a chynllun y safle.
- Cymryd i ystyriaeth ganfyddiadau'r Arolwg Tir Amaethyddol.


- Bydd angen sicrhau nad yw'r cyfleusterau ategol ar raddfa sy'n debygol o ddargyfeirio masnach sylweddol o'r ardal ehangach (gan gynnwys Canol Tref Port Talbot na Chanolfan Ardal Commercial Road) na thynnu oddi wrth brif ffocws y safle, sef cyflogaeth a datblygu ynni adnewyddadwy.
- Dylunio er mwyn bod yn hwylus i gerddwyr, gan ymgorffori cysylltiadau â chanol y dref, a'r orsaf bysiau a threnau.
- Bydd lle ar gyfer hamdden yn cael ei ddarparu yn unol â pholisïau a thargedau a nodir.
- Ymgorfforir rhwydwaith o Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) a Seilwaith Gwyrdd ar y safle.
- Bydd gofyn cynnal arolwg cynefinoedd Cyfnod 1 Estynedig, a ddylai gynnwys nodi presenoldeb cynefinoedd a rhywogaethau A7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), safleoedd sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC), yn ogystal â rhywogaethau a warchodir. Dylid cynnwys cydbwysedd colli/ennill cynefinoedd A7/SINC yn y cynllun. Dylai canlyniadau'r arolwg hwn lywio'r gofyn am arolygon pellach mwy penodol, megis arolygon adar, ystlumod ac ymlusgiaid.
- Rhaid i'r mesurau dylunio fod yn sensitif i'r bioamrywiaeth cymhleth ar draws y safle, gan gynnwys SoDdGA Rhosydd Margam, a'r Ddyfrffordd sy'n Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC).

<u>Cyflawni:</u>

- Bydd angen amodau a rhwymedigaethau cynllunio i reoli cyflwyno'r datblygiad, defnydd o'r safle ac ystyriaethau priodol oddi ar y safle.

9.8 Parc Ynni Baglan

Parc Ynni Baglan



- **Arwynebedd y Safle**: 187.8ha
- **Defnydd presennol/blaenorol**:Cyflogaeth gynt
- **Ffynhonnell**: Safle Ymgeisiol 2022 RLDP/PT/0008
- **Datblygiad Arfaethedig**: Cyflogaeth

9.8.1 Wedi i Lywodraeth Cymru gaffael y safle, fe'i nodwyd fel safle allweddol posibl i'w ddatblygu i adlewyrchu ei rôl allweddol fel safle tir llwyd mawr a ddatblygwyd yn flaenorol sy'n rhan o'r Ardal Dwf Genedlaethol a nodwyd yn Cymru'r Dyfodol, yn ymyl yr M4, ac yn agos at y gwaith gwella parhaus i'r A465. Mae'r safle hefyd yn agos at y Porthladd Rhydd.

9.8.2 Rhagwelir y bydd y safle'n cael ei gyflwyno ar gyfer datblygiad cyflogaeth gyda chyfleusterau ategol fydd yn cefnogi trwy wasanaethu a hwyluso'r defnydd yma. O ystyried yr halogiad presennol ar y safle ac ailddatblygu'r safle yn y tymor hir, rhagwelir mai 20ha yn unig o ddatblygiad cyflogaeth a welir yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid.

9.8.3 Serch hynny bydd angen cyflwyno rhan helaeth o'r safle, a bydd prif gynllun cynhwysfawr yn cael ei baratoi, gan gymryd i ystyriaeth y cyfyngiadau, yr egwyddorion creu lleoedd a'r gofynion seilwaith canlynol:

9 Pennod 9 – Safleoedd Allweddol

Cyfyngiadau:

- Mae'r safle yn un mawr, cymhleth sy'n cynnwys cynefinoedd amrywiol mosaig a thwyni tywod.
- Cornchwiglen, infertebratau prin, planhigion a warchodir, planhigion is, cynefin hynod arbenigol.
- Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC 130) Parc Marden Baglan.
- Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC 132) Slac Tir Llwyd Baglan.
- Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC 006) Bae Baglan.
- O ystyried defnydd blaenorol y safle, mae halogiad helaeth ar y safle. Mae tirlenwi hanesyddol ar y safle.
- Nodwyd rhan fechan o dde-orllewin y safle fel arfordir heb ei ddatblygu.
- Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn nodi bod rhannau o'r safle ym Mharthau Llifogydd 2 a 3.
- Mae is-orsaf yn ymyl gogledd y llain sy'n Safle Ymgeisiol (yn yr ardal a dorrwyd allan o'r darn o dir).
- Mae'r brif biblinell a pharth clustogi perygl y brif biblinell yn cwmpasu rhan o ogledd y safle.

Gofynion Seilwaith:

- Mesurau i leihau effeithiau ar ffyrdd, diogelwch, gweithrediad neu gapasiti'r rhwydwaith priffyrdd i gael eu llywio gan Asesiad Trafnidiaeth.
- Rhwydwaith ffyrdd mewnol wedi'i lunio at safon priffyrdd, gan gydymffurfio â'r Llawlyfr Strydoedd.
- Mae nifer o lwybrau teithio llesol presennol a dyfodol yn mynd trwy'r safle. Bydd gofyn gwella ac estyn llwybrau teithio llesol presennol ac arfaethedig. Bydd gofyn creu cysylltiadau hefyd â glan y môr, y Ceiau ac NCN4.
- Llwybrau beicio a llwybrau defnydd a rennir i gael eu hymgorffori ar y safle.
- Arolwg halogiad tir a mesurau adfer tir fel sy'n briodol.
- Creu rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd ar draws y safle, gan gynnal cysylltedd presennol ecosystemau.

Egwyddorion Creu Lleoedd:

- Bydd angen darparu cyfleusterau cydweddus i wasanaethu a hwyluso prif ddefnydd cyflogaeth y safle. Bydd angen i'r rhain fod ar raddfa nad yw'n debygol o ddargyfeirio masnach yn sylweddol o'r ardal ehangach (gan gynnwys Canolfan Ardal Heol Castell-nedd, Canolfan Leol Fairway, a/neu Ganolfan Leol Pentwyn, Canolfan Leol Fairwood Drive/ Lodge Drive) na thynnu oddi wrth brif ffocws y safle ar gyfer datblygu cyflogaeth.
- Bydd asesiad risg llifogydd yn ofynnol ac yn cael ei ymgorffori yng nghynllun a dyluniad y safle.
- Mesurau dylunio i gymryd i ystyriaeth agosrwydd Ysgol Bae Baglan, datblygiadau preswyl a chyflogaeth sydd eisoes yn bodoli, yr hen orsaf bŵer, y bioamrywiaeth cymhleth ar draws y safle, gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth

Natur (SINCs), y rhan o'r safle yn y de-orllewin a nodwyd fel arfordir heb ei ddatblygu, halogiad, yr is-orsaf yn ymyl y safle, a'r brif biblinell a'i pharth clustogi.


- Ymgorffori rhwydwaith o Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) a Seilwaith Gwyrdd ar y safle.
- Bydd lle ar gyfer hamdden yn cael ei ddarparu yn unol â'r polisïau a'r targedau a nodir.
- Caiff y safle ei ddylunio i fod yn hwylus i gerddwyr, gan ymgorffori cysylltiadau â'r datblygiad preswyl presennol.
- Arolwg cynefinoedd Cyfnod 1 estynedig, a ddylai gynnwys nodi presenoldeb cynefinoedd a rhywogaethau A7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), safleoedd sy'n bodloni meini prawf SINC, yn ogystal â rhywogaethau a warchodir. Dylid cynnwys cydbwysedd y cynefinoedd A7/SINC a gollir/enillir yn y cynllun. Dylai canlyniadau'r arolwg hwn lywio'r gofyn am arolygon pellach mwy penodol, megis arolygon adar, ystlumod ac ymlusgiaid.

Cyflawni:

- Bydd angen amodau a rhwymedigaethau cynllunio i reoli cyflwyno'r datblygiad, y defnydd o'r safle ac ystyriaethau priodol oddi ar y safle.
- Bydd prif gynllun manwl yn cael ei baratoi i helpu i gyflwyno'r safle a sicrhau datblygiad cynhwysfawr.

9.9 Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd (GCRE)

GCRE



- **Arwynebedd y Safle**: 107.8ha
- **Defnydd Presennol/Blaenorol**: Cyflogaeth gynt, mwynau, arall
- **Ffynhonnell**: Safle Ymgeisiol 2022 RLDP/DV/0022
- **Datblygiad Arfaethedig**: Seilwaith trafnidiaeth

9.9.1 Nodwyd datblygiad arfaethedig y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn y Strategaeth a Ffefrir fel safle allweddol posibl i'w fwyafu ac i weithredu fel catalydd ar gyfer gwelliannau hirdymor yn Ardal Cyfle'r Cymoedd.

9.9.2 Bu'r safle gynt yn gloddfa, golchfa a chanolfan ddosbarthu glo brig. O ganlyniad mae'n safle tir llwyd mawr a ddatblygwyd yn flaenorol. Mae'r safle ym mhen uchaf Cwm Dulais yng Nghastell-nedd Port Talbot ac yn ymestyn i mewn i Bowys.

9.9.3 Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar draws y ffin (P2021/0327) ym mis Gorffennaf 2021 fel bod modd datblygu dau drac profi cyfluniad lŵp, swyddfeydd rheoli a gweithrediadau, cabanau shyntio, ymchwil a datblygu, addysg a hyfforddiant, seidinau storio cerbydau rheilffordd, a chyfleusterau cynnal/glanhau/dadgomisiynu; a datblygu cysylltiedig gan gynnwys cysylltiad rheilffordd â'r lein gangen. Cyflawnwyd nifer o amodau a newidiadau nad oeddent o bwys mawr. Mae cais materion neilltuedig yn disgwyl am benderfyniad ar hyn o bryd.

9.9.4 Mae hyrwyddwyr y safle wedi cynhyrchu prif gynllun dilynol ar gyfer y safle sy'n ymhelaethu ar y caniatâd cynllunio oedd eisoes yn bodoli i gynnwys 20,000msg o ymchwil a datblygu ar gampws yr olchfa, 10-20,000msg o lety ymchwil a datblygu ar Gampws Cwm Mawr, fferm solar, lletygarwch a defnyddiau twristiaeth. Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y defnyddiau hyn.

9.9.5 Rhagwelir y bydd y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn dod yn safle a adeiladwyd at y diben ar gyfer ymchwil o'r radd flaenaf, profi ac ardystio cerbydau rheilffordd seilwaith a thechnolegau rheilffordd newydd arloesol, gan lenwi bwlch ym myd y rheilffyrdd nid yn y Deyrnas Unedig yn unig, ond ledled Ewrop. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Phowys fel bod modd datblygu'r safle.

9.9.6 Bydd angen i'r datblygu ar y safle gymryd i ystyriaeth y cyfyngiadau, yr egwyddorion creu lleoedd a'r gofynion seilwaith canlynol:

Cyfyngiadau:

- Nodwyd bod cyfyngiadau bioamrywiaeth ar y safle cyfan. Mae'r safle'n cynnwys glaswellt y gweunydd a phorfa frwyn, cynefin mosaig agored, ac mae'n gymwys fel Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) ar gyfer infertebratau a adar. Mae rhai ardaloedd o fawn dwfn a phlanhigion nodedig.
- Lleolir y safle ryw 900m o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r ardal wybren dywyll.
- Mae'r safle yn ymyl Gorsllwyn, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Onllwyn. Cysylltiadau posibl rhwng y safle a'r SoDdGA.
- Dyfrffyrdd arferol a chloddiau ar y safle.
- Safle o fewn ardal (cynllun risg) mwyngloddio arwyneb.
- Mae nifer o Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn y safle ac yn agos at y safle.
- O ystyried bod y safle wedi'i ddefnyddio ar gyfer cloddio am lo yn y gorffennol, mae ansefydlogrwydd tir posibl, mynedfa i lofeydd a gweithfeydd glo bas.
- O ystyried defnydd blaenorol y safle, mae halogiad ar y safle.

Gofynion Seilwaith:

- Mesurau i leihau effeithiau ar ffyrdd, diogelwch, gweithrediad neu gapasiti y rhwydwaith priffyrdd i gael eu llywio gan Asesiad Trafnidiaeth.
- Rhwydwaith ffyrdd mewnol a luniwyd at safon priffyrdd, gan gydymffurfio â'r Llawlyfr Strydoedd.
- Bydd angen i gysylltiadau teithio llesol gael eu gwneud i annog teithio llesol i'r safle/oddi yno.
- Llwybrau beicio a llwybrau defnydd a rennir i gael eu hymgorffori ar y safle.
- Nodwyd capasiti cyfyngedig yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff y Creunant. Bydd angen gwaith asesu pellach er mwyn deall i ba raddau mae hyn yn gyfyngiad ar ddatblygu, a pha ofynion seilwaith allai fod yn ofynnol.
- Ymchwiliadau wedi'u cynnal ar y safle i ganfod y risgiau i'r datblygiad yn sgîl gweithgaredd mwyngloddio yn y gorffennol. Dylai hyn gynnwys canfyddiadau ymchwiliadau safle i ganfod y mynedfeydd i'r gloddfa a gweithfeydd mwyngloddiau glo, a manylion unrhyw waith adfer a/neu wneud iawn a/neu fesurau lliniaru i ymdrin ag ansefydlogrwydd tir yn sgîl cloddio am lo yn y gorffennol.

- Ymchwiliadau a gynhelir ar y safle er mwyn deall hyd a lled halogiad y tir, ac adfer y tir wedi hynny fel sy'n briodol.
- Creu rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd ar draws y safle sy'n cynnal cysylltedd presennol ecosystemau.

Egwyddorion Creu Lleoedd:


- Mesurau dylunio i gymryd i ystyriaeth ddefnydd blaenorol y safle, gan gynnwys unrhyw halogiad tir, ansefydlogrwydd tir, agoriadau cloddfeydd a gweithfeydd glo bas.
- Mesurau dylunio i gymryd i ystyriaeth gyfyngiadau bioamrywiaeth ar draws y safle.
- Ymgorffori rhwydwaith o Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) a Seilwaith Gwyrdd ar y safle.
- Bydd lle ar gyfer hamdden yn cael ei ddarparu'n unol â pholisïau a thargedau a nodir.
- Caiff y safle ei ddylunio i fod yn hwylus i gerddwyr, gan ymgorffori cysylltiadau â'r datblygiad preswyl presennol.
- Mesurau dylunio i gymryd i ystyriaeth agosrwydd y datblygiad preswyl presennol.
- Arolwg cynefinoedd Cyfnod 1 estynedig, a ddylai gynnwys nodi presenoldeb cynefinoedd a rhywogaethau A7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), safleoedd sy'n bodloni meini prawf SINC, yn ogystal â rhywogaethau a warchodir. Dylid cynnwys cydbwysedd cynefinoedd A7/SINC a gollir/enillir yn y cynllun. Dylai canlyniadau'r arolwg hwn lywio'r gofyn am arolygon pellach mwy penodol, megis arolygon adar, ystlumod ac ymlusgiaid.
- Dylid darparu cyfleusterau cydweddus i wasanaethu'r safle. Ni ddylai'r rhain fod ar raddfa sy'n debygol o ddargyfeirio masnach yn sylweddol o'r ardal ehangach (gan gynnwys cyfleusterau yn Onllwyn/ Dyffryn Cellwen) na thynnu oddi wrth brif ffocws y safle fel cyfleuster profi i'r rheilffordd.
- Mesurau dylunio i gymryd i ystyriaeth effaith weledol a thirlun sy'n deillio o'r datblygiad arfaethedig, gan gynnwys newidiadau i gymeriad y tirlun a newidiadau i nodweddion/gyfansoddiad y golygfeydd.
- Mesurau dylunio i gymryd i ystyriaeth effeithiau sŵn posibl ar y cymunedau o amgylch.

Cyflawni:

- Bydd angen amodau a rhwymedigaethau cynllunio i reoli cyflwyno'r datblygiad, y defnydd o'r safle ac ystyriaethau priodol oddi ar y safle.

9.10 Canolfan Antur Wildfox

Canolfan Antur Wildfox



- **Arwynebedd y Safle**: 128.4ha
- **Defnydd Presennol/Blaenorol**: Tir glas
- **Ffynhonnell**: Safle Ymgeisiol 2022 RLDP/AV/0001
- **Datblygiad Arfaethedig**: Twristiaeth a hamdden

9.10.1 Nodwyd Canolfan Antur Wildfox yn y Strategaeth a Ffefrir fel safle allweddol posibl i'w fwyafu, er mwyn gweithredu fel catalydd ar gyfer gwelliannau hirdymor yn Ardal Cyfle'r Cymoedd.

9.10.2 Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol P2018/0493 ym mis Ionawr 2022 ar gyfer datblygu 600 o gabanau/randai, gwesty 100-gwely gyda sba cysylltiedig, bwyty, gweithgareddau hamdden a siopa, gweithgareddau antur ac adeiladau cysylltiedig a datblygiadau cysylltiedig. Cyflawnwyd newidiadau ac amodau dilynol ansylweddol. Cymeradwywyd cais materion neilltuedig P2022/0776 ym mis Tachwedd 2022.

9.10.3 Fel rhan o'r cais cynllunio amlinellol cyflwynwyd y prif gynllun cysyniadol hwn a'i gymeradwyo:

Prif Gynllun Cysyniadol



Figure 2: Concept Masterplan

9.10.4 Gan fod prif gynllun eisoes wedi'i gyflwyno a bod materion amlinellol a rhai neilltuedig wedi'u cymeradwyo, nid oes angen datblygu prif gynllun ar gyfer y safle. Yn hytrach, cynigir cyflwyno'r safle fel safle allweddol, yn unol â'r cais cynllunio a'r prif gynllun cymeradwy.

9.10.5 Cymerwyd cyfyngiadau a dulliau lliniaru i ystyriaeth fel rhan o'r cais cynllunio, a llofnodwyd cytundeb a.106.



Atodiad A

Rhestr o Canllawiau Cynllunio Atodol

Tabl A.0.1 Canllawiau Cynllunio Atodol

PS y CDLIA	Enw'r Polisi	Teitl CCA y CDLIA	Amserlen
PS1 / PS5	Creu Lleoedd Strategol / Creu Lleoedd ar Waith	Rhwymedigaethau Cynllunio	Drafft diwygiedig gyda Chynllun Adnau'r CDLIA
PS3	Argyfwng Byd Natur, Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol	Bioamrywiaeth	Diwygio a chyhoeddi ar ôl mabwysiadu'r CDLIA
PS5	Creu Lleoedd ar Waith	Cynlluniau Safleoedd Allweddol Creu Lleoedd	Adeg mabwysiadu'r CDLIA
PS5	Creu Lleoedd ar Waith	Creu Lleoedd a'u Dylunio	Diwygio a chyhoeddi ar ôl mabwysiadu'r CDLIA
PS5	Creu Lleoedd ar Waith	Yr Iaith Gymraeg	Drafft diwygiedig gyda Chynllun Adnau'r CDLIA
PS6	Trafnidiaeth Gynaliadwy	Creu Lleoedd a'u Dylunio (gan gynnwys safonau parcio)	Diwygio a chyhoeddi ar ôl mabwysiadu'r CDLIA
PS7	Tai	Tai (gan gynnwys Tai Fforddiadwy a mathau o Dai) (yn cynnwys safonau o ran gofod)	Drafft diwygiedig gyda Chynllun Adnau'r CDLIA
PS10	Adferiad Economaidd	Cynlluniau Creu Lleoedd	Ar ôl mabwysiadu'r CDLIA
PS11	Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel	Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel	Diwygio a chyhoeddi ar ôl mabwysiadu'r CDLIA
PS14	Yr Amgylchedd Hanesyddol	Yr Amgylchedd Hanesyddol	Diwygio a chyhoeddi ar ôl mabwysiadu'r CDLIA
PS14	Yr Amgylchedd Hanesyddol	Rhestr o Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol	Diwygio a chyhoeddi ar ôl mabwysiadu'r CDLIA
PS14	Yr Amgylchedd Hanesyddol	Rhestr o Strwythurau Camlas Dynodedig	Diwygio a chyhoeddi ar ôl mabwysiadu'r CDLIA
PS15	Seilwaith Gwyrdd	Seilwaith Gwyrdd (SG) a Mannau Hamdden (gan gynnwys yr Asesiad SG a'r Strategaeth SG)	Asesiad SG cychwynnol gyda Strategaeth a Ffefrir y CDLIA; CCA SG a Mannau Hamdden i gael ei gyhoeddi ar ôl mabwysiadu'r CDLIA
PS16	Cefn Gwlad, Tirluniau a'r Arfordir heb ei Ddatblygu	Cefn Gwlad, Tirluniau a'r Arfordir heb ei Ddatblygu	Diwygio a chyhoeddi ar ôl mabwysiadu'r CDLIA
PS17	Gwarchod yr Amgylchedd	Ansawdd yr Amgylchedd a Dileu Risgiau	Diwygio a chyhoeddi ar ôl mabwysiadu'r CDLIA



Atodiad B

Adolygu Polisïau Rheoli Datblygu

Adolygu Polisïau Rheoli Datblygu

2.1 Cynhaliwyd asesiad o Bolisïau Rheoli Datbygu y CDLl presennol. Nod yr ymarfer hwn yw adeiladu ar yr Adroddiad Adolygu i roi syniad a yw'r polisïau hyn yn gweithredu'n effeithiol ac a fyddant yn cael eu cario ymlaen fel polisïau newydd yn y CDLlA.

2.2 Lle caiff polisïau eu cario ymlaen, gallant fod yn destun mân newidiadau i adlewyrchu newidiadau i ofynion cenedlaethol, i'r cyd-destun lleol, ac ar sail tystiolaeth newydd a ddiweddarwyd.

2.3 Mewn rhai achosion efallai bod effeithlonrwydd polisïau wedi bod yn gyfyngedig wrth weithredu a monitro'r CDLl, neu mewn rhai achosion, efallai bydd dull gweithredu polisi gwahanol yn eu disodli.

2.4 Cyflwynir canlyniad gwaith pellach i adolygu'r polisïau hyn yn y CDLlA Adnau, lle gellir ailgrwpio neu aildrefnu polisïau i adlewyrchu eu cysylltiadau ag Amcanion y CDLlA.

Polisïau Trosfwaol

Tabl B.0.1 Polisïau Trosfwaol y CDLl

Polisïau Rheoli Datblygu y CDLl	Sylwadau	Argymheliad
SC 1 – Terfynau Aneddiadau	Mae AMBau y gorffennol yn dangos bod y polisi i'w weld yn gweithio'n unol â'r bwriad, ond gallai fod gofyn diweddaru'r meini prawf yn unol â'r Polisïau Strategol a ddiweddarwyd, yn ogystal â chanfyddiadau astudiaethau cefndir i'r CDLlA, megis yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth.	Caiff y polisi ei adolygu o ran geiriad y meini prawf, er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi sylw i newidiadau a wnaed gan Bolisïau Strategol y Strategaeth a Ffefrir (megis Creu Lleoedd), yn ogystal â thystiolaeth a ddiweddarwyd yn y CDLlA. O ganlyniad, bydd polisi diwygiedig yn cael ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
SC 2 – Diogelu Cyfleusterau Cymunedol Presennol	Mae AMBau y gorffennol yn dangos bod y polisi i'w weld yn gweithio'n unol â'r bwriad. Fodd bynnag, mae angen ystyried darparu eglurhad pellach ynghylch diffiniad/cwmpas y term Cyfleusterau Cymunedol.	Caiff y polisi ei adolygu o ran geiriad 'Cyfleuster cymunedol', a'r polisi yn ei gyfanrwydd i sicrhau ei fod yn rhoi sylw i newidiadau a wnaed gan Bolisïau Strategol y Strategaeth a Ffefrir (megis Creu Lleoedd), yn ogystal â thystiolaeth a ddiweddarwyd yn y CDLlA. Mae'n debygol y bydd polisi diwygiedig yn cael ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
I 1 – Gofynion Seilwaith	Ni chydymffurfiwyd yn llwyr â'r polisi hwn bob amser am amrywiaeth o resymau. Fodd bynnag,	Gan fod Seilwaith wedi cael ei ymgorffori mewn polisïau eraill (megis Creu Lleoedd Strategol) mae'n bwysig bod hyn yn cael

Polisïau Rheoli Datblygu y CDLI	Sylwadau	Argymheliad
	mae'r Polisi'n hanfodol i sicrhau bod seilwaith digonol i liniaru effeithiau datblygu newydd, a dylid cario hynny drosodd i'r cynllun newydd. Mae'r polisi strategol wedi cael ei ailysgrifennu a'i ymgorffori yn y polisïau Creu Lleoedd Strategol, Creu Lleoedd ar Waith a Thrafnidiaeth Gynaliadwy. Gallai fod angen ymgorffori gofynion seilwaith gwyrdd a thrafnidiaeth yn y polisi hwn.	ei adlewyrchu yn y polisi a ddiweddarwyd. Ar ben hynny, mae angen eglurhad pellach ynghylch y gofynion o ran rhwymedigaethau cynllunio. Bydd profion dichonolrwydd yn pennu cwmpas cyfraniadau datblygwyr yn achos datblygiadau newydd, a bydd asesiad o'r materion allweddol yn penderfynu a yw'r rhestr o ofynion posibl yn dal yn briodol. Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLIA Adnau.

Polisïau Seiliedig ar Ardaloedd

Tabl B.0.2 Polisïau Seiliedig ar Ardaloedd y CDLI

Polisïau Rheoli Datblygu y CDLI	Sylwadau	Argymhelliad
SRA 1 Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy	Mae'r AMB yn dangos nad yw'r polisi wedi cyflawni'n unol â'r disgwyl. Cyflwynwyd y safle fel Safle Ymgeisiol ar gyfer y CDLIA.	Caiff manylion y polisi hwn eu hystyried yn y Cyfnod Adnau, os yw hynny'n berthnasol. Os caiff ei gynnwys, bydd angen sicrhau ei fod yn cymryd i ystyriaeth y polisïau strategol allweddol a amlinellwyd yn y Strategaeth a Ffefrir.
SRA 2 Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr	Mae'r AMB yn dangos nad yw'r polisi wedi cyflawni'n unol â'r disgwyl, ac mai rhan yn unig o'r datblygiadau tai a chyflogaeth a gafwyd. Fodd bynnag, mae'r safle'n rhan o'r Ardal Dwf Genedlaethol, felly bydd angen ystyried y polisi hwn yn fanylach unwaith mae canlyniadau'r ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir yn hysbys.	Caiff manylion y polisi hwn eu hystyried yn y Cyfnod Adnau, os yw hynny'n berthnasol. Os caiff ei gynnwys, bydd angen sicrhau ei fod yn cymryd i ystyriaeth y polisïau strategol allweddol a amlinellwyd yn y Strategaeth a Ffefrir.

Polisïau Rheoli Datblygu y CDLl	Sylwadau	Argymhelliad
CCRS 1 Cynlluniau Adfywio Coridor yr Arfordir	Nod y polisi hwn oedd symud ymlaen gydag ailddatblygu safleoedd Canol Tref Castell-nedd, Ysgol Gyfun Glanafan a Lido Afan. Mae'r rhain i gyd wedi cael eu cyflwyno, ond nid yw cynllun Canol Tref Castell-nedd wedi sicrhau datblygu tai ar y lefel a ragwelwyd yn wreiddiol.	Diwygio polisi i adlewyrchu ailystyried y strategaeth ofodol a thwf.
CCRS 2 Coridor yr Arfordir – Campws y Brifysgol	Mae'r rhan fwyaf o'r safle hwn wedi'i adeiladu. Mae angen ystyried a oes angen polisi ardal penodol ar gyfer y Cynllun Adnau, o ystyried ei leoliad yn yr Ardal Dwf Genedlaethol. Mae angen ystyried a yw polisïau trosfwaol ar Greu Lleoedd Strategol ar Waith yn darparu gwybodaeth ddigonol i gwblhau'r datblygu ar Gampws y Brifysgol, neu a oes gofyn llunio polisi penodol.	Caiff manylion y polisi hwn eu hystyried yn y Cyfnod Adnau, os yw hynny'n berthnasol. Os caiff ei gynnwys, bydd angen sicrhau ei fod yn cymryd i ystyriaeth y polisïau strategol allweddol a amlinellwyd yn y Strategaeth a Ffefrir.
VRS 1 Cynllun Adfywio Strategaeth y Cymoedd	Diwygio'r polisi i adlewyrchu ailystyried strategaeth ofodol a thwf.	Diwygio'r polisi i adlewyrchu ailystyried strategaeth ofodol a thwf.

Polisïau Seiliedig ar Bynciau Cymunedau a Thai

Tabl B.0.3 Polisïau Seiliedig ar Bynciau Cymunedau a Thai yn y CDLl

Polisïau Rheoli Datblygu y CDLl	Sylwadau	Argymhelliad
H 1 Safleoedd Tai	Bydd angen diweddaru'r polisi hwn i gynnwys unrhyw Safleoedd Ymgeisiol a gyflwynwyd fel rhan o'r CDLlA y bernir eu bod yn ddichonadwy ac yn gyflawnadwy.	Diwygio dyraniadau tai i adlewyrchu'r strategaethau gofodol a thwf a dosbarthiad gofodol tai ar draws y cynllun. Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
AH 1 Tai Fforddiadwy	Bydd gofyn diwygio'r polisi i adlewyrchu gwaith dichonoldeb a ddiweddarwyd.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
AH 2 Safleoedd sy'n Eithriadau o ran Tai Fforddiadwy	Mae AMBau yn y gorffennol yn dangos na chafwyd unrhyw geisiadau perthnasol ynghylch safleoedd sy'n eithriadau ers i'r	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.

Polisïau Rheoli Datblygu y CDLl	Sylwadau	Argymhelliad
	CDLl gael ei fabwysiadu. Bydd angen cynnal ymchwiliadau a thrafodaeth pellach gyda phartneriaid sy'n LCC cyn medru gwneud penderfyniad ynghylch trothwyon a thargedau.	
GT 1 Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr	Bydd angen diweddaru'r polisi hwn i ystyried canfyddiadau'r astudiaeth o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
GT 2 Cynigion ar gyfer Safleoedd Newydd i Sipsiwn a Theithwyr	Mae AMBau yn y gorffennol yn dangos bod y polisi hwn yn gweithredu'n effeithiol. Bydd angen diweddaru'r polisi hwn i gyfateb i bolisi a chanllawiau cenedlaethol a ddiweddarwyd, yn ogystal â chanfyddiadau'r astudiaeth o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
OS 1 Darpariaeth Mannau Agored	Mae AMBau yn y gorffennol yn dangos bod y polisi hwn yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r polisi yn sgîl newidiadau i'r safonau FIT (Fields In Trust) ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. Ymhellach, gallai cyflwyno gofynion Seilwaith Gwyrdd yn Cymru'r Dyfodol a PCC newid geiriad/strwythur y polisi yma. Gallai fod gofyn gwneud rhai newidiadau hefyd mewn ymateb i sylwadau Gweithgor y Swyddogion ynghylch gwella eglurder.	Caiff y polisi ei ddiwygio i sicrhau ei fod yn cymryd i ystyriaeth newidiadau FIT, yn ogystal â'r newidiadau a wnaed gan Bolisïau Strategol y Strategaeth a Ffefrir (sef Creu Lleoedd ar Waith, a Seilwaith Gwyrdd). Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
OS 2 Diogelu Mannau Agored Presennol	Ymddengys bod y polisi'n gweithio'n gymharol dda, er y gallai fod angen adolygu rhywfaint arno i sicrhau mwy o eglurder (mewn ymateb i sylwadau'r Gweithgor), ond dylid ei gario drosodd.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.

Polisïau Seiliedig ar Bwnc yr Economi

Tabl B.0.4 Polisïau Seiliedig ar Bwnc yr Economi yn y CDLl

Polisïau Rheoli Datblygu y CDLl	Sylwadau	Argymhelliad
EC 1 Dyraniadau Cyflogaeth	Bydd angen diweddaru'r polisi hwn i ystyried safleoedd a gyflwynwyd fel rhan o'r CDLlA. Bydd angen i'r polisi hwn gymryd i ystyriaeth y galw disgwyliedig am arwynebedd llawr cyflogaeth a amlygwyd yn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth a'r EHGA. Bydd y polisi hefyd yn cynnwys unrhyw Safleoedd Ymgeisiol a gyflwynwyd fel rhan o'r CDLlA y bernir eu bod yn ddichonadwy ac yn gyflawnadwy.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
EC 2 Ardaloedd Cyflogaeth Presennol	Caiff y polisi hwn ei adolygu'n unol â chanfyddiadau'r Adolygiad Tir Cyflogaeth, a'r EHGA. Bydd angen i'r polisi ystyried a oes rhaid diogelu'r holl ardaloedd cyflogaeth a restrir, yn ogystal ag unrhyw safleoedd newydd a nodir yn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
EC 3 Defnyddiau Ardaloedd Cyflogaeth	Mae AMBau yn y gorffenol yn dangos bod y polisi hwn yn gweithredu'n effeithiol. Gellid gwneud mân newidiadau i'r polisi hwn, gan gynnwys ystyried a ellid cyfuno polisïau EC3 ac EC4.	Caiff polisi diwygiedig, a allai ymgorffori polisïau presennol EC 3 ac EC 4, ei gynnwys yn CDLlA Adnau.
EC 4 Diogelu Defnyddiau Cyflogaeth Presennol	Mae AMBau yn y gorffennol yn dangos bod y polisi hwn yn gweithredu'n effeithiol. Yn dilyn sylwadau gan y Gweithgor Swyddogion, gallai fod angen addasu'r polisi hwn i wella eglurder, yn ogystal ag ystyried a ellir cyfuno polisïau EC3 ac EC4.	Caiff polisi diwygiedig, fydd yn gwella eglurder ac a allai ymgorffori polisïau presennol EC 3 ac EC 4, ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
EC 5 Defnyddiau Cyflogaeth yn y Cymoedd	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol. Yn dilyn sylwadau gan y Gweithgor	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.

Polisïau Rheoli Datblygu y CDLl	Sylwadau	Argymhelliad
	Swyddogion, gallai fod angen addasu'r polisi hwn i wella eglurder.	
EC 6 Unedau Byw a Gweithio	Gan na chafwyd ceisiadau mewn perthynas â'r polisi hwn ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, mae angen ystyried a yw'r polisi hwn yn dal yn berthnasol neu'n angenrheidiol. Bydd angen i hyn gael ei lywio gan yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth a'r Papur Cefndir ar Gyflogaeth.	Bydd angen i'r Papur Cefndir ar Gyflogaeth asesu a yw'r polisi hwn yn dal yn angenrheidiol yn y CDLlA, ac a allai polisïau eraill fodloni unrhyw angen a nodwyd. Os caiff ei gynnwys, bydd angen iddo sicrhau ei fod yn ystyried y polisïau strategol allweddol a amlinellir yn y Strategaeth a Ffefrir.
R 1 Dyraniadau Manwerthu	Mae angen astudiaethau ychwanegol i ganfod a oes angen dyraniadau manwerthu newydd yn y CDLlA. Bydd yr wybodaeth hon, ynghyd â'r Papur Cefndir ar Fanwerthu, yn amlygu a nodwyd angen.	Bydd angen i'r Papur Cefndir ar Fanwerthu asesu a yw'r polisi hwn yn dal yn angenrheidiol yn y CDLlA. Os caiff ei gynnwys, bydd angen iddo sicrhau ei fod yn ystyried y polisïau strategol allweddol a amlinellir yn y Strategaeth a Ffefrir.
R 2 Cynigion mewn Canolfannau Manwerthu	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n gywir, ond gallai fod angen gwneud rhai mân addasiadau i roi sylw i'r newidiadau mewn polisi manwerthu cenedlaethol.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
R 3 Cynigion Manwerthu y tu allan i Ganolfannau	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol. Lle bo angen, gallai fod angen gwneud rhai mân newidiadau i'r polisi i adlewyrchu newidiadau i'r polisi manwerthu cenedlaethol.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
TO 1 Datblygu Twristiaeth yng Nghefn Gwlad	Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Gallai fod angen mân newidiadau i wella eglurder, mewn ymateb i sylwadau Gweithgor y Swyddogion.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
TO 2 Diogelu Cyfleusterau Twristiaeth sydd eisoes yn Bodoli	Mae AMBau yn y gorffennol yn dangos bod y polisi hwn yn gweithredu'n effeithiol. Yn dilyn sylwadau gan Weithgor y Swyddogion, mae angen ystyried a ddylid	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.

Polisïau Rheoli Datblygu y CDLl	Sylwadau	Argymhelliad
	ehangu'r polisi i gwmpasu trosi i ddefnyddiau eraill, yn ogystal â defnydd preswyl. Caiff hyn ei archwilio yn y Papur Cefndir ar Dwristiaeth.	
TO 3 Cynllun Adfywio ar sail Twristiaeth	Ni chyflawnwyd y dyraniad hwn; fodd bynnag, ailgyflwynwyd y safle i'r Cyngor fel safle ymgeisiol a gynigir ar gyfer twristiaeth. Bydd angen i'r papur cefndir ar Dwristiaeth asesu dichonoldeb a chyflawnadwyedd y cynllun hwn, yn ogystal ag unrhyw safleoedd Twristiaeth eraill a gyflwynir fel Safleoedd Ymgeisiol neu Geisiadau Cynllunio.	Os daw'r papur cefndir i'r casgliad bod y datblygiadau hyn yn ddichonadwy ac yn gyflawnadwy, caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
TO 4 Llwybrau Cerdded a Beicio	Cyflwynwyd y llwybrau a nodwyd. Mae angen cynnal astudiaethau ychwanegol er mwyn ystyried a oes angen llwybrau cerdded a beicio amgen ychwanegol i gyflawni'r strategaeth. Asesir hynny trwy'r Papur Cefndir ar Drafnidiaeth.	Os daw'r papur cefndir i'r casgliad bod angen y rhain i gyflawni'r strategaeth, caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.

Polisïau Seiliedig ar Bynciau'r Amgylchedd ac Adnoddau

Tabl B.0.5 Polisïau Seiliedig ar Bynciau'r Amgylchedd ac Adnoddau yn y CDLl

Polisïau Rheoli Datblygu y CDLl	Sylwadau	Argymhelliad
EN 1 – Yr Arfordir sydd heb ei Ddatblygu	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol, ond gallai fod angen newidiadau o ystyried y newid i bolisi cenedlaethol.	Er mwyn parhau i ddiogelu'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu, caiff polisi wedi'i ddiweddaru ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
EN 2 – Ardaloedd Tirlun Arbennig (ATA)	Dengys AMBau yn y gorffennol y gallai fod angen adolygu'r polisi hwn yng ngoleuni'r newidiadau i bolisi	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.

Polisïau Rheoli Datblygu y CDLl	Sylwadau	Argymhelliad
	cenedlaethol. Gallai fod angen newidiadau i ffiniau'r ATAoedd.	
EN 3 – Lletemau Glas	Dengys AMBau yn y gorffennol y gallai fod angen adolygu'r polisi hwn yng ngoleuni penderfyniadau ynghylch ceisiadau.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
EN 4 – Anheddau Amnewid mewn ardaloedd Cefn Gwlad Agored	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol. Gallai fod angen mân newidiadau i'r polisi yn dilyn ymgynghori â Swyddogion Rheoli Datblygu.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
EN 5 – Trosi ac Estyn Adeiladau sydd eisoes yn Bodoli yng Nghefn Gwlad	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol. Gallai fod angen mân newidiadau i'r polisi yn dilyn ymgynghori â Swyddogion Rheoli Datblygu.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
EN 6 – Safleoedd Pwysig o ran Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol. Bydd angen gwneud newidiadau i'r polisi i'w ddiweddaru i adlewyrchu polisi cenedlaethol (megis ymgorffori budd net o ran bioamrywiaeth).	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
EN 7 – Nodweddion Naturiol Pwysig	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol, ond mae angen gwneud addasiadau er mwyn adlewyrchu newidiadau i bolisi cenedlaethol (megis ymgorffori budd net o ran bioamrywiaeth).	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau. Gallai fod gofyn cynnwys polisi ychwanegol ar Seilwaith Gwyrdd, a Budd Net o ran Bioamrywiaeth.
EN 8 – Llygredd a Sefydlogrwydd Tir	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol. Yn dilyn sylwadau gan Weithgor y Swyddogion, ystyried rhannu'r polisi er mwyn cael polisïau ar wahân ar gyfer Llygredd a Sefydlogrwydd tir, i wella eglurder.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau. Gallai fod yn ddoeth llunio polisïau ar wahân ar gyfer Llygredd a Sefydlogrwydd Tir, ac ystyrir hynny ymhellach wrth baratoi'r Cynllun Adnau.

Polisïau Rheoli Datblygu y CDLl	Sylwadau	Argymhelliad
EN 9 – Datblygiadau yn Ardal Canol Port Talbot	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol. Yn dilyn sylwadau gan Weithgor y Swyddogion, gallai fod angen gwneud rhai mân newidiadau i sicrhau eglurder.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
EN 10 – Ardaloedd Tawel	Dengys AMBau yn y gorffennol fod y polisi i'w weld yn gweithredu'n effeithiol. Gallai fod angen gwneud rhai newidiadau i'r polisi i sicrhau ei fod yn cyfateb i ddeddfwriaeth newydd.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
M 1 – Datblygiadau mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau	Dengys AMBau yn y gorffennol fod y polisi i'w weld yn gweithredu'n effeithiol, ond mae angen addasu i adlewyrchu newidiadau i bolisi cenedlaethol.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
M 2 – Gweithrediadau Glo ar yr Wyneb	Nid oes angen y polisi hwn bellach yn sgîl newidiadau i'r polisi mwynau cenedlaethol, a'r adnoddau sydd ar gael yn y Fwrdeistref Sirol.	Dileu'r polisi.
M 3 – Datblygiadau mewn Parthau Clustogi Mwynau	Mae AMBau yn y gorffennol yn dangos bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol. Gallai fod gofyn gwneud mân ddiweddariadau oherwydd newidiadau i'r polisi mwynau cenedlaethol.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
M 4 – Meini Prawf ar gyfer Asesu Datblygiadau Mwynau	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol. Gallai fod gofyn gwneud mân ddiweddariadau oherwydd newidiadau i'r polisi mwynau cenedlaethol.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
RE 1 – Meini Prawf ar gyfer Asesu Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol. Mae angen gwneud addasiadau i adlewyrchu newiaidau i'r polisi cenedlaethol ar ynni adnewyddadwy.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.

Polisïau Rheoli Datblygu y CDLl	Sylwadau	Argymhelliad
RE 2 – Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel mewn Datblygiadau Newydd	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol. Gallai fod gofyn gwneud addasiadau i'r trothwy ar gyfer cyflwyno asesiadau mewn ymateb i sylwadau Gweithgor y Swyddogion, yn ogystal ag addasiadau sy'n adlewyrchu'r newidiadau i'r polisi cenedlaethol ar ynni adnewyddadwy.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
W 1 – Cyfleusterau Trin Gwastraff mewn Adeiladau	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol, ond mae angen gwneud addasiadau i sicrhau bod y polisi'n cyfateb i bolisi a chanllawiau cenedlaethol a rhanbarthol.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
W 2 – Rhoi Gwastraff Anadweithiol ar Dir Amaethyddol	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol, ond mae angen addasiadau i sicrhau bod y polisi'n cyd-fynd â pholisi a chanllawiau cenedlaethol a rhanbarthol.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
W 3 – Rheoli Gwastraff mewn Datblygiadau Newydd	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol, ond mae angen addasiadau i sicrhau bod y polisi'n cyd-fynd â pholisi a chanllawiau cenedlaethol a rhanbarthol.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.

Polisïau Seiliedig ar Bynciau Trafnidiaeth a Mynediad

Tabl B.0.6 Polisïau Seiliedig ar Bynciau Trafnidiaeth a Mynediad yn y CDLl

Polisïau Rheoli Datblygu y CDLl	Sylwadau	Argymhelliad
TR 1 – Cynigion Trafnidiaeth	Mae angen gwneud newidiadau i adlewyrchu'r ffaith bod cynlluniau wedi cael eu cwblhau'n gymharol, ac y gallai fod angen cynlluniau newydd i symud ymlaen gyda'r strategaeth newydd.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.

Polisïau Rheoli Datblygu y CDLl	Sylwadau	Argymhelliad
TR 2 – Dylunio Datblygiadau Newydd a Mynediad Iddynt	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol. Gallai fod angen addasu i gyflwyno newidiadau a wnaed i'r polisi cenedlaethol.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
TR 3 – Diogelu Seilwaith Rheilffyrdd nad yw'n cael ei Ddefnyddio	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol. Gallai fod angen addasu i gyflwyno newidiadau a wnaed i'r polisi cenedlaethol.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
TR 4 – Diogelu Cyfleusterau Nwyddau	Dengys AMBau yn y gorffennol fod y polisi'n gweithredu'n effeithiol. Gallai fod angen addasu i gyflwyno newidiadau a wnaed i'r polisi cenedlaethol.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.

Polisïau Seiliedig ar Bynciau Diwylliant a Threftadaeth

Tabl B.0.7 Polisïau Seiliedig ar Bynciau Diwylliant a Threftadaeth yn y CDLl

Polisïau Rheoli Datblygu y CDLl	Sylwadau	Argymhelliad
BE 1 - Dylunio	Bydd angen adolygu'r polisi hwn i ystyried addasu yn sgîl y newid i bolisïau strategol (fel yr amlygwyd yn Creu Lleoedd Strategol a Creu Lleoedd ar Waith), yn ogystal ag er mwyn ymgorffori newidiadau a wnaed mewn ymateb i sylwadau gweithgor y swyddogion.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
BE 2 – Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol	Caiff y polisi hwn ei adolygu i ystyried addasu yn sgîl y newidiadau i bolisi cenedlaethol.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
BE 3 – Y Rhwydwaith Camlesi	Ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n effeithiol; fodd bynnag, gallai fod angen ei ddiweddaru yn dilyn y newid i bolisi cenedlaethol.	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.
WL 1 – Datblygu mewn Ardaloedd Sensitif o ran Iaith	Gallai fod angen diweddaru'r polisi i gyflwyno newidiadau mewn ymateb i weithgor y	Caiff polisi diwygiedig ei gynnwys yn y CDLlA Adnau.

Polisïau Rheoli Datblygu y CDLl	Sylwadau	Argymhelliad
	Swyddogion (e.e. trothwyon, neu gynnwys Polisi Hysbysebu / Arwyddion). Caiff yr opsiynau hyn eu trafod ymhellach yn y Papur Pwnc ar yr Iaith Gymraeg.	



Atodiad C
Rhestr Termau

3.1 Mae'r Rhestr hon o Eirfa yn darparu termau a chyfeiriadau a fydd o ddefnydd wrth ddarllen y ddogfen hon.

Deddf 2004 / Y Ddeddf	Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
Teithio Llesol	Cerdded, defnyddio olwynion neu feicio i fynd ar deithiau pwrpasol i gyrchfan, neu gyfuno hynny â thrafnidiaeth gyhoeddus.
Mabwysiadu	Yr adeg pryd bydd fersiwn gytunedig derfynol dogfen yn dechrau cael ei defnyddio'n ffurfiol gan y Cyngor at ddibenion cynllunio.
Tai Fforddiadwy	Tai lle mae systemau diogel yn eu lle i sicrhau eu bod ar gael i'r rheiny sy'n methu â fforddio tai ar y farchnad agored, a hynny wrth i'r preswylwyr cyntaf eu meddiannu ac yn achos preswylwyr dilynol. Cyflwynir y diffiniad hwn gan Lywodraeth Cymru o dan Baragraff 5.1 yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 2.
Agregau	Deunydd neu graig sy'n cael eu cloddio neu eu prosesu i'w defnyddio at ddibenion adeiladu, er enghraifft, creigiau mâl, tywod a gro mân.
Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA)	Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn gofyn bod Awdurdodau Lleol yn adolygu ac yn asesu ansawdd aer yn yr ardaloedd hyn, yn erbyn safonau ac amcanion cenedlaethol ansawdd aer. Lle na chyflawnir amcanion ansawdd aer y Deyrnas Unedig, ac mae hynny'n effeithio ar aelodau o'r cyhoedd, mae gofyn bod Awdurdodau Lleol yn datgan ARhAA.
Dyraniad	Tir a nodwyd yn y Cynllun at ddiben penodol o ran defnydd tir.
Amwynder	Agweddau dymunol neu gyffredinol foddhaol lleoliad, sy'n cyfrannu at ei gymeriad cyffredinol a gallu preswylwyr neu ymwelwyr i'w fwynhau.
Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB)	Wedi i'r CDLl gael ei fabwysiadu'n ffurfiol, adroddiad yw hwn sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fydd yn asesu effeithiolrwydd y CDLl yn erbyn cyfres o ddangosyddion a thargedau.
Arfarniad	Dyfarniad ar sail yr asesiad diweddaraf.
Gwaelodlin	Disgrifiad o gyflwr presennol ardal er mwyn gallu mesur newid yn ei erbyn.

Bioamrywiaeth	Holl amrywiaeth bywyd ar y ddaear. Mae'n cynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid a'r ecosystemau a chynefinoedd y maent yn rhan ohonynt.
Safleoedd Tir Llwyd (tir llwyd a/neu dir a ddatblygwyd yn flaenorol)	Diffinnir tir llwyd, neu dir a ddatblygwyd yn flaenorol, ym Mholisi Cynllunio Cymru 2024 fel tir lle mae neu lle bu strwythur parhaol (heb gynnwys adeiladau amaethyddol neu goedwigaeth) a seilwaith arwyneb sefydlog cysylltiedig. Cynhwysir cwrtil y datblygiad, a hefyd adeiladau amddiffynnol, a thir a ddefnyddir ar gyfer echdynnu mwynau a gwaredu gwastraff lle na ddarparwyd ar gyfer gwaith adfer trwy weithdrefnau rheoli datblygu. Disgrifir yr eithriadau a'r nodiadau manwl yn llawn ar dudalen 37 o Bolisi Cynllunio Cymru.
Parth Clustogi	Ardal o dir sy'n gwahanu neu'n sgrinio defnyddiau a allai fod yn anghydnaws, fel arfer ardal wedi'i thirweddu neu fan agored.
Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol (BLIs)	Adeiladau hanesyddol sydd â phwysigrwydd lleol. Nhw sy'n creu cyd-destun ein trefi, ein dinasoedd, ein pentrefi a'n hardaloedd gwledig.
Galwad am Safleoedd Ymgeisiol a Safleoedd Capasiti Trefol	Wrth baratoi'r Cynllun, gwahoddwyd tirfeddianwyr, datblygwyr ac eraill sydd â diddordeb mewn tir i gyflwyno safleoedd y maent am iddynt gael eu hystyried ar gyfer datblygiad neu ddefnyddiau eraill trwy'r CDLlA.
Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol	Cofrestr o safleoedd ymgeisiol a baratoir wedi dwy alwad am safleoedd ac un alwad capasiti trefol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
Safleoedd Ymgeisiol a Safleoedd Capasiti Trefol	Safleoedd yw'r rhain a gyflwynwyd i'w hystyried ar gyfer datblygu neu ddefnyddiau eraill trwy'r CDLlA.
Economi Gylchol	Economi gylchol yw un sy'n ceisio sicrhau bod deunyddiau, cynnyrch a chydrannau yn parhau i gael eu defnyddio cyhyd â phosibl.
Newid yn yr Hinsawdd	Amrywiadau hirdymor o ran tymheredd, glawiad, gwynt a phob agwedd arall ar hinsawdd y Ddaear. Yn aml bernir mai gweithgareddau dynol a defnydd o danwydd ffosil sy'n achosi hyn.

Argyfwng Hinsawdd	Cyhoeddodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2022. Mae hynny'n golygu bod y cyngor yn ymrwymo i roi cyhoeddusrwydd i argyfwng yr hinsawdd; sicrhau bod Castell-nedd Port Talbot yn dod yn garbon niwtral erbyn 2030; gweithio gydag arbenigwyr perthnasol ym meysydd ymchwil a datblygu i adolygu ei strategaethau cyfredol a'i gynlluniau gweithredu ar gyfer rhoi sylw i'r newid yn yr hinsawdd; nodi unrhyw newidiadau polisi pellach neu gamau gweithredu sy'n angenrheidiol, ceisio help gan bartneriaid lleol a chyrff ymchwil eraill er mwyn esbonio pa waith lleol sydd eisoes yn digwydd, beth sydd wedi'i gyflawni eisoes, a phennu targedau ar gyfer y dyfodol; a rhoi diweddariad ar y gwaith pellach a wnaed gan y cyngor yn yr ardal hon yn flynyddol.
Coridor yr Arfordir a'r Ardal Dwf Genedlaethol	Y stribed arfordirol gul sy'n rhedeg o amgylch Bae Abertawe, lle ceir y prif ganolfannau poblogaeth, a nodwyd yn Cymru'r Dyfodol fel Ardal Dwf Genedlaethol.
Ardaloedd Cadwraeth	Ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, lle mae'n ddymunol diogelu neu wella ei chymeriad, ei golwg neu ei chyd-destun.
Cyfyngiadau	Unrhyw ffactorau sy'n effeithio ar a oes modd datblygu, neu ble a sut gall hynny ddigwydd.
Cytundeb Cyflawni (CC)	Cytundeb rhwng yr Awdurdod Cynllunio Lleol a Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun a Chynllun Cynnwys y Gymuned, sy'n dangos sut mae'r Awdurdod yn bwriadu ymgysylltu â'r cyhoedd a chyrff rhanddeiliaid.
Dwysedd	Yn achos datblygiad preswyl, dull o fesur nifer yr anheddau fesul hectar.
Cynllun Adnau	Y fersiwn o'r CDLlA a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ar gyfer archwiliad cyhoeddus.
Datblygu	Gwneud unrhyw waith adeiladu, peirianneg, cloddio neu weithrediadau eraill mewn, ar, dros neu o dan dir, neu wneud unrhyw newid pwysig yn nefnydd unrhyw adeiladau neu dir.
Rheoli Datblygu	Y broses mae Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei defnyddio i benderfynu ar gais cynllunio.

Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (LICD)	Dogfen canllawiau polisi cynllunio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol.
Seilwaith digidol	Seilwaith digidol yw'r technolegau digidol a ffisegol sy'n rhoi cyfle i gymunedau gysylltu â'i gilydd o bell a chael mynediad at ystod o nwyddau a gwasanaethau.
Ardal Flaenoriaeth o ran Rhwydwaith Gwres i'r Dosbarth	Dyma'r ardaloedd lle bernir bod y cyfle mwyaf i ddatblygu rhwydweithiau gwres i'r dosbarth ac ardaloedd lle dylid archwilio'u potensial.
Ecoleg	Astudio'r berthynas rhwng planhigion ac anifeiliaid a'i gilydd a'u hamgylchiadau.
Tir Cyflogaeth	Tir a ddefnyddir at ddibenion cyflogaeth gan un neu fwy o'r canlynol: swyddfeydd, gweithgynhyrchu, ymchwil a datblygu, storio a dosbarthu.
Ymgysylltu	Proses sy'n annog pwyso a mesur sylweddol mewn cymuned. Ymgais ragweithiol i gynnwys unrhyw grŵp penodol o bobl neu adran o'r gymuned.
Sylfaen o Dystiolaeth	Yr wybodaeth a'r data a gesglir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i gyfiawnhau "cadernid" y dull gweithredu polisi a gyflwynir yn y CDLlA, gan gynnwys nodweddion ffisegol, economaidd, a chymdeithasol ardal.
Lwfans Hyblygrwydd	Lwfans ychwanegol sy'n briodol yn lleol i wneud iawn am safleoedd nad ydynt yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfnod y cynllun. Rhaid dangos y gallu i gyflawni'r gofynion trwy daflwybr tai.
Parth Llifogydd	Ardal o dir isel yn ymyl dyfrffyrdd neu mewn ardaloedd arfordirol sy'n debygol o ddioddef llifogydd.
Cymru'r Dyfodol (CD) 2040 / Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC)	Y Cynllun Datblygu Cenedlaethol a baratowyd gan Lywodraeth Cymru sy'n cyflwyno'r fframwaith datblygu gofodol ar gyfer Cymru. Mae hyn yn rhan o'r cynllun datblygu gofodol ar gyfer Castell-nedd Port Talbot.
Cydymffurfio Cyffredinol	Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn gofyn bod y CDLlA yn cydymffurfio'n gyffredinol (yn cefnogi ac yn cynnal) egwyddorion cyffredinol Cymru'r Dyfodol.

Geoamrywiaeth	Yr amrywiaeth o ddeunyddiau daear, ffurfiau a phroses sy'n creu ac yn ffurfio'r ddaear, gan gynnwys mwynau, creigiau, gwaddodion, ffosiliau, pridd a dŵr.
Twf gwyrdd	Nod y dull gweithredu twf gwyrdd yw cydbwyso twf economaidd â chynaliadwyedd amgylcheddol.
Lletem Las	Dynodiad tirlun a ddefnyddir gan Awdurdod Cynllunio Lleol i (1) atal aneddiadau rhag rhedeg i'w gilydd (neu gael eu cyfuno); ac i (2) amddiffyn lleoliad ardaloedd trefol.
Safleoedd Tir Glas	Tir lle na fu datblygu yn y gorffennol. Fel arfer glaswelltir, tir ffermio neu rostir.
Sipsiwn a Theithwyr	Pobl sy'n byw bywyd crwydrol, o ba hil neu darddiad bynnag, gan gynnwys pobl o'r fath sydd am resymau cysylltiedig â'u hanghenion addysg neu iechyd eu hunain neu eu teulu neu eu dibynyddion, neu oherwydd henaint wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu'n barhaol, ond gan eithrio aelodau o grŵp trefnedig o bobl sioe deithiol neu bobl syrcas sy'n cyd-deithio felly.
Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd	Asesiad o effeithiau cynigion / polisïau datblygu ar unrhyw safleoedd sydd â dynodiad Ewropeaidd (sef Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Amddiffyniad Arbennig, Safleoedd Morol Ewropeaidd oddi ar y lan, ac unrhyw safleoedd a allai fod yn Ardaloedd Amddiffyniad Arbennig ac yn Ddarpar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig) a safleoedd Ramsar (gwlyptir).
Asesiad Effaith ar Iechyd	Asesiad o effeithiau polisïau/cynigion ar iechyd.
Amgylchedd Hanesyddol	Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cwmpasu'r holl elfennau ffisegol sydd wedi goroesi wedi gweithgaredd dynol blaenorol, ac mae'n dangos sut mae cenedlaethau'r gorffennol wedi ffurfio'r byd o'n cwmpas.
Archwiliad Annibynnol	Proses ar gyfer profi cadernid y CDLlA yn gyhoeddus.
Seilwaith	Ym maes cynllunio, y strwythurau ffisegol sy'n ofynnol i gymuned weithredu a bod yn gynaliadwy yn y tymor hir. Yn nodweddiadol mae seilwaith yn cyfeirio at faterion fel ffyrdd,

	cyflenwad dŵr, carthffosydd, trydan ac elfennau cymdeithasol eraill megis addysg, hamdden a chyfleusterau iechyd.
Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)	Proses systematig ac ailadroddus sy'n digywdd wrth baratoi (ac adolygu) cynllun sy'n nodi ac yn adrodd ar i ba raddau bydd gweithredu'r cynllun yn cyflawni amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n ymgorffori gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf Cydraddoldeb, y Gymraeg, Asesiad Effaith ar Iechyd, a Deddf yr Amgylchedd (Adran 6) (lle bo hynny'n berthnasol).
Diagram Allweddol	Dehongliad ar ffurf diagram o strategaeth ofodol y CDLlA.
Tirlenwi	Safleoedd lle gwaredir gwastraff cartref, masnachol a diwydiannol trwy ei roi yn y ddaear.
Ardal Sensitif yn Ieithyddol	Ardal lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o wead cymdeithasol y gymuned.
Adeilad Rhestredig	Adeilad sydd ag amddiffyniad cyfreithiol arbennig, ac sydd ar y rhestr o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol a Hanesyddol Arbennig a luniwyd gan Cadw.
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol	Ei nod yw sicrhau bod rhywogaethau a'u cynefinoedd o bwysigrwydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn cael eu hamddiffyn rhag datblygiad amhriodol.
Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)	Y cynllun datblygu statudol sy'n ofynnol ar gyfer pob ardal Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Y CDLl cyfredol yw'r CDLl a fabwysiadwyd ar gyfer Castell-nedd Port Talbot. Fe'i mabwysiadwyd yn 2016 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o 2011 tan 2026. Mae'r CDLl Amnewid yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2023 a 2038.
Asesiad o'r Farchnad Dai Leol	Astudiaeth sydd wedi'i bwriadu i adolygu'r farchnad dai bresennol mewn ardal, ystyried natur yr angen am dai marchnad a fforddiadwy yn y dyfodol a llywio datblygiad polisi.

Tai Marchnad	Tai preifat i'w rhentu neu eu gwerthu lle pennir y pris ar y farchnad agored.
Ystyriaethau Pwysig	Ffactor sy'n berthnasol i ddatblygiad a defnydd tir, y dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniad ei ystyried wrth asesu a phenderfynu ar ganlyniad cais cynllunio.
Parth Clustogi Mwynau	Parth o amgylch gweithfeydd mwynau arfaethedig neu rai a ganiateir er mwyn sicrhau pellter gwahanu rhwng defnyddiau tir a allai wrthdaro.
Lliniaru	Mesurau i osgoi, lleihau neu wneud iawn am effeithiau niweidiol sylweddol.
Defnydd Cymysg	Datblygiadau neu gynigion sy'n cynnwys mwy nag un math o ddefnydd tir ar un safle.
Rhwydweithiau Safleoedd Cenedlaethol	Mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Newidiwyd) (Ymadael â'r UE) 2019 wedi creu rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol ar dir a môr, gan gynnwys ardaloedd morol mewndirol ac oddi ar y lan yn y Deyrnas Unedig. Mae'r rhwydwaith safleoedd cenedlaethol yn cynnwys ACAoedd ac AAAoedd sydd eisoes yn bodoli, ac ACAoedd ac AAAoedd newydd a ddynodwyd o dan y Rheoliadau hyn. Cyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel safleoedd Natura 2000.
Cynllun Rheoli Deunyddiau Naturiol	Mae gofyniad ym Mholisi Cynllunio Cymru i hybu defnydd effeithlon o adnoddau mwynau a lleiafu gwastraff.
Argyfwng Byd Natur	Gwnaeth Cymru ddatganiad cyntaf ynghylch Argyfwng Byd Natur yn 2019, ac o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae dyletswydd statudol ar y cyngor i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth ymarfer ei swyddogaethau.
Amcan	Datganiad ynghylch yr hyn a fwriadir, gan nodi'r cyfeiriad a ddymunir o ran newid tueddiadau.
Cefn Gwlad Agored	Tir y tu allan i ffiniau (datblygu) aneddiadau a ddiffiniwyd.
Creu Lleoedd	Dull cyfannol o ymdrin â chynllunio a dylunio datblygu a gofodau, gyda ffocws ar ganlyniadau cadarnhaol. Mae'n defnyddio potensial ardal i greu datblygu o safon uchel a mannau cyhoeddus sy'n hybu ffyniant,

	iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn yr ystyr ehangaf. Mae creu lleoedd yn ystyried cyd-destun a swyddogaeth safle datblygu a'r berthynas rhwng safle a'r cyd-destun ehangach. Bydd hynny'n wir yn achos datblygiadau mawr sy'n creu lleoedd newydd, yn ogystal â datblygiadau bach a grewyd o fewn lle ehangach. Ni ddylai creu lleoedd ychwanegu cost at ddatblygiad, ond bydd angen meddwl yn glyfar, mewn sawl dimensiwn, ac yn arloesol i roi hyn ar waith, a dylid ei ystyried ar y cam cynharaf posibl. Mae creu lleoedd yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i gynigion datblygu, gan greu manteision sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau diriaethol datblygiad ac yn gwreiddio gwydnwch ar lefel ehangach mewn penderfyniadau cynllunio.
Egwyddorion Creu Lleoedd	Fel y nodwyd yn Siarter Creu Lleoedd Cymru, mae'r rhain yn cynnwys: 1. Pobl a'r Gymuned 2. Lleoliad 3. Symudiad 4. Cyfuniad o ddefnyddiau 5. Parth Cyhoeddus 6. Hunaniaeth
Cyfnod y Cynllun	Y cyfnod sy'n cael ei gwmpasu gan gynllun. Mae CDLlA Castell-nedd Port Talbot yn cwmpasu'r cyfnod o 2023 i 2038.
Cais Cynllunio	Cais i'r Awdurdod Cynllunio Lleol am ganiatâd i lunio datblygiad o natur benodol neu safle/adeilad penodol, lle bydd angen talu ffi benodol fel arfer.
Amod Cynllunio	Mae modd rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar amodau cynllunio er mwyn sicrhau bod datblygiad, neu nad yw datblygiad yn cael ei gwblhau mewn ffordd benodol.
Rhwymedigaeth Gynllunio	Gall hwn fod yn ymrwymiad cyfreithiol gan ddatblygwr yn unig, neu'n gytundeb cyfreithiol rwymol gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Caiff rhwymedigaethau cynllunio eu pennu'n derfynol cyn rhoi caniatâd cynllunio. Fe'u defnyddir i sicrhau bod datblygiad yn cael ei lunio mewn ffordd benodol.

Caniatâd Cynllunio	Caniatâd a roddwyd ar gyfer cyflawni datblygiad penodol ar safle penodol. Mae modd rhoi caniatâd gydag amodau neu'n ddiamod.
Polisi Cynllunio Cymru (PCC)	Dyma'r brif ddogfen polisi cynllunio a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru. Caiff ei hategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) ac ar y cyd â chanllawiau eraill ar ffurf cylchlythyron etc., mae'n darparu cyd-destun cynhwysfawr ar gyfer polisi cynllunio defnydd tir cynaliadwy yng Nghymru. Gall y rhain yn eu crynswth neu'n rhannol fod yn ystyriaethau pwysig mewn penderfyniadau ac apeliadau cynllunio, a rhaid i awdurdodau cynllunio lleol roi sylw priodol i bolisi cenedlaethol wrth lunio'u Cynlluniau a'u Polisïau.
Polisïau	Gall y rhain weithredu mewn tair ffordd yn gyffredinol: (1) llywio cyfeiriad a natur twf yn y dyfodol; (2) hyrwyddo lleiniau penodol o dir er mwyn sbarduno neu symud ymlaen gyda datblygu trwy lunio dyraniadau clir; (3) sicrhau bod cynigion a geir gan ddatblygwyr yn cydymffurfio â pholisïau cenedlaethol, canllawiau rhanbarthol a'r strategaeth a fabwysiadwyd gan y Cynllun.
Ardal a Ragaseswyd ar gyfer Ynni Gwynt	Nodir 'Ardaloedd a Ragaseswyd ar gyfer Ynni Gwynt' yn Cymru'r Dyfodol. Ardaloedd yw'r rhain lle mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad y byddai datblygiadau yn dderbyniol.
Y Cyfnod Cyn Adnau/Strategaeth a Ffefrir	Cyfnod cyntaf ffurfiol y gwaith o baratoi'r Cynllun, lle gall unigolion a sefydliadau gyflwyno sylwadau ar y CDLlA.
Map o'r Cynigion	Elfen o'r CDLlA sy'n dangos dosbarthiad daearyddol y cynigion ar fap a seiliwyd ar yr Arolwg Ordnans.
Lle Hamdden	Mae hyn yn cyfeirio at fannau hamdden y gall y cyhoedd eu defnyddio, ac mae'n cynnwys meysydd chwarae, caeau a chyrtiau chwaraeon, mannau chwarae i blant, cyfleusterau i blant hŷn, mannau agored anffurfiol, mannau gwyrdd, parciau a rhandiroedd.

Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) / Darparwr Cofrestredig (DC)	Sefydliadau nid er elw sy'n darparu "tai cymdeithasol" cost isel. Maent yn darparu tai ar rent yn ogystal â chynlluniau rhannu perchnogaeth i helpu'r rhai sy'n methu fforddio prynu tŷ cyfan.
Ynni Adnewyddadwy	Ynni sy'n digwydd yn naturiol a thro ar ôl tro yn yr amgylchedd, er enghraifft o'r haul, o'r gwynt ac wrth i ddŵr gwympo.
Cynrychiolaeth	Sylwadau sy'n cefnogi, neu'n gwrthwynebu'r CDLlA.
Adroddiad Adolygu	Yr adroddiad statudol gofynnol o dan A69 o Ddeddf 2004 a/neu Reoleiddiad 41; dod i gasgliad ynghylch gweithdrefn diwygio'r CDLl sydd i'w ddilyn ar sail asesiad clir o'r hyn sydd wedi cael ei ystyried a beth sydd angen newid a pham, ar sail tystiolaeth.
Henebion Cofrestredig	Mae cofrestru yn golygu dethol safleoedd archaeolegol sydd â phwysigrwydd cenedlaethol. Gall y safleoedd hyn gynnwys meini hir a thwmpathau claddu.
Cytundeb Adran 106	Cytundeb cyfreithiol o dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Cytundebau Adran 106 yw cytundebau cyfreithiol rhwng Awdurdod Cynllunio a datblygwr, neu ymrwymiadau a gynigir yn unochrog gan ddatblygwr, sy'n sicrhau bod peth gwaith ychwanegol cysylltiedig â datblygiad yn cael ei wneud.
Terfyn Anheddiad	Terfynau Aneddiadau a ddiffinnir yn y CDLl cyfredol, y ceir cefn gwlad y tu hwnt iddynt.
Safleoedd pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) / Safle a allai fod yn Bwysig ar gyfer Cadwraeth Natur (pSINC)	Safleoedd cadwraeth natur sy'n bwysig yn lleol a gafodd eu mabwysiadu/nodi gan Awdurdodau Lleol at ddibenion cynllunio.
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	Safleoedd yw'r rhain sydd wedi cael eu cydnabod oherwydd pwysigrwydd eu gwerth biolegol, daearegol neu dirlun.
Cadernid	Y cysyniad a ddefnyddir ar gyfer archwilio CDLlA gan yr Arolygydd mewn Archwiliad Annibynnol, p'un a ddaeth cynrychiolaeth i law neu beidio, o dan benawdau cyffredinol gweithdrefn, cysondeb a chydlyniant ac effeithiolrwydd. Datblygwyd Fframwaith ar gyfer asesu cadernid CDLlau gan yr Arolygiaeth Gynllunio.

Cynllunio Gofodol	Dull modern o ymdrin â chynllunio defnydd tir, gan edrych y tu hwnt i'r effeithiau uniongyrchol ar ardal leol i ystyried goblygiadau ehangach datblygu, gan gynnwys sut mae cynigion yn integreiddio â strategaethau ac amcanion eang, ac yn eu cyflawni.
Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)	Safle a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd y Gymuned Ewropeaidd i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau sydd â phwysigrwydd rhyngwladol.
Ardal Tirlun Arbennig (ATA)	Dynodiad tirlun a ddefnyddir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddiogelu ardaloedd sydd â gwerth uchel i'r tirlun, mae ardaloedd o'r fath yn cael amddiffyniad dros ben 'polisïau cynllunio arferol' er mwyn gwarchod cefn gwlad.
Rhanddeiliaid	Grwpiau, unigolion neu sefydliadau y gall cynnig datblygu neu bolisi cynllunio effeithio arnyn nhw, neu fod o ddiddordeb mawr iddynt. Yn aml gallant fod yn arbenigwyr yn eu maes neu gynrychioli barn llawer o bobl.
Statudol	Gofynnol o dan y gyfraith e.e. Deddf Seneddol.
Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)	Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yw system o gynnwys ystyriaethau amgylcheddol mewn rhai cynlluniau a rhaglenni yn gynnar yn y broses o ddatblygu'r rhaglen neu'r cynllun.
Cyflwyno	Y cam ffurfiol pryd y cyflwynir y CDLIA i Lywodraeth Cymru ar gyfer archwiliad annibynnol gan arolygydd cynllunio a benodir gan y llywodraeth.
Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)	Modd i gyflwyno canllawiau manylach ar bwnc neu safle penodol o ran sut bydd polisïau'r CDLI yn cael eu cymhwyso o dan amgylchiadau penodol neu mewn ardaloedd penodol. Mae'r CCA cyfredol yn cyfeirio at y canllawiau a fabwysiadwyd ar gyfer y CDLI cyfredol. Mae'r CCA sy'n dod i'r amlwg yn cyfeirio at ganllawiau a baratoir ar gyfer y CDLIA.

Datblygu Cynaliadwy	Yn gyffredinol mae hyn yn golygu datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.
Twristiaeth Gynaliadwy	Cydbwyso uchelgeisiau twristiaeth â materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, yn ogystal â rhoi sylw i wella profiadau twristiaid ac ymdrin ag anghenion cymunedau sy'n eu lletya.
Nodiadau Cyngor Technegol (TANs)	Dogfennau a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad technegol manwl i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar faterion cynllunio penodol. Dylid darllen TANs ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio (Cymru) a dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol eu cymryd i ystyriaeth wrth baratoi cynlluniau datblygu. Gallant hefyd fod yn ystyriaethau cynllunio pwysig wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol.
Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV)	Tir amaethyddol gradd 1, 2 a 3a yn y system Dosbarthu Tir Amaethyddol (ALC) yw'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas a dylid ei gadw yn adnodd terfynedig ar gyfer y dyfodol.
Topograffi	Trefniant nodweddion ffisegol y tirlun.
Canol Trefi'n Gyntaf	Polisi yw hwn yn Cymru'r Dyfodol sy'n cyfeirio cyfleusterau newydd sylweddol o ran masnach, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus i ganol trefi a dinasoedd.
Coridorau Trafnidiaeth	Dyma'r prif lwybrau a nodwyd yn y Fwrdeistref Sirol ar gyfer symud pobl neu nwyddau.
Cerbydau â Lefel Eithriadol Isel o Allyriadau (ULEVs)	Cerbydau sy'n defnyddio amrywiaeth o dechnoleg, gan gynnwys pŵer hydrogen a batrïoedd, ac yn cynhyrchu lefel isel o allyriadau.
Dosbarth Defnydd	Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y'i newidiwyd) yn rhoi defnyddiau tir ac adeiladau mewn amrywiol gategorïau sy'n cael eu galw'n 'Ddosbarthiadau Defnydd', sy'n cyfeirio at y math o weithgaredd sy'n digwydd ar eiddo neu dir.

Hyb yn y Cymoedd	Lleoliad yw hwn a nodwyd i gydnabod ei swyddogaeth bwysig o ran darparu ystod o wasanaethau a chyfleusterau, a lle mae'r lleoliad daearyddol yn darparu cysylltiadau trafnidiaeth pwysig â'r ardal ehangach.
Ardal Cyfle'r Cymoedd	Mae'n cwmpasu ardaloedd gofodol Cwm Afan, Cwm Nedd, Cwm Dulais, Cwm Tawe, Dyffryn Aman a Phontardawe.
Gweledigaeth	Sut rhagwelir bydd Castell-nedd Port Talbot yn newid dros gyfnod y Cynllun.
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFGA) 2015	Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, er mwyn gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaol megis tlodi, anghydraddoldeb iechyd a'r newid yn yr hinsawdd.
Safleoedd Annisgwyl	Safle ar gyfer datblygiad tai newydd sydd heb ei ddyrannu ar hyn o bryd ond a allai gael ei gyflwyno i'w ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun.

Cliciwch ar y cod QR isod
am wybodaeth bellach

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council